
nationalgrid

DOGFEN 8.7

# Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

## National Grid (Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru)

*Regulation 5(2)(q) of the Infrastructure Planning*
*(Applications: Prescribed Forms and Procedure) Regulations 2009*



Application Reference EN020015

Medi 2018

# Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru

# Cyfrol 5

# Dogfen 8.7: Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

National Grid
National Grid House
Warwick Technology Park
Gallows Hill
Warwick
CV34 6DA

Terfynol Medi 2018

*Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol*

| Rheolaeth y Ddogfen | | | |
|---|---|---|---|
| **Priodweddau'r Ddogfen** | | | |
| **Sefydliad** | Cadnant Planning Limited | | |
| **Awdur(on)** | Sioned Edwards | | |
| **Cymeradwywyd gan** | Rhys Davies | | |
| **Teitl** | Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg | | |
| **Cyfeirnod y Ddogfen** | 5.26 | | |
| **Hanes y Fersiynau** | | | |
| **Dyddiad** | **Fersiwn** | **Statws** | **Disgrifiad/Newidiadau** |
| 03/09/2018 | A | Terfynol | Argraffiad Cyntaf |

## Cynnwys

**1 Cyflwyniad a Dull 1**

1.1 Cyflwyniad 1
1.2 Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg 1

**2 Deddfwriaeth, polisïau a chanllawiau 5**

2.1 Cyflwyniad 5
2.2 Pam fod angen cynnal AEIG? 5
2.3 Deddfwriaethau cenedlaethol ar gyfer iaith a chynllunio 6
2.4 Fframweithiau polisi iaith a pholisïau cynllunio cenedlaethol 7
2.5 Strategaethau iaith cenedlaethol 8
2.6 Polisïau a chanllawiau cynllunio lleol 9
2.7 Strategaethau lleol 12
2.8 Canllawiau perthnasol eraill 13

**3 Trosolwg o’r Prosiect a Chyflwyniad i’r Datblygiad Arfaethedig 14**

3.1 Cyflwyniad 14
3.2 Crynodeb o’r datblygiad 14
3.3 Cwmpasu ac ymgynghori 18

**4 Dull asesu 21**

4.1 Cyd-destun y fethodoleg 21
4.2 Ardaloedd astudiaeth yr AEIG 22
4.3 Dosbarthiad gofodol gweithwyr 23
4.4 Y fethodoleg fanwl 27

**5 Dadansoddiad o’r Waelodlin 33**

5.1 Trosolwg 33

**6 Asesiad o'r effeithiau 40**

6.1 Trosolwg 40
6.2 Nodweddion y boblogaeth 40
6.3 Ansawdd bywyd 49
6.4 Ffactorau economaidd 56
6.5 Cyflenwad seilwaith ac addysg 67
6.6 Agweddau cymdeithasol a diwylliannol 71
6.7 Casgliad 76

**7 Llyfryddiaeth 79**

| FFIGURAU | | |
|---|---|---|
| Ffigur 26.1 | Yr ardal teithio i'r gwaith | Dogfen 5.26.1.1 |

# 1 Cyflwyniad a Dull

## 1.1 CYFLWYNIAD

1.1.1 Cynhyrchwyd yr Asesiad hwn o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (AEIG) gan Cadnant Planning Ltd ar ran National Grid. Mae’r AEIG yn mynd gyda’r Cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) ar gyfer prosiect arfaethedig Cysylltiad Gogledd Cymru o Is-orsaf Wylfa ar Ynys Môn i Is-orsaf Pentir, Gwynedd (y Datblygiad Arfaethedig).

1.1.2 Mae Cymru yn wlad ddwyieithog, ac mae gan yr iaith Gymraeg statws swyddogol sy’n golygu na ddylai’r iaith Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg. Yn ôl rhagair y Gweinidogion i’r Strategaeth Iaith Gymraeg, Cymraeg 2050: ‘Mae’r iaith Gymraeg yn un o drysorau Cymru’ (Cyf 26.1). Mae hi’n rhan o’r hyn sy’n diffinio Cymru fel cenedl, ac yn rhan annatod o fywyd bob dydd. Mae Ynys Môn a Gwynedd ymhlith cadarnleoedd y Gymraeg, a dyma’r siroedd sy'n cynnwys y gyfran uchaf a’r ail uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

1.1.3 Mae’r AEIG hwn yn cyflwyno asesiad o effeithiau’r Datblygiad Arfaethedig ar y Gymraeg a’i diwylliant. Ategir y ddogfen hon gan Atodiad 26.1, Gwaelodlin AEIG (**Dogfen 5.26.2.1**), sy’n cynnwys data gwaelodlin cymunedol ac ieithyddol, gan gynnwys nifer y siaradwyr Cymraeg a’r sgiliau iaith Gymraeg yn yr Ardal teithio i’r Gwaith (TTWA) a’r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is perthnasol (LSOA).[1]

## 1.2 ASESIAD O’R EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG

1.2.1 Mae AEIG yn adnodd i gefnogi’r broses o wneud penderfyniadau wrth asesu effeithiau posibl prosiect neu ddatblygiad ar yr iaith Gymraeg a’i diwylliant. Mae AEIG wedi dod yn rhan sefydlog o’r system gynllunio yng Nghymru i roi ystyriaeth i les yr iaith Gymraeg yn y broses ddatblygu.

1.2.2 Mae AEIG yn asesu effeithiau tebygol datblygiad arfaethedig ar y pum prif agwedd ar fywyd cymunedol er mwyn gweld beth yw’r effaith ar gymuned yn gyffredinol ac, yn fwy penodol, ar y Gymraeg a’i diwylliant. Caiff y pum agwedd allweddol ar fywyd cymunedol sy’n cael eu hystyried mewn AEIG eu nodi mewn

[1] Mae’r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is hyn yn ardaloedd daearyddol bychan y mae’r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cyfeirio atynt. Mae 1,909 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru, ac mae pob un wedi’i sgorio yn ôl lefel amddifadedd. Mae ‘degraddau’ wedi’u nodi fel rhan o’r broses hon. Degradd 1 yw’r 10% o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf amddifad, a Degradd 10 yw’r 10% o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is lleiaf amddifad.

canllawiau cynllunio sydd wedi’u hen sefydlu, gan gynnwys Canllawiau Cynllunio Atodol (SPG) ym Môn a Gwynedd. Dyma’r pum agwedd allweddol:

- nodweddion y boblogaeth;
- ansawdd bywyd;
- ffactorau economaidd;
- cyflenwad seilwaith; ac
- agweddau cymdeithasol a diwylliannol.

1.2.3 Wrth asesu cynigion datblygu, rhoddir ystyriaeth i ddeunaw o gwestiynau fel rhan o broses yr AEIG i alluogi’r sawl sy’n gwneud y penderfyniad i ffurfio barn am effeithiau cynnig ar yr iaith a’r diwylliant Cymraeg. Nodir y cwestiynau hyn mewn canllawiau sydd wedi’u hen sefydlu ar gyfer cynnal AEIG ac o fewn Canllawiau Cynllunio Atodol a fabwysiadwyd (gweler adran 4). Pan fydd asesiad yn nodi effeithiau niweidiol ar yr iaith a’r diwylliant Cymraeg, dylai mesurau lliniaru gael eu hawgrymu i liniaru’r effeithiau niweidiol hynny.

1.2.4 Mae’r dull a ddefnyddiwyd yn yr AEIG, yn unol â’r Canllawiau Cynllunio Atodol a fabwysiadwyd (darllenwch adran 2.6), yn wahanol i’r dull a ddefnyddiwyd yn yr Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol (EIA) a’i Ddatganiad Amgylcheddol (ES) cysylltiedig. I ddibenion yr EIA, dim ond pan fydd asesiad yn dod i’r casgliad y byddai effeithiau niweidiol sylweddol, hynny yw, pan fydd yr effaith yn gymedrol niweidiol neu’n sylweddol niweidiol, y bydd disgwyl cael mesurau lliniaru. Mae canllawiau’r AEIG, gan gynnwys y Canllawiau Cynllunio Atodol a fabwysiadwyd, yn mynnu bod mesurau lliniaru’n cael eu cynnig pan fydd unrhyw effaith niweidiol yn cael ei nodi; felly, at ddibenion yr asesiad hwn, bydd mesurau lliniaru’n berthnasol i unrhyw effeithiau niweidiol bychan, nid dim ond effeithiau cymedrol neu sylweddol yn unig. Ni chynigir unrhyw fesurau lliniaru ar gyfer effeithiau niweidiol bach iawn neu effeithiau niwtral.

1.2.5 Mae’r Canllawiau Cynllunio Atodol yn argymell pan fydd effeithiau manteisiol posibl yn cael eu canfod, gallai mesurau gwella gael eu hawgrymu er mwyn gwella'r effeithiau manteisiol hyn ymhellach ar yr iaith a’r diwylliant Cymraeg. Fodd bynnag, nid oes unrhyw welliannau’n cael eu cynnig ar gyfer effeithiau manteisiol bach iawn neu niwtral yn yr asesiad hwn.

*Nodau ac amcanion yr AEIG*

1.2.6 Nod yr AEIG hwn yw asesu effeithiau posibl y Datblygiad Arfaethedig ar yr iaith a’r diwylliant Cymraeg.

1.2.7 Mae amcanion yr AEIG wedi'u nodi isod:

- sefydlu faint o Gymraeg sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd a phroffil cymunedol sy'n berthnasol i ardaloedd yr astudiaeth er mwyn deall sut byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn effeithio ar y Gymraeg a'i diwylliant;

- rhagweld, dadansoddi ac asesu effeithiau tebygol y Datblygiad Arfaethedig, gan gynnwys effeithiau cymunedol ac ieithyddol uniongyrchol ac anuniongyrchol ac effeithiau cronnus; a

- llunio mesurau lliniaru a chynigion gwella i leihau effeithiau niweidiol ac i wella effeithiau manteisiol a nodwyd fel rhan o'r asesiad.

1.2.8 Mae'r asesiad sy'n dilyn yn disgrifio'r effeithiau a ragwelir yn ystod adeiladu a gweithredu'r Datblygiad Arfaethedig. Byddai disgwyl i'r effeithiau yn ystod y camau cynnal a chadw a datgomisiynu fod yn debyg i'r rhai ar gyfer adeiladu, ond yn fwy lleol ac yn para llai.

1.2.9 Mae'r effeithiau cysylltiedig ag adeiladu'n cael eu hystyried yn rhai 'tymor byr', ac ystyrir yr effeithiau cysylltiedig â gweithredu yn rhai 'tymor hir'.

1.2.10 Gan ystyried na fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn dod ag unrhyw weithwyr parhaol i'r ardal leol, ni ystyrir bod oedran a phroffil gweithwyr adeiladu yn berthnasol i ddibenion asesu.

1.2.11 Nid yw'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Gwynedd a Môn (sydd wedi'i restru yn adran 4) yn pennu asesiad cynyddol fel un o ofynion AEIG. Mae asesiad o'r Effeithiau Rhwng Prosiectau ar gael ym Mhennod 20 y Datganiad Amgylcheddol (**Dogfen 5.20**).

*Dogfennau cysylltiedig*

1.2.12 Mae dwy brif ddogfen sy'n mynd gyda'r cais am DCO wedi'u defnyddio at ddibenion yr AEIG. Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg a'i diwylliant a, phan fydd yn berthnasol, mae'r AEIG hwn yn cyfeirio at yr adroddiadau eraill hyn ac yn eu llywio hefyd. Dyma'r adroddiadau hynny:

- Y Datganiad Amgylcheddol (**Dogfennau 5.1 i 5.22**) (sy'n cynnwys asesiadau technegol, gan gynnwys asesiad o effeithiau economaidd-gymdeithasol, a gyflwynir ym Mhennod 17 y Datganiad Amgylcheddol, Materion Economaidd-gymdeithasol (**Dogfen 5.17**)) ac

- yr Adroddiad Lles (WBR) (**Dogfen 5.27**). Mae'r Adroddiad Lles yn cyfeirio at ddogfennau yn y Datganiad Amgylcheddol sy'n berthnasol i les. Er nad oes asesiad ar wahân o'r effeithiau ar les yn cael ei ddarparu, mae'r Adroddiad Lles yn dangos sut mae materion sy'n ymwneud â lles wedi cael eu hystyried yn y cais.

1.2.13 Mae'r dogfennau canlynol yn berthnasol i'r AEIG hefyd:

- Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol Adeiladu (**Dogfen 7.4**);
- Rhestr o Ymrwymiadau Amgylcheddol (**Dogfen 7.4.2.1**);
- Achos Angen y Prosiect (**Dogfen 7.1**);
- Datganiad Amgylcheddol, Atodiad 17.4 Canlyniadau Arolwg Busnes (**Dogfen 5.17.2.4**); ac
- Adroddiad yr Ymgynghoriad (**Dogfen 6.1**).

1.2.14 Disgrifir y dull gweithredu o ran llwybrau yn fanwl yn y dogfennau canlynol ar gyfer y DCO:

- Adroddiad Alinio Llwybr Drafft (**Dogfen 9.5**);
- Adroddiad Dewis Llwybr sy'n cael ei Ffafrio (**Dogfen 9.4**); a'r
- Adroddiad Dylunio (**Dogfen 7.17**).

# 2 Deddfwriaeth, polisïau a chanllawiau

## 2.1 CYFLWYNIAD

2.1.1 Mae'r AEIG hwn wedi'i baratoi mewn ymateb i strategaethau, canllawiau a fframweithiau polisi cynllunio lleol a chenedlaethol ynghyd â deddfwriaethau perthnasol, sy'n cydnabod pwysigrwydd yr iaith Gymraeg fel mater cynllunio.

## 2.2 PAM FOD ANGEN CYNNAL AEIG?

2.2.1 Mae Cymru yn wlad ddwyieithog lle mae gan yr iaith Gymraeg statws swyddogol. Fael y nodir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Cyf 26.2) mae effaith gyfreithiol i'r statws swyddogol hwn, ac mae'n golygu na ddylai'r iaith Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg yng Nghymru. Mae'r iaith Gymraeg yn nodwedd sy'n diffinio Cymru fel cenedl, ac mae'n rhan annatod o fywyd bob dydd.

2.2.2 Mae modd ystyried mai Ynys Môn a Gwynedd ydy'r fro Gymraeg lle mae'r Gymraeg ar ei chryfaf, wrth gymharu ag ardaloedd eraill o Gymru. Er mai dim ond 19% o boblogaeth Cymru oedd yn siarad Cymraeg yn 2011, roedd cyfran y siaradwyr Cymraeg yn Ynys Môn ac yng Ngwynedd yn uwch o lawer: 57.2% a 65.4% yn y drefn honno. Ar ben hynny, mae Horizon yn cydnabod bod y Gymraeg a'i diwylliant yn elfennau annatod o wead cymdeithasol y cymunedau a'u bod wrth galon yr ymdeimlad o hunaniaeth sydd gan lawer o bobl.

2.2.3 Bydd ffyniant y Gymraeg fel iaith gymunedol yn y dyfodol yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, fel newidiadau demograffig, yr economi, cyfleoedd cyflogaeth, argaeledd a phrisiau tai a'r system addysg.

2.2.4 Yng ngoleuni'r uchod, yng Nghymru, mae'r iaith Gymraeg yn ystyriaeth gynllunio statudol o bwys y mae'n rhaid rhoi sylw iddi wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, fel yr amlinellwyd yn Adran 31 Deddf Cynllunio (Cymru) 2015. Yn unol â pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol (gweler **Tabl 26.1** a **Tabl 26.5**), rhaid i rai prosiectau yng Nghymru fynd drwy broses asesu benodol oherwydd eu natur, eu maint a'r potensial iddynt effeithio'n sylweddol ar yr iaith Gymraeg. Mae datblygiadau seilwaith mawr fel y Datblygiad Arfaethedig yn dod i'r categori hwn ac felly'n destun AEIG.

## 2.3 DEDDFWRIAETHAU CENEDLAETHOL AR GYFER IAITH A CHYNLLUNIO

2.3.1 Mae Tabl 26.1 yn rhestru’r ddeddfwriaeth berthnasol ac yn crynhoi’r gofynion deddfwriaethol.

**Tabl 26.1: Deddfwriaethau cenedlaethol ar gyfer iaith a chynllunio**

| Dogfen | Crynodeb |
|---|---|
| Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 | Gwnaeth ddarpariaeth ar gyfer statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru a chreodd fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer yr iaith Gymraeg. Mae pump o Reoliadau Safonau'r Gymraeg wedi'u mabwysiadu ers mis Mawrth 2015, sy’n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol, Gweinidogion Cymru a sefydliadau penodol i hyrwyddo’r Gymraeg. Mae’r rheoliadau yn pennu safonau darparu gwasanaeth, safonau llunio polisi, safonau gweithredu, a safonau cadw cofnodion ar gyfer sefydliadau. Dyma nodau Rheoliadau Safonau’r Gymraeg:<br>• gwella’r gwasanaethau y gall siaradwyr Cymraeg ddisgwyl eu cael gan sefydliadau drwy gyfrwng y Gymraeg;<br>• cynyddu nifer y bobl sy’n defnyddio gwasanaethau Cymraeg;<br>• dweud yn glir wrth sefydliadau beth mae angen iddynt ei wneud o ran y Gymraeg; a<br>• sicrhau bod cysondeb priodol o ran y dyletswyddau sydd ar gyrff yn yr un sector (Cyf 26.2). |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 | Yn gosod nodau uchelgeisiol, tymor hir o ran llesiant i adlewyrchu’r Gymru y mae pobl Cymru eisiau byw ynddi yn awr ac yn y dyfodol.<br>Mae’r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus feddwl mwy am y tymor hir, gweithio’n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd, ceisio atal problemau a dilyn dull gweithredu mwy cydlynol – gan helpu i greu Cymru rydyn ni eisiau byw ynddi nawr ac yn y dyfodol.<br>Un o’i nodau yw creu Cymru â diwylliant bywiog gyda’r Gymraeg yn ffynnu a lle mae cymdeithas yn hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a’r iaith Gymraeg. Mae’n nodi carreg filltir bwysig i’r iaith, gan danlinellu ei |

| Tabl 26.1: Deddfwriaethau cenedlaethol ar gyfer iaith a chynllunio | |
|---|---|
| Dogfen | Crynodeb |
| | statws swyddogol (Cyf 26.3). |
| Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 | Daeth y Ddeddf hon yn gyfraith yng Nghymru ar 6 Gorffennaf 2015 ac mae’n gwneud darpariaethau eang. Mae adrannau 11 a 31 y Ddeddf yn ymwneud â’r iaith Gymraeg. Mae Adran 11 y Ddeddf yn ei gwneud yn orfodol i bob awdurdod cynllunio lleol ystyried effaith eu cynlluniau datblygu ar yr iaith Gymraeg. Mae adran 31 y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw ystyriaethau sy'n ymwneud â'r defnydd o’r Gymraeg, cyn belled â’u bod yn berthnasol i’r cais, gael eu hystyried wrth benderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio. Gyda'i gilydd, mae’r ddwy adran yn sicrhau bod ystyriaeth gyson a phriodol yn cael ei rhoi i’r iaith Gymraeg wrth baratoi cynlluniau datblygu ac wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio (Cyf 26.4). |

## 2.4 FFRAMWEITHIAU POLISI IAITH A PHOLISÏAU CYNLLUNIO CENEDLAETHOL

2.4.1 Mae’r polisïau cynllunio cenedlaethol a’r fframweithiau polisi iaith perthnasol yn cael eu rhestru yn Tabl 26.2

| Tabl 26.2: Fframweithiau polisi iaith a pholisïau cynllunio cenedlaethol | |
|---|---|
| Dogfen | Crynodeb |
| Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 9 (Llywodraeth Cymru) (Cyf 26.5) | Mae Pennod 4 (Cynllunio ar gyfer Cynaliadwyedd) yn nodi’r iaith Gymraeg fel rhan o wead diwylliannol a chymdeithasol Cymru ac mae’n cadarnhau bod Llywodraeth Cymru wedi ymroi i sicrhau caiff yr iaith Gymraeg ei chefnogi a’i hannog i ffynnu. Gall ystyriaethau’n ymwneud â defnyddio’r iaith Gymraeg eu hystyried wrth benderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio ar yr amod eu bod yn berthnasol i’r cais. |
| Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 10 (Llywodraeth Cymru) | Mae fersiwn ddrafft o Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10) yng nghanol proses ymgynghori ar hyn o bryd. |
| Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20 | Mae’n cydnabod bod y Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol a diwylliannol Cymru. Bydd dyfodol yr iaith |

| **Tabl 26.2: Fframweithiau polisi iaith a pholisïau cynllunio cenedlaethol** | |
|---|---|
| Dogfen | Crynodeb |
| – Cynllunio a’r Iaith Gymraeg (Llywodraeth Cymru) (Cyf 26.6) | Iedled Cymru yn dibynnu ar ystod eang o ffactorau y tu hwnt i system gynllunio gwlad a thref, yn enwedig addysg, newid demograffig, gweithgareddau cymunedol a sylfaen economaidd gadarn er mwyn cynnal cymunedau cynaliadwy sy'n ffynnu.<br>Mae’n cynghori ar rôl y system cynllunio defnydd tir o ran cyfrannu at ffyniant yr iaith Gymraeg yn y dyfodol drwy sefydlu’r amodau i ganiatáu i gymunedau cynaliadwy ffynnu.<br>Mae’r TAN yn cadarnhau, wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ac apeliadau, gellid rhoi sylw i ystyriaethau sy’n ymwneud â'r Gymraeg, cyn belled â’u bod yn berthnasol. Nid yw Adran 70(2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y’i diwygiwyd) yn rhoi unrhyw bwys ychwanegol ar y Gymraeg uwchlaw unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill, ac mae’n rhaid i benderfyniadau ar yr holl geisiadau am ganiatâd cynllunio fod yn seiliedig ar resymau cynllunio yn unig a bod yn rhesymol. |
| Cynllun Gofodol Cymru - Pobl, Lleoedd, Dyfodol (Diweddariad 2008) (Llywodraeth Cymru) (Cyf 26.7) | Mae Cynllun Gofodol Cymru yn rhoi fframwaith strategol er mwyn cyfeirio ymyriadau datblygu a pholisi yng Nghymru yn y dyfodol. Mae’n nodi *“bod gan y Gymraeg ran bwysig i'w chwarae yn ein cymunedau ac y dylid ei hyrwyddo fel nodwedd gadarnhaol i'r ardal”.* |

## 2.5 STRATEGAETHAU IAITH CENEDLAETHOL

2.5.1 Ceir crynodeb o strategaethau iaith cenedlaethol yn **Error! Reference source not found.**Tabl 26.3.

| **Tabl 26.3: Strategaethau iaith cenedlaethol** | |
|---|---|
| Dogfen | Crynodeb |
| Cymraeg 2050: Strategaeth Iaith Gymraeg - Miliwn o siaradwyr Cymraeg (Llywodraeth Cymru)(Cyf 26.1) | Cafodd y strategaeth ei lansio gan y Prif Weinidog a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar 10 Gorffennaf 2017 er mwyn cael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.<br>Mae’r strategaeth yn dweud bod *“yr her o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn galw am newidiadau* |

| | |
|---|---|
| | *pellgyrhaeddol."* Mae tair thema strategol wedi'u nodi yn y strategaeth er mwyn gwireddu'r weledigaeth:<br>• cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg;<br>• cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg; a<br>• chreu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun. |

## 2.6 POLISÏAU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO LLEOL

2.6.1 Mae ardal yr astudiaeth ar gyfer yr AEIG hwn (fel y mae wedi'i diffinio yn adran 4.2) yn cynnwys ardaloedd daearyddol sy'n dod yn bennaf o fewn siroedd Ynys Môn a Gwynedd, ond hefyd yn cynnwys rhannau o Gonwy yn ogystal â rhannau o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae Tabl 26.4 yn cyflwyno'r polisïau cynllunio sy'n adlewyrchu'r gwahanol awdurdodaethau hyn. Mae Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLlC) Ynys Môn a Gwynedd yn darparu canllawiau mwy cyfredol ar bolisïau cynllunio na'r dogfennau a farciwyd gyda seren (*). Fodd bynnag, mae'r rhain yn parhau i fod yn ystyriaethau cynllunio o bwys ac fe'u defnyddir i ddibenion rheoli datblygu.

**Tabl 26.4: Polisïau a chanllawiau cynllunio lleol**

| Dogfen | Crynodeb |
|---|---|
| Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (CDLlC) 2011-2016. Datganiad Ysgrifenedig (Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) a Chyngor Gwynedd (Cyf 26.8) | Mae Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd 2011-2016 (Datganiad Ysgrifenedig), yn cynnwys polisi penodol (Polisi PS1 yr iaith Gymraeg a'i diwylliant) i roi sylw i'r iaith a'r diwylliant Cymraeg, a pholisïau eraill i hyrwyddo a chefnogi defnydd o'r iaith Gymraeg. Mae'r polisïau yn ceisio hwyluso'r math o ddatblygiad a all greu'r amgylchiadau cywir i gyfrannu tuag at gynnal a chreu cymunedau sy'n siarad Cymraeg.<br>Mae polisi PS1 y CDLlC yn ei gwneud yn ofynnol i AEIG nodi sut y bydd datblygiadau arfaethedig yn gwarchod, yn hyrwyddo ac yn gwella'r iaith Gymraeg. Mae polisi PS1 hefyd yn datgan y bydd y Cynghorau'n gwrthod cynigion a fyddai'n achosi niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd ieithyddol cymuned na ellir ei osgoi neu ei liniaru'n briodol drwy fecanweithiau cynllunio priodol. |
| Cynllun Datblygu Lleol Conwy (LDP) (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyf 26.9) | Mae Cynllun Datblygu Lleol Conwy yn cynnwys polisi penodol i roi sylw i'r iaith Gymraeg, a pholisïau eraill i hyrwyddo'r broses o warchod a hybu'r iaith Gymraeg. Mae'r polisïau yn gofyn am ddatblygu i gefnogi a chynnal llesiant tymor hir y Gymraeg. |
| Cynllun Datblygu | Mae Cynllun Datblygu Lleol Eryri yn cynnwys polisi |

| Tabl 26.4: Polisïau a chanllawiau cynllunio lleol | |
|---|---|
| Dogfen | Crynodeb |
| Lleol Eryri 2007-2022 (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) (Cyf 26.10) | penodol i roi sylw i’r Gymraeg, ac mae polisïau eraill yn hyrwyddo'r gwaith o ddiogelu a chryfhau'r Gymraeg. Mae'r polisïau yn ceisio hwyluso’r math o ddatblygu sy'n cynnal neu’n cryfhau integredd y Gymraeg. |
| Cynllun Integredig Sengl Ynys Môn 2013-2025 (CSYM) (Cyf 26.15) | Mae’n canolbwyntio ar wella ansawdd bywyd pobl a chymunedau lleol drwy wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.<br>Mae’r cyfleoedd yn y sector ynni carbon-isel yn cael eu hystyried yn hanfodol i wella perfformiad economaidd a lefel sgiliau’r gweithlu ar Ynys Môn. Hefyd, mae’r cynllun yn nodi bod y Gymraeg, ei diwylliant a’i threftadaeth yn elfennau ffyniannus ac annatod o wead cymdeithasol cymunedau Ynys Môn. |
| Cynllun Cyngor Sir Ynys Môn 2017-2022 (CSYM) (Cyf 26.53). | Mae Cynllun y Cyngor yn anelu at weithio gyda chymunedau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel a fydd yn gwella ansawdd bywyd ar gyfer pawb ar yr ynys. Mae’r Cynllun yn nodi tair blaenoriaeth:<br>1. Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu cyflawni eu potensial tymor hir;<br>2. Cefnogi oedolion a theuluoedd sy'n agored i niwed a'u cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl; a<br>3. Sicrhau y gall pob cymuned ymdopi’n effeithiol â newid a datblygu wrth warchod ein hamgylchedd naturiol. |
| Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023 (Cyngor Gwynedd) (Cyf 26.54) | Mae Cynllun y Cyngor yn seiliedig ar saith o amcanion lles, sy’n sicrhau y gall trigolion Gwynedd wneud y canlynol:<br>1. Mwynhau bywyd iach a diogel;<br>2. Byw mewn cartrefi o ansawdd yn eu cymunedau;<br>3. Byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg;<br>4. Derbyn addysg o’r ansawdd uchaf a fydd yn eu galluogi i wneud yr hyn y maent am ei wneud;<br>5. Ennill cyflog digonol i allu cynnal eu hunain a’u teuluoedd;<br>6. Byw’n annibynnol a gydag urddas gyhyd ag sy’n bosibl; a<br>7. Manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y sir.<br>Mae’r cynllun hefyd yn nodi bod hyrwyddo defnydd o’r iaith Gymraeg yn un o brif flaenoriaethau’r cyngor, ac y bydd yn |

**Tabl 26.4: Polisïau a chanllawiau cynllunio lleol**

| Dogfen | Crynodeb |
|---|---|
| | parhau i ddarparu arweiniad a hyrwyddo defnyddio’r iaith Gymraeg ar bob achlysur. |
| Cynllun Lles Gwynedd a Môn (Drafft) (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn) (Cyf 26.52) | Mae’r Cynllun Lles (sydd wrthi’n cael ei ddatblygu) yn nodi naw o flaenoriaethau:<br>1. Yr angen i gynnal ysbryd cymunedol iach.<br>2. Pwysigrwydd gwarchod yr amgylchedd naturiol.<br>3. Deall effaith newidiadau demograffig.<br>4. Gwarchod a hyrwyddo'r iaith Gymraeg.<br>5. Hyrwyddo’r defnydd o adnoddau naturiol i wella iechyd a lles yn y tymor hir.<br>6. Gwella’r cysylltiadau trafnidiaeth i alluogi mynediad at wasanaethau a chyfleusterau.<br>7. Yr angen am swyddi o ansawdd da a chartrefi fforddiadwy ar gyfer pobl leol.<br>8. Effaith tlodi ar les.<br>9. Sicrhau cyfle i bob plentyn lwyddo. |
| Canllawiau Cynllunio Atodol; Cynllunio a’r Iaith Gymraeg (CSYM, 2007) (Cyf 26.11)* | Mae’n cynnig arweiniad ar sut bydd yr awdurdod cynllunio yn gwneud penderfyniadau ynghylch effaith datblygiadau arfaethedig ar y Gymraeg ac yn rhoi cyngor ar yr wybodaeth atodol sy’n angenrheidiol a’r fethodoleg ar gyfer yr AEIG. |
| Canllawiau Cynllunio Atodol: Cynllunio a’r Iaith Gymraeg (Cyngor Gwynedd, 2009) (Cyf 26.12)* | |
| Canllawiau Cynllunio Atodol: LDP06 – Yr Iaith Gymraeg (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, 2014) (Cyf 26.13) | |
| Canllawiau Cynllunio Atodol: Cynllunio a’r Iaith Gymraeg | |

| **Tabl 26.4: Polisïau a chanllawiau cynllunio lleol** | |
|---|---|
| Dogfen | Crynodeb |
| (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, 2011a) (Cyf 26.14) | |

## 2.7 STRATEGAETHAU LLEOL

2.7.1 Mae Tabl 26.5 yn rhoi crynodeb o strategaethau cynllunio lleol.

| **Tabl 26.5: Strategaethau lleol** | |
|---|---|
| Dogfen | Crynodeb |
| Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021 (Fforwm Strategol Iaith Gymraeg Ynys Môn, 2016) (Cyf 26.17) | Strategaeth iaith Gymraeg a luniwyd gan Fforwm Strategol Iaith Gymraeg Ynys Môn, sef fforwm wedi ei gadeirio'n annibynnol, sy’n cynnwys aelodau o wahanol grwpiau a sefydliadau sy'n gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r strategaeth iaith yn dynodi tri maes blaenoriaeth sy'n sail i'r strategaeth, sy'n cynnwys:<br>• Maes Blaenoriaeth 1 - plant a phobl ifanc/y teulu;<br>• Maes Blaenoriaeth 2- y gweithle, gwasanaethau Cymraeg, y seilwaith; a<br>• Maes Blaenoriaeth 3 - y gymuned. |
| Strategaeth Iaith Gwynedd 2014-2017 (hunaniaith) (Cyf 26.18) | Strategaeth Iaith Gymraeg wedi’i llunio gan ‘hunaniaith’, sef corff sy’n gweithredu fel menter iaith yng Ngwynedd. Mae Cyngor Gwynedd wedi ymestyn cyfnod gweithredu’r strategaeth bresennol hyd at 2018 er mwyn sicrhau bod y strategaeth nesaf yn gyson â chynllun Llesiant Gwynedd ac i sicrhau bod y blaenoriaethau a'r cyfeiriad strategol a nodir yn y ddwy ddogfen mewn perthynas â'r Gymraeg, yn adlewyrchu ac yn cryfhau ei gilydd. Mae'r strategaeth iaith yn dynodi chwe maes strategol sy'n sail i'r strategaeth, sy'n cynnwys:<br>• y teulu;<br>• plant a phobl ifanc;<br>• cymunedau; |

| Tabl 26.5: Strategaethau lleol | |
|---|---|
| Dogfen | Crynodeb |
| | • gwasanaethau Cymraeg;<br>• y gweithle; a<br>• seilwaith. |

## 2.8 CANLLAWIAU PERTHNASOL ERAILL

2.8.1 Mae canllawiau perthnasol eraill wedi'u crynhoi yn Tabl 26.6

| Tabl 26.6: Canllawiau perthnasol eraill | |
|---|---|
| Dogfen | Crynodeb |
| Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi a Llywodraeth Cynulliad Cymru) (Cyf 26.19) | Y ddogfen hon yw'r gwaith a gwblhawyd gan gonsortiwm o sefydliadau a oedd yn cynnwys awdurdodau lleol, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, y Ffederasiwn Adeiladwyr Tai a Llywodraeth Cymru. Mae'r ddogfen yn cynrychioli ymdrechion yr holl bartneriaid sydd â diddordeb mewn datblygu dealltwriaeth well o'r berthynas rhwng cynllunio defnydd tir a'r iaith Gymraeg er mwyn hybu lles yr iaith a chymeriad diwylliannol cymunedau lleol. Nid yw'r ddogfen hon yn cynrychioli safbwynt polisi cynllunio unrhyw un o'r cyrff a gymerodd ran.<br>Mae'r ddogfen yn darparu canllawiau arfer gorau ar y fethodoleg ar gyfer cynnal AEIG. Caiff hyn ei adlewyrchu yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, mewn perthynas â'r Gymraeg. |

# 3 Trosolwg o’r Prosiect a Chyflwyniad i’r Datblygiad Arfaethedig

## 3.1 CYFLWYNIAD

3.1.1 Mae’r Datblygiad Arfaethedig wedi’i leoli yng Ngogledd Orllewin Cymru ac mae’n croesi ffiniau gweinyddol CSYM a Chyngor Gwynedd. Dangosir lleoliad y Datblygiad Arfaethedig yn y Datganiad Amgylcheddol yn Ffigur 1.1 (**Dogfen 5.1.1.1**).

## 3.2 CRYNODEB O’R DATBLYGIAD

*Y Cefndir*

3.2.1 Mae’r DU yn wynebu her enfawr i gwrdd â’r anghenion ynni amcanol dros y degawdau i ddod, gan fynd i’r afael â newid yn yr hinsawdd ar yr un adeg. Yr her sylweddol i National Grid a diwydiant ynni’r DU yw darparu ynni carbon isel mewn modd fforddiadwy, diogel a chynaliadwy.

3.2.2 Ar hyn o bryd caiff y rhan fwyaf o drydan ei gynhyrchu drwy losgi nwy neu lo neu drwy ddefnyddio gorsafoedd ynni niwclear neu gynnyrch adnewyddadwy fel ynni solar a gwynt. Fodd bynnag, mae potensial i oddeutu 20% o allu cynhyrchu ddiflannu o’r rhwydwaith trawsyrru trydan erbyn 2020, wrth i gyfran o’r gorsafoedd pŵer presennol gyrraedd diwedd eu cyfnod gweithredol neu fethu â chwrdd â gofynion deddfwriaeth newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn golygu bod angen buddsoddi’n sylweddol mewn safleoedd cynhyrchu trydan o’r newydd i gymryd lle gorsafoedd trydan y mae disgwyl iddynt gau ac i gwrdd â’r galw am ynni yn y dyfodol.

3.2.3 Dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 (Cyf 3.6), mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i leihau allyriadau $CO_2$ gan o leiaf 80% o lefelau 1990 erbyn 2050.

3.2.4 O’r herwydd, mae angen i farchnad ynni’r DU gyflenwi ynni o ffynonellau adnewyddadwy fel ynni gwynt, a hefyd ynni niwclear, i helpu i fynd i’r afael â newid yn yr hinsawdd a galluogi’r wlad i gwrdd â’i rhwymedigaethau cenedlaethol a rhyngwladol. Bydd cyflwyno cynhyrchu ynni gwynt a niwclear newydd dros y blynyddoedd nesaf yn galw am atgyfnerthu ac ymestyn y system bresennol o drawsyrru trydan.

3.2.5 Mae gan National Grid ddyletswydd statudol i hyrwyddo cystadleuaeth wrth gyflenwi trydan, ac mae’n rhaid iddo gynnig cysylltiad â’r system i unrhyw un sy’n gwneud cais am gysylltiad. Mae Pŵer Niwclear Horizon wedi gwneud cais i’r National Grid am gysylltu eu gorsaf niwclear newydd arfaethedig â’r

system genedlaethol yn Wylfa, Ynys Môn (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd). Byddai Gorsaf Bŵer arfaethedig Wylfa Newydd ar safle sydd eisoes wedi’i ddynodi ar gyfer y math hwn o ddatblygiad yn Natganiad Polisi Cenedlaethol (NPS) Llywodraeth y DU ar Gynhyrchu Ynni Niwclear – EN-6 (Cyf 26.55).

3.2.6 Mae National Grid eisoes yn berchen ar ac yn gweithredu is-orsaf bresennol yn Wylfa, y byddai Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd arfaethedig yn cysylltu â hi. Mae’r is-orsaf hon wedi’i chysylltu â’r system drawsyrru ar y tir mawr yng Ngogledd Cymru gan linell drydan 400kV uwchben, yn cysylltu yn is-orsaf bresennol National Grid ym Mhentir, Gwynedd. I ddarparu cyflenwadau trydan dibynadwy, ni all National Grid ganiatáu i fwy na 1,800 megawat (MW) o bŵer gael ei gysylltu gan unrhyw linell uwchben unigol. Gan y byddai cynnig Pŵer Niwclear Horizon yn golygu cyfanswm cynnyrch o 2,800 MW, mae angen ail gysylltiad rhwng Wylfa a’r system drawsyrru ar y tir mawr. Rhoddir manylion pellach am yr angen am yr ail gysylltiad hwn ym Mhrosiect Cysylltiad Gogledd Cymru, Achos Angen y Prosiect (**Dogfen 7.1**).

*Y Datblygiad Arfaethedig*

3.2.7 Byddai’r Datblygiad Arfaethedig yn darparu cysylltiad 400 cilofolt (kV) newydd rhwng yr is-orsafoedd presennol yn Wylfa a Phentir. Mae’r chwe rhan ganlynol wedi’i nodi ar hyd llwybr y Datblygiad Arfaethedig:

- Rhan A Wylfa i Rosgoch;
- Rhan B Rhosgoch i Landyfrydog;
- Rhan C Llandyfrydog i’r B5110 i’r gogledd o Dalwrn;
- Rhan D B5110 i’r gogledd o Dalwrn i bentref Ceint;
- Rhan E Ceint i Afon Braint; a
- Rhan F Afon Braint i Bentir.

3.2.8 Mae’r Datblygiad Arfaethedig yn cynnwys y prif elfennau canlynol:

- Addasiadau i’r is-orsaf bresennol yn Wylfa;
- Adrannau o linell uwchben 400 kV newydd rhwng is-orsaf Wylfa, Prif Dŷ Twnnel Afon Braint a’r Compownd Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio (CSEC) ar Ynys Môn, gan gynnwys addasu rhannau o'r llinell uwchben 400 kV bresennol rhwng Wylfa a Phentir;
- Prif Dŷ Twnnel Afon Braint a’r Compownd Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio ar Ynys Môn;

- Twnnel rhwng Prif Dai Twnnel Afon Braint a Thŷ Fodol;
- Prif Dŷ Twnnel Tŷ Fodol a'r Compownd Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio yng Ngwynedd;
- Adran newydd o linell uwchben 400 kV rhwng Prif Dŷ Twnnel Tŷ Fodol a'r Compownd Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio ac is-orsaf Pentir;
- Estyniad i'r is-orsaf bresennol ym Mhentir; a
- Chompowndiau adeiladu dros dro, traciau mynediad, ardaloedd gwaith adeiladu a gwaith trydydd parti sy'n ofynnol er mwyn adeiladu'r seilwaith a restrir uchod.

3.2.9 Mae Pennod 3 y Datganiad Amgylcheddol, Disgrifiad o'r Datblygiad Arfaethedig (**Dogfen 5.3**) yn rhoi disgrifiad o'r Datblygiad Arfaethedig o ran y seilwaith a gynigir, lle y dylai gael ei leoli, beth fyddai'r maint a sut byddai'n debygol o edrych.

3.2.10 Mae gwybodaeth am sut byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn cael ei adeiladu a'i weithredu ar gael ym Mhennod 4 y Datganiad Amgylcheddol, Adeiladu, Gweithredu, Cynnal a Chadw a Datgomisiynu'r Datblygiad Arfaethedig (**Dogfen 5.4**).

3.2.11 Mae'r opsiynau eraill a gafodd eu hystyried wrth ddatblygu'r Datblygiad Arfaethedig wedi'u nodi yn y dogfennau canlynol a cheir crynodeb ohonynt ym Mhennod 2 y Datganiad Amgylcheddol, Opsiynau Eraill, Hanes y Prosiect ac Ymgynghori Anstatudol (**Dogfen 5.2**):

- Wylfa i Bentir - Llinell Drawsyrru Trydan Uwchben – Adroddiad Canfod Coridor Llwybr (Hydref 2012) **(Dogfen 9.1)**;
- Wylfa i Bentir – Adroddiad Dewis Coridor Llwybr sy'n cael ei Ffafrio (Hydref 2015) **Dogfen 9.2**;
- Wylfa i Bentir – Adroddiad Opsiynau Llwybr (Hydref 2015) **(Dogfen 9.3)**;
- Adroddiad Dewis Coridor Llwybr sy'n cael ei Ffafrio – Wylfa i Ardal Croesi'r Fenai (Medi 2016) **(Dogfen 9.4)**;
- Adroddiad Alinio Llwybr Drafft – Wylfa i Ardal Croesi'r Fenai (Medi 2016) **(Dogfen 9.5)**; ac
- Adroddiad Croesi Afon Menai (Medi 2016) **(Dogfen 9.6)**.

*Rhaglen ddatblygu*

3.2.12 Mae Pennod 4 (**Dogfen 5.4**) yn cynnwys manylion y rhaglen adeiladu ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig. Disgwylir y bydd y gwaith o adeiladu’r twnnel ddechrau yn ystod trydydd chwarter 2020 a dod i ben yn ystod chwarter olaf 2026. Disgwylir y bydd y gwaith o adeiladu’r llinell uwch ben yn dechrau yn 2022 ac yn cael ei gwblhau erbyn diwedd 2026. Disgwylir y bydd y gwaith yn is-orsaf Wylfa yn dechrau yn gynnar yn 2024, ac y bydd yn cael ei gwblhau yn ystod ail chwarter 2026. Mae disgwyl i’r gwaith o ymestyn is-orsaf Pentir ddechrau yn 2023, a dod i ben yn 2026.

*Proffil y gweithlu*

3.2.13 Adeg yr asesiad, mae tri senario posibl gyfer cyfeiriad/dull y twnelu rhwng Ynys Môn a Gwynedd. Ceir dau senario o ran y peiriant tyllu twnnel (TBM) i adeiladu’r twnnel, Senario 1, twnelu o Braint (siafft yrru) i Dŷ Fodol (siafft dderbyn) a Senario 2, twnelu o Dŷ’r Fodol (siafft yrru) i Braint (siafft dderbyn). Asesir trydydd senario hefyd, sef ‘drilio a ffrwydro’. Paratowyd rhaglenni ar gyfer y gweithlu i gwmpasu pob un o’r senarios uchod. Crynhoir y tri opsiwn twnelu fel a ganlyn:

- Senario 1 – Peiriant Tyllu Twnnel (TBM) o Braint (Ynys Môn) i Dŷ Fodol (Gwynedd);
- Senario 2 – TBM, o Tŷ Fodol i Braint; a
- Senario 3 – Drilio a ffrwydro o Braint a Thŷ Fodol.

3.2.14 Mae rhagor o wybodaeth am y tri senario ar gael ym Mhennod 4 y Datganiad Amgylcheddol, Adeiladu, Gweithredu, Cynnal a Chadw a Datgomisiynu’r Datblygiad Arfaethedig (**Dogfen 5.4**).


3.2.15 Fel y nodir ym Mhennod 17 y Datganiad Amgylcheddol, Materion Economaidd-Gymdeithasol (**Dogfen 5.17**) ac a ddangosir yn Nelwedd 26.1, amcangyfrifir y bydd ffigur uchaf y gweithlu ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig oddeutu 447, ar sail ffigur uchaf o ran gweithlu ar gyfer Senario 3. Mae’r gwahaniaeth yn ffigurau uchaf y gweithlu yn digwydd oherwydd y ffordd y bydd y gweithgareddau adeiladu’n gorgyffwrdd.

3.2.16 Nodir y pwyntiau canlynol:

- Mae’r rhaglenni adeiladu ar gyfer y twnelu yn y naill senario a’r llall yn ddangosol yn unig, ar sail gwybodaeth a phrofiad National Grid.
- Ar gyfer pob un o’r tair rhaglen mae cyfanswm y cyfnod oddeutu 75 mis.
- Ar gyfer Senario 1, y nifer cyfartalog o weithwyr adeiladu y mis yw 218.

- Ar gyfer Senario 2, y nifer cyfartalog o weithwyr adeiladu y mis yw 212.
- Ar gyfer Senario 3, y nifer cyfartalog o weithwyr adeiladu y mis yw 224.
- Yn gyffredinol, nifer cyfartalog y gweithwyr adeiladu fesul mis yw 218 dros raglen 75 mis.
- Mae'r rhaglen ar gyfer adeiladu llinell uwchben, ac adeiladu a chomisiynu is-orsaf yr un fath ar gyfer pob un o'r tri opsiwn. Dim ond yng nghyswllt y tri senario twnelu y mae'r rhaglen yn amrywio.

**Delwedd 26.1 Nifer y gweithwyr ar gyfer Senario 1, 2 a 3**




## 3.3 CWMPASU AC YMGYNGHORI

3.3.1 Cyflwynir manylion ynghylch ymgynghori yn ystod gwaith cwmpasu'r EIA ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig ym Mhennod 5 y Datganiad Amgylcheddol, Ymgynghoriad EIA (**Dogfen 5.5**).

3.3.2 Cyflwynwyd Adroddiad Cwmpasu'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer Cysylltiad Gogledd Cymru (Cyf 26.20) i'r Arolygiaeth Gynllunio ar 20 Mai 2016, dan Reoliad 8 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2009 (SI 2009/2263) ('Rheoliadau 2009') (Cyf 26.21).

3.3.3 Mewn ymateb i Adroddiad Cwmpasu National Grid, derbyniwyd Barn Gwmpasu (Cyf 26.22) ar 1af Gorffennaf 2016, a ddarparodd sylwadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gwmpas arfaethedig yr EIA, ac a oedd yn cynnwys copïau o ymatebion o'r ymgynghoriad fel a ragnodwyd yn Atodlen

1 y Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefnau Rhagnodedig) 2009 (Cyf 26.23).).

*Yr Ymgynghoriad a gynhaliwyd*

3.3.4 Cyflwynir manylion ynghylch yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ym Mhennod 5, Ymgynghoriad EIA (**Dogfen 5.5**) y Datganiad Amgylcheddol. Mae'r bennod hon yn crynhoi'r ymgynghoriad a gynhaliwyd i oleuo'r Datblygiad Arfaethedig, statudol ac anstatudol, ac yn disgrifio mewn mwy o fanylder yr ymgynghori a fu sy'n berthnasol i'r broses EIA. Cyflwynir manylion pellach am yr ymatebion a dderbyniwyd i gamau statudol ac anstatudol yr ymgynghori yn Adroddiad yr Ymgynghoriad (**Dogfen 6.1**).

3.3.5 Yn ystod tri cham yr ymgynghoriad, cyflwynwyd sylwadau ynghylch yr iaith Gymraeg gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, cynghorau cymuned a thref ac aelodau'r cyhoedd. Mae'r rhain wedi'u crynhoi isod:

<u>Sylwadau Llywodraeth Cymru</u>

3.3.6 Gofynnodd Llywodraeth Cymru i National Grid gyfeirio at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) wrth ddatblygu'r Datblygiad Arfaethedig, yn benodol o ran gwarchod twristiaeth, yr amgylchedd, cydlyniant cymunedol, ffyniant economaidd a hyrwyddo Cymru, yr iaith a'r diwylliant Cymraeg.

3.3.7 Er y cydnabuwyd y byddai National Grid yn llunio AEIG, mynegodd Llywodraeth Cymru siom nad oedd AEIG wedi'i baratoi fel rhan o'r ymgynghoriad cyn ymgeisio, gan roi cyfle i randdeiliaid a'r cyhoedd ystyried ei gynnwys a chyflwyno sylwadau fel rhan o'r broses ymgynghori statudol ffurfiol.

3.3.8 Gofynnodd Llywodraeth Cymru i National Grid roi ystyriaeth lawn i hyn a chynhyrchu AEIG, gan nodi fod mewnfudo yn un o'r rhesymau dros ostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y rhanbarth.

3.3.9 Awgrymodd Llywodraeth Cymru rai mesurau lliniaru nodweddiadol y gellid eu mabwysiadu, a oedd yn cynnwys:

- tai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol;
- cyflogi gweithlu lleol;
- darparu arwyddion dwyieithog o fewn a thu allan i'r sefydliad;
- cefnogaeth a chyllid ar gyfer gwersi cynefino a gwersi iaith i staff;
- cefnogaeth a chyllid ar gyfer cynlluniau diwylliannol ac iaith; a

- cefnogaeth a chyllid ar gyfer darparu llefydd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

<u>Sylwadau CSYM</u>

3.3.10 Cyfeiriodd CSYM at ystod o bolisïau a chanllawiau y dylai National Grid eu hystyried gan gynnwys Nodau Llesiant i Ynys Môn, Nodau Llesiant Cenedlaethol, Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, egwyddorion datblygu cynaliadwy, Rheolau Horlock, Rheolau Holford, Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru).

<u>Sylwadau Cyngor Gwynedd</u>

3.3.11 Gofynnodd Cyngor Gwynedd i National Grid ystyried a lliniaru rhag effeithiau byrdymor a hirdymor ar yr iaith a’r diwylliant Cymraeg.

<u>Sylwadau eraill</u>

3.3.12 Crynhoir sylwadau ein rhanddeiliaid fel a ganlyn:

- Pwyllgor Peilonau Môn Un Llais Cymru (y fforwm sy’n cynrychioli 30 o gynghorau cymuned a thref ar Ynys Môn) - mynegodd bryderon na fyddai gweithwyr nad oeddynt yn rhai lleol yn siarad Cymraeg nac yn ceisio dysgu Cymraeg ac y gallai hyn effeithio ar gymunedau lleol.
- Yr oedd y sylwadau a wnaed gan aelodau’r cyhoedd yn cynnwys sawl ymatebydd a fynegodd bryderon am fewnlifiad gweithwyr heb fod yn rhai lleol a’r effaith y gallai hyn ei chael ar gymunedau lleol, gan gynnwys yr iaith Gymraeg.
- Mae un ymatebydd yn dweud y byddai’r cynigion yn effeithio ar yr iaith a’r diwylliant lleol, ond nid yw’n nodi sut y byddai’n gwneud hynny.
- Mae rhai ymatebwyr yn datgan cefnogaeth i’r broses ymgynghori gyffredinol, yn benodol lefel yr ymgynghori a’r ymgysylltu, a darpariaeth yn yr iaith Gymraeg.
- Mae eraill yn awgrymu gwelliannau i’r broses ymgynghori, gan gynnwys mwy o drafodaethau ar-lein, mwy o sesiynau radio lleol, mwy o gyfarfodydd gyda’r diwydiant twristiaeth, mwy o staff sy’n siarad Cymraeg mewn digwyddiadau, a darparu atebion ysgrifenedig i bob sylw.

3.3.13 Mae Adroddiad yr Ymgynghoriad (**Dogfen 6.1**) yn darparu gwybodaeth fanwl am y prosesau ymgynghori ac ymgysylltu, a’r gweithgareddau yn ystod esblygiad dyluniad cyfredol y Datblygiad Arfaethedig. Mae crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad a sut maent wedi cael eu hystyried, wedi’i ddarparu hefyd.

# 4 Dull asesu

## 4.1 CYD-DESTUN Y FETHODOLEG

4.1.1 Goleuwyd methodoleg yr AEIG, yn benodol, gan y canllawiau a’r strategaethau polisi cynllunio cenedlaethol a lleol (fel y nodir yn adran 2) sy’n nodi’r fethodoleg sydd wedi’i hen sefydlu ar gyfer cynnal AEIG yng nghyswllt cynigion datblygu:

- Cynllunio a’r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen (Cyf 26.19);
- Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM): Canllawiau Cynllunio Atodol Cynllunio a’r Iaith Gymraeg (Cyf 26.11);
- Cyngor Gwynedd: Canllawiau Cynllunio Atodol: Cynllunio a’r Iaith Gymraeg (Cyf 26.12);
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy: Canllawiau Cynllunio Atodol LDP06 – yr Iaith Gymraeg (Cyf 26.13);
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri: Canllawiau Cynllunio Atodol Cynllunio a’r Iaith Gymraeg (Cyf 26.14); a
- Nodyn Cyngor Technegol 20 – Cynllunio a'r Gymraeg (Cyf 26.6).

4.1.2 Yn benodol, mae Cynllunio a’r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen Cyf 26.19) yn cynnig canllawiau arfer gorau ar y fethodoleg ar gyfer cynnal Asesiadau o’r Effaith ar Iaith ar gyfer datblygiad prosiect penodol. Nid yw’r arweiniad wedi’i fabwysiadu'n benodol gan awdurdodau cynllunio lleol; fodd bynnag mae'r fethodoleg wedi cael ei chopïo yn y Canllawiau Cynllunio Atodol sydd wedi'u mabwysiadu gan Gyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

4.1.3 Mae’r fethodoleg ar gyfer yr AEIG hwn yn dilyn yr un a nodwyd yn Cynllunio a’r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen (Cyf 26.19). Mae’r fethodoleg yn cynnwys 18 o gwestiynau sy’n ymwneud â phum agwedd allweddol ar fywyd cymunedol sy’n cwmpasu ystod eang o effeithiau posibl ar boblogaeth, mudo, economi, tai, cymeriad ac amwynderau a sut maent yn gysylltiedig ag effeithiau posibl ar yr iaith a’r diwylliant Cymraeg. Mae Tabl 26.10 yn rhestru’r 18 cwestiwn.

4.1.4 Darparwyd y fethodoleg i randdeiliaid am sylwadau ac wedi hynny, cyflwynwyd hi mewn Cyfarfod Cwmpasu gyda Chyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Hunaniaith a Menter Môn ar 6 Chwefror 2017.

4.1.5 Mae'r AEIG yn asesiad ac adroddiad annibynnol ond mae hefyd wedi bwydo i mewn i'r EIA. Rhoddwyd ystyriaeth i'r potensial i bob pwnc yn y Datganiad Amgylcheddol effeithio ar yr iaith Gymraeg mewn unrhyw fodd, gan wneud defnydd o ganfyddiadau'r asesiad hwn. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r asesiad economaidd-gymdeithasol ym Mhennod 17 y Datganiad Amgylcheddol, Materion Economaidd-Gymdeithasol (**Dogfen 5.17**).

## 4.2 ARDALOEDD ASTUDIAETH YR AEIG

4.2.1 Oherwydd y rhyngddibyniaethau rhwng effeithiau ar yr iaith a'r diwylliant Cymraeg ac effeithiau economaidd-gymdeithasol, mae'r ardaloedd daearyddol a gofodol a ddefnyddiwyd yn yr AEIG yn adlewyrchu'r rhai a ddefnyddir ym Mhennod 17 y Datganiad Amgylcheddol, Materion Economaidd-Gymdeithasol (**Dogfen 5.17**).

4.2.2 Mae Tabl 26.7 yn cynnwys esboniadau ar gwmpas daearyddol ardaloedd yr astudiaeth a ddefnyddiwyd yn yr AEIG. Hefyd, cyfeiriwch at Ardaloedd Astudiaeth yr Asesiad Amwynderau, a gyflwynir ym Mhennod 17 y Datganiad Amgylcheddol, Materion Economaidd-gymdeithasol (**Dogfen 5.17.1.7**), gan fod yr AEIG yn gwneud defnydd o ganfyddiadau'r asesiad amwynderau yn y Datganiad Amgylcheddol.

**Tabl 26.7: Ardaloedd astudiaeth yr AEIG**

| Ardal | Crynodeb |
|---|---|
| Ardal astudiaeth 3 km | Defnyddiwyd yr ardal astudiaeth hon i ystyried yr effeithiau ar gymunedau lleol yn nhermau amwynderau ac ansawdd bywyd yn gyffredinol gan mai dyma'r ardal lle y mae cyfuniad o effeithiau ar amwynderau (megis effeithiau gweledol, sŵn ac ansawdd aer) yn fwyaf tebygol o ddigwydd ac yn gallu, o bosibl, effeithio ar ansawdd bywyd y boblogaeth leol.<br>Mae 3 km yn cynrychioli'r ardal astudiaeth a ddefnyddiwyd yn yr asesiad o amwynderau cymunedol, a oleuwyd gan yr asesiad o amwynderau gweledol preswyl a nodwyd ym Mhennod 8 y Datganiad Amgylcheddol, Asesiad Gweledol (**Dogfen 5.8**). Gallai effeithiau ar amwynderau cymuned newid cymeriad neu natur ddeniadol yr ardal, neu darfu ar allu trigolion lleol i fwynhau'r ardal o'u cwmpas.<br>Ystyrir hefyd y potensial ar gyfer tarfu ar ddefnyddio cyfleusterau cymunedol unigol fel ysgolion ac eglwysi. |
| Ardal Teithio i Waith (TTWA) | Mae disgwyl i weithwyr adeiladu sy'n aros yn yr ardal ddefnyddio llety o fewn TTWA perthnasol 'Bangor, Caernarfon a Llangefni' a 'Chaergybi' (gan ddefnyddio ffin TTWA 2001). Mae'r TTWA, fel y gwelir yn Ffigur 26.1 (**Dogfen 5.26.1.1**), wedi cael ei defnyddio i |

| Tabl 26.7: Ardaloedd astudiaeth yr AEIG | |
|---|---|
| Ardal | Crynodeb |
| | ystyried effeithiau ar nodweddion y boblogaeth. Darperir gwybodaeth atodol ar ddosbarthiad gofodol gweithwyr isod. |
| Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd | Rhoddir ystyriaeth i effeithiau economaidd gan gynnwys effeithiau ar gyflogaeth a’r gadwyn gyflenwi ar gyfer y ddwy ardal weinyddol lle y lleolir y Datblygiad Arfaethedig (Ynys Môn a Gwynedd). |

## 4.3 DOSBARTHIAD GOFODOL GWEITHWYR

4.3.1 Mae effaith y Datblygiad Arfaethedig ar yr iaith Gymraeg a’i diwylliant yn dibynnu'n fawr ar nifer y gweithwyr a’u dosbarthiad daearyddol. Byddai’r effeithiau ar yr iaith Gymraeg a’i diwylliant yn amrywio mewn gwahanol leoliadau.

4.3.2 Fel y gwelir yn Atodiad 17.2 Cofnod Tybiaethau Dadansoddi’r Gweithlu (**Dogfen 5.17.2.2**), byddai dau brif gompownd adeiladu ar gyfer y llinell uwchben; un ar Ffordd Penmynydd, Ynys Môn, a’r llall ym Mhentir, Gwynedd. Byddai ardal weithio ar safle pob peilon hefyd. Tybir y byddai’r gweithwyr yn teithio i Ffordd Penmynydd neu i Bentir cyn symud i’r ardal y maent yn gweithio ynddi’r diwrnod hwnnw. Mae cydrannau’r Datblygiad Arfaethedig lle mae’r gwaith yn fwy sefydlog, hynny yw, y Prif Dai Twnnel, y Compowndiau Selio Pennau Ceblau a’r estyniad i Is-orsaf Pentir, wedi’u lleoli yn ne Ynys Môn ac yng Ngwynedd.

4.3.3 Mae ardaloedd cymunedol Môn sy’n agos at y prif seilwaith ac y rhagwelir y byddant yn denu gweithwyr ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig yn cynnwys Llangefni a Phorthaethwy. Ar y tir mawr mae’n debygol mai’r lleoliadau a ffafrir yw trefi/dinas y Felinheli, Bangor a Chaernarfon. Mae’r cymunedau yn y TTWA lle y mae gweithwyr yn debygol o fyw yn ystod yr adeiladu wedi’u nodi yn **Error! Reference source not found.**.

4.3.4 Ar gyfer y gweithgareddau adeiladu a fydd yn digwydd ar y tir mawr (h.y. adeiladu twnnel yng Ngwynedd, ac adeiladu Is-orsaf Pentir), mae gweithwyr yn debygol o fod wedi’u gwasgaru’n ehangach ar draws Gwynedd na dim ond yr ardaloedd hynny o Wynedd a gynhwyswyd yn y TTWA (oherwydd bod y parth cymudo’n ymestyn y tu hwnt i’r TTWA ar gyfer gweithwyr yma). I ddibenion yr asesiad, fel achos gwaethaf rhesymol, tybir y byddai’r holl weithwyr adeiladu’n byw o fewn y TTWA.

4.3.5 Fel y mae Tabl 26.8 yn dangos, mae cyfartaledd nifer y gweithwyr misol yn llawer is na’r nifer yn ystod y cyfnod prysuraf – oddeutu 50% i 60% yn is fel arfer. Er enghraifft, ar gyfer Senario 1, 185 yw nifer y gweithwyr yn ystod

cyfnod prysuraf y gwaith twnelu, o’i gymharu â chyfartaledd misol o 108 (58% o’r nifer yn ystod y cyfnod prysuraf). Yn ogystal, o fewn pob gweithgaredd bydd angen am wahanol arbenigedd gan olygu y deuir a gwahanol dimau i mewn ar wahanol amseroedd gydol y rhaglen adeiladu. Er enghraifft, bydd y gwaith o adeiladu twnnel yn cael ei rannu’n weithgareddau adeiladu byrrach, ar wahân, er enghraifft sefydlu compownd, adeiladu siafft, gosod ffordd fynediad a chloddio twnnel, sy’n galw am wahanol arbenigeddau. O’r herwydd, mae gweithwyr adeiladu twneli’n annhebygol o fod yn gweithio ar y prosiect am y cyfnod llawn (rhagwelir y bydd hyn oddeutu 75 mis).

**Tabl 26.8: Dadansoddiad o raglen ddangosol y gweithlu yn ôl gweithgaredd adeiladu**

| | Adeiladu llinell uwchben | Twnnel Senario 1 | Twnnel Senario 2 | Twnnel Senario 3 | Is-orsaf Wylfa | Is-orsaf Pentir | Comisiynu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm hyd gweithgarwch | 50 mis (oddeutu), parhaus | 75 mis, parhaus | 75 mis, parhaus | 75 mis, parhaus | 16 mis, tri cham | 30 mis (oddeutu), dau gam | 75 mis, parhaus |
| Nifer uchaf o weithwyr | 210 | 185 | 184 | 184 | 45 | 100 | 8 |
| Hyd y cyfnod brig | 3 mis | 2 fis | 1 mis | 1 mis | 1 mis | 3 mis | 26 mis |
| Amseriad y cyfnod brig | Gaeaf 2023 | Gaeaf 2024 | Chwefror 2022 | Hydref 2021 | Ebrill 2024 | Gwanwyn / Haf 2023 | Yn amrywio drwy’r amser |
| Cyfartaledd gweithwyr misol | 117 | 108 | 103 | 112 | 11 | 37 | 4 |

| Tabl 26.9: Cymunedau yn y TTWA lle y mae gweithwyr yn debygol o fyw yn ystod yr adeiladu | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymuned | % siaradwyr Cymraeg (2011) | Adeiladu llinell uwchben | Adeiladu twnnel (Ynys Môn) | Adeiladu twnnel (Gwynedd) | Is-orsaf Wylfa | Is-orsaf Pentir | Comisiynu (yn yr is-orsafoedd a'r Prif Dai Twnnel) |
| Llangefni | 80.7% | ✓ | | | | | |
| Porthaethwy | 55.9% | ✓ | ✓ | | | | ✓ |
| Benllech | 43.3% | ✓ | | | | | |
| Llanfairpwll | 71.8% | ✓ | ✓ | | | | ✓ |
| Bangor | 36.4% | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Y Felinheli | 54.5% | | | ✓ | | ✓ | ✓ |
| Llandygai | 58.5% | | | ✓ | | ✓ | ✓ |
| Caernarfon | 85.6% | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ |
| Amlwch | 61.1% | | | | ✓ | | ✓ |
| Cemaes | 50.5% | | | | ✓ | | ✓ |
| Tregele | 50.5% | | | | ✓ | | ✓ |
| Caergybi | 42.4% | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ |

## 4.4 Y FETHODOLEG FANWL

4.4.1 Mae’r fethodoleg ganlynol wedi cael ei mabwysiadu i gynnal yr AEIG hwn ac i ddarparu amserlen o gyfleoedd a chyfyngiadau ieithyddol, effeithiau posibl ac i gyfrannu at y dull arfaethedig ar gyfer datblygu mesurau lliniaru a/neu wella.

*Cam 1: Sefydlu gwaelodlin*

4.4.2 Mae'r waelodlin yn gyfuniad o ddatganiadau, polisïau a data perthnasol sy’n ymwneud â’r iaith a’r diwylliant Cymraeg yn ardaloedd yr astudiaeth.

4.4.3 Ni chanfuwyd unrhyw ragamcaniadau gwaelodlin i’r dyfodol a oedd yn berthnasol i’r iaith Gymraeg.

4.4.4 Ni roddwyd ystyriaeth i newid demograffig (e.e. cynnydd neu ostyngiad mewn poblogaeth) gan fod cyfradd twf y boblogaeth ym Môn a Gwynedd wedi bod yn weddol isel dros y cyfnod 2001-2011, ac mae disgwyl i’r boblogaeth gynyddu ar gyfradd arafach hyd at 2030, yn ôl Trosolwg Economaidd o Ynys Môn 2013 (Cyf 27.51).

Casglu a dadansoddi data perthnasol i lunio gwaelodlin

4.4.5 Mae ystod eang o dystiolaeth wedi’i chasglu er mwyn darparu dealltwriaeth o broffil a sefyllfa bresennol y Gymraeg a'i diwylliant yn ardaloedd yr astudiaeth, yn enwedig yn yr Ardal Teithio i’r Gwaith (TTWA). Hefyd, er mwyn goleuo’r asesiad ymhellach ac i sicrhau cysondeb gyda’r asesiad economaidd-gymdeithasol ym Mhennod 17 y Datganiad Amgylcheddol, Materion Economaidd-gymdeithasol (**Dogfen 5.17**), darperir ystadegau am yr iaith Gymraeg o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) a allai gael eu heffeithio gan y Datblygiad Arfaethedig yn Atodiad 26.1, gwaelodlin AEIG (**Dogfen 5.26.2.1**).

4.4.6 Mae gwaelodlin yr AEIG (adran 5) yn nodi’r data sydd ar gael ar statws a lles cyfredol yr iaith yn ardal yr astudiaeth, o ran poblogaeth, mudo a’r iaith Gymraeg, proffil siaradwyr Cymraeg a’r defnydd o’r Gymraeg yn y gymuned.

4.4.7 Mae’r waelodlin hefyd yn nodi’r datganiadau, y polisïau a'r data perthnasol ynghylch yr iaith Gymraeg yn ardal yr astudiaeth, ac yn rhoi pob math o dystiolaeth ynghylch arwyddocâd yr iaith Gymraeg yng nghymunedau ardal yr astudiaeth. Mae hyn yn cynnwys data’r Cyfrifiad, y Swyddfa Ystadegau gwladol (ONS) a’r Llywodraeth (Cyf 26.39 i Cyf 26.45) gan gynnwys proffil iaith Gymraeg ardal yr astudiaeth, strategaethau a mentrau lleol, ffactorau economaidd, y ddarpariaeth o gyfleusterau cymunedol a phroffiliau gweithwyr.

4.4.8 Mae data wedi’i gasglu ar gyfer y pynciau canlynol, a ystyrir eu bod fwyaf perthnasol i bennu’r waelodlin:

- poblogaeth;
- proffil y Gymraeg;
- economi a chyflogaeth;
- grwpiau cymdeithasol a chymunedol;
- y Gymraeg a gwasanaethau cyhoeddus; a
- thwristiaeth.

4.4.9 Mae'r data sydd wedi cael ei gasglu yn ffurfio'r waelodlin, sydd wedi'i dadansoddi fel rhan o'r AEIG hwn (gweler Atodiad 26.1, Gwaelodlin AEIG (**Dogfen 5.26.2.1**)).

*Cam 2: Dansoddi effeithiau’r Datblygiad Arfaethedig ar y waelodlin*

4.4.10 Mae'r data gwaelodlin sydd wedi’i gasglu wedi cael ei ddadansoddi er mwyn ystyried i ba raddau, a sut (o ran effeithiau niweidiol a manteisiol), y byddai’r Datblygiad Arfaethedig yn effeithio ar y Gymraeg a'i diwylliant yn ardaloedd yr astudiaeth.

4.4.11 Ystyriwyd yr effeithiau posibl ar yr iaith Gymraeg a'i diwylliant yn ardaloedd yr astudiaeth mewn ymateb i leoliad daearyddol holl elfennau’r Datblygiad Arfaethedig. Dyma ffactorau a oedd yn arbennig o berthnasol i ystyriaethau o effeithiau ar y Gymraeg a'i diwylliant:

- nifer y gweithwyr fydd eu hangen yn ystod pob cam o’r Datblygiad Arfaethedig a’r tebygolrwydd iddynt fod yn weithwyr yn byw gartref.
- dosbarthiad daearyddol y gweithwyr na fyddant yn byw gartref.

4.4.12 Mae’r dadansoddiad o effeithiau’r Datblygiad Arfaethedig ar y waelodlin yn ystyried canfod ardaloedd daearyddol lle y mae effeithiau’n debygol o ddigwydd a sut y mae’r ardaloedd hyn yn debygol o gael eu heffeithio.

*Cam 3: Asesiad yn seiliedig ar gwestiynau rhestr wirio*

4.4.13 Mae'r AEIG yn asesu effeithiau tebygol adeiladu a gweithredu’r Datblygiad Arfaethedig yn erbyn pum agwedd allweddol ar fywyd cymunedol er mwyn sefydlu’r effeithiau ar y gymuned yn gyffredinol ac ar yr iaith Gymraeg a’i diwylliant yn fwy penodol. Dyma’r pum agwedd allweddol ar fywyd cymunedol:

- nodweddion y boblogaeth;
- ansawdd bywyd;

- ffactorau economaidd;
- cyflenwad seilwaith ac addysg; ac
- agweddau cymdeithasol a diwylliannol.

4.4.14 Mae’r asesiad yn cynnwys 18 o gwestiynau sy’n ymwneud â’r pum agwedd allweddol ar fywyd cymunedol, ac maent yn cael eu rhestru yn Nhabl 26.10 . Mae’r cwestiynau hyn yn tarddu o ganllawiau arfer gorau a nodir yn Cynllunio a’r Iaith Gymraeg – y Ffordd Ymlaen (2005) (Cyf 26.46) ac sydd bellach wedi’u nodi hefyd yn y Canllawiau Cynllunio Atodol (SPG) ar gynllunio a’r iaith Gymraeg y cyfeirir atynt yn adran 2 yr AEIG hwn.

| Tabl 26.10: Cwestiynau rhestr wirio a ddefnyddiwyd i asesu effeithiau canfyddedig y Datblygiad Arfaethedig ar y gymuned a'r iaith |
| --- |
| Agwedd allweddol ar fywyd cymunedol/cwestiynau'r rhestr wirio |
| Nodweddion y boblogaeth |
| C1. Ydy'r Datblygiad Arfaethedig yn debyg o arwain at gynnydd neu ostyngiad yn y boblogaeth? |
| C2. Ydy'r Datblygiad Arfaethedig yn debyg o arwain at fwy o fewnfudo? |
| C3. Ydy'r Datblygiad Arfaethedig yn debyg o arwain at fwy o allfudo? |
| C4. Ydy'r Datblygiad Arfaethedig yn debyg o newid strwythur oed y gymuned? |
| Ansawdd bywyd |
| C5. Ydy'r Datblygiad Arfaethedig yn debyg o gael effaith ar iechyd pobl leol? |
| C6. Ydy'r Datblygiad Arfaethedig yn debyg o gael effaith ar amwynderau'r ardal leol? |
| C7. Ydy'r Datblygiad Arfaethedig yn debyg o arwain at y bygythiad o fwy o droseddu neu drais? |
| Ffactorau economaidd |
| C8. Ydy'r Datblygiad Arfaethedig yn debyg o gael effaith niweidiol ar fusnesau lleol? |
| C9. Ydy'r Datblygiad Arfaethedig yn debyg o gael effaith niweidiol ar swyddi lleol? |

| **Tabl 26.10: Cwestiynau rhestr wirio a ddefnyddiwyd i asesu effeithiau canfyddedig y Datblygiad Arfaethedig ar y gymuned a'r iaith** |
| --- |
| Agwedd allweddol ar fywyd cymunedol/cwestiynau'r rhestr wirio |
| C10. Ydy'r Datblygiad Arfaethedig yn debyg o arwain at fwy o amrywiaeth economaidd? |
| C11. Ydy'r Datblygiad Arfaethedig yn debyg o gael effaith ar lefel cyflogau lleol? |
| C12. Ydy'r Datblygiad Arfaethedig yn debyg o gael effaith ar bris cyfartalog tai? |
| Cyflenwad seilwaith ac addysg |
| C13. Ydy'r Datblygiad Arfaethedig yn debyg o gael effaith ar ysgolion lleol? |
| C14. Ydy'r Datblygiad Arfaethedig yn debyg o gael effaith ar ddarpariaeth gofal iechyd? |
| C15. Ydy'r Datblygiad Arfaethedig yn debyg o gael effaith ar wasanaethau lleol? |
| Agweddau cymdeithasol a diwylliannol |
| C16. A fydd y Datblygiad Arfaethedig yn arwain at densiynau cymdeithasol, gwrthdaro neu raniadau? |
| C17. A fydd y Datblygiad Arfaethedig yn arwain at newidiadau i'r traddodiadau/diwylliant Cymraeg lleol? |
| C18. A fydd y Datblygiad Arfaethedig yn cael effaith ar grwpiau gweithgarwch/gwirfoddol lleol? |

4.4.15 Mae pob cwestiwn yn goleuo asesiad o’r effaith dybiedig. Mae'r asesiad o’r effaith yn oddrychol ar sail gwybodaeth waelodlin, tystiolaeth flaenorol a barn broffesiynol, a’i fwriad yw canfod yr effeithiau sy’n debygol o ddigwydd yn sgil y Datblygiad Arfaethedig. Mae’r aseswr yn terfynu asesiad pob cwestiwn drwy nodi effaith gyffredinol fanteisiol, niwtral neu niweidiol. Yna, rhoddir sgôr i’r effaith gyffredinol hon er mwyn adlewyrchu maint yr effaith, fel y dangosir yn Nelwedd 26.2.

**Delwedd 26.2 Siart Sgôr Mynegai Sylfaen**

| Overall effect | Base index score | Magnitude of effect |
|---|---|---|
| Beneficial effect | +0.1 to +0.2 | Negligible beneficial effect |
| | +0.3 to +0.4 | Minor beneficial effect |
| | +0.5 to +0.7 | Moderate beneficial effect |
| | +0.8 to +1.0 | Major beneficial effect |
| Neutral effect | 0 | Neutral effect |
| Adverse effect | -0.1 to -0.2 | Negligible adverse effect |
| | -0.3 to -0.4 | Minor adverse effect |
| | -0.5 to -0.7 | Moderate adverse effect |
| | -0.8 to -1.0 | Major adverse effect |

4.4.16 Mae'r 18 o sgoriau mynegai sylfaen hyn wedyn wedi cael eu defnyddio i gyfrifo sgôr mynegai sylfaen cyffredinol, sef yn syml iawn y sgôr cyfartalog ar draws y 18 cwestiwn. Mae'r sgoriau mynegai sylfaen hefyd wedi cael eu defnyddio i gyfrifo sgôr mynegai dimensiynol, sy'n sgôr cymedr ar gyfer pob un o’r cydrannau bywyd cymunedol: cymedr ar gyfer y boblogaeth, ansawdd bywyd, ffactorau economaidd, a chyflenwad seilwaith a materion cymdeithasol. Mae’r broses hon a sefydlwyd yn y canllawiau arfer gorau a’r Canllawiau Cynllunio Atodol yn galluogi aseswyr i gymharu'r sgôr cymedr ar gyfer pob un o'r pum cydran, gan gydnabod yr effeithiau tybiedig ehangach a'r cyfaddawdu posibl rhwng un gydran a'r llall.

*Cam 4: Datblygu mesurau lliniaru a gwella*

4.4.17 Cynigir mesurau i liniaru effeithiau niweidiol ac i gynyddu effeithiau manteisiol pan fydd effeithiau niweidiol a manteisiol posibl yn cael eu canfod yn yr asesiad.

4.4.18 Mae National Grid wedi ymroi i gefnogi’r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn ogystal â lliniaru, lle bo’n bosibl, yr effeithiau niweidiol a allai godi o’r Datblygiad Arfaethedig.

# 5 Dadansoddiad o’r Waelodlin

## 5.1 TROSOLWG


5.1.1 Mae’r dadansoddiad o’r waelodlin hon yn nodi pwyntiau allweddol, y gellir eu gweld yn Nelwedd 26.3. Mae’r waelodlin fel y’i nodir yn Atodiad 26.1, gwaelodlin AEIG (**Dogfen 5.26.2.1**) yn darparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr AEIG hwn.

5.1.2 Mae'r dadansoddiad o’r data sylfaenol sydd wedi’i gasglu wedi dangos bod y Gymraeg a’i diwylliant yn elfen annatod o wead cymdeithasol cymunedau ledled Ynys Môn a Gwynedd. Mae hefyd wedi dangos bod nifer o elfennau eraill o fywyd cymdeithasol, fel addysg, cyfleoedd cyflogaeth, argaeledd a fforddiadwyedd tai, gwasanaethau cyhoeddus cyfrwng Cymraeg a chyfleoedd cymdeithasol i ddefnyddio'r Gymraeg i gyd yn cyfrannu at ddefnydd, amlygrwydd a hyfywedd yr iaith Gymraeg a'i diwylliant yng nghymunedau’r ardaloedd astudiaeth.

5.1.3 Er bod amrywiaeth sylweddol yng nghyfran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg ar lefel ward a chynghorau cymuned, cydnabyddir bod cadw, gwella a hyrwyddo'r Gymraeg yn flaenoriaeth ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd fel sy'n cael ei ddangos yn Strategaeth Iaith Gymraeg Ynys Môn 2016-2021 (Cyf 26.17) a Strategaeth Iaith Gwynedd 2014-2017 (Cyf 26.18), ac nid mewn meysydd penodol yn unig.

5.1.4 Hefyd, mae gan Lywodraeth Cymru weledigaeth glir o ran gweld yr iaith Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru. Mae Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021 Cyngor Sir Ynys Môn yn nodi targed i sicrhau cynnydd o 60.1% o leiaf yng nghyfran poblogaeth Môn sy’n siarad Cymraeg erbyn Cyfrifiad 2021 (fel yr oedd yn 2001) (Cyf 26.17), ac mae Strategaeth Iaith Gwynedd 2014-2017 yn nodi targed i sicrhau cynnydd o 5% yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd erbyn Cyfrifiad 2021 (Cyf 26.18). Yn 2017, mabwysiadodd Llywodraeth Cymru Strategaeth (Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr) gyda’r nod o sicrhau bod miliwn o siaradwyr Cymraeg yn byw yng Nghymru erbyn 2050 (Cyf 26.1).

**Delwedd 26.3 Crynodeb o'r dadansoddiad gwaelodlin**



*Cafwyd gostyngiad bach yng nghyfanswm nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr Ardal Teithio i’r Gwaith (TTWA) ers 2001*

5.1.5 Roedd nifer y siaradwyr Cymraeg (3 oed a throsodd) yn y TTWA wedi gostwng o 79,805 (64.6%) yn 2001 i 79,470 (61.0%) yn 2011. Roedd y gostyngiad hwn o 335 o unigolion yn cynrychioli gostyngiad o 0.4% yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y TTWA.

*Gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl yn Ynys Môn a Gwynedd ers 2004–06*

5.1.6 Yn ôl Arolwg Defnyddio’r Iaith Gymraeg 2013-15 (Cyf 26.24), mae nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl wedi gostwng yn Ynys Môn a Gwynedd rhwng 2004-06 a 2013-15. Mae nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl wedi gostwng 2,600 ar Ynys Môn a 2,100 yng Ngwynedd yn ystod y cyfnod hwn. Gwelwyd rhai o’r gostyngiadau mwyaf yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl ledled Cymru ers 2004-06 mewn ardaloedd gyda’r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg (Gwynedd (78%), Ynys Môn (68%), Ceredigion (66%) a Sir Gaerfyrddin (64%) (Cyf 26.24).

*Cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg nad ydyn nhw’n rhugl yn Ynys Môn a Gwynedd ers 2004-06*

5.1.7 Yn ôl Arolwg Defnyddio’r Iaith Gymraeg 2013-15 (Cyf 26.24), mae nifer y siaradwyr Cymraeg nad oeddynt yn rhugl wedi cynyddu yn Ynys Môn a Gwynedd rhwng 2004-06 a 2013-15. Mae nifer y siaradwyr Cymraeg nad oeddynt yn rhugl wedi cynyddu 4,300 ar Ynys Môn a 5,600 yng Ngwynedd yn ystod y cyfnod hwn.

*Gostyngiad yng nghyfran poblogaeth y TTWA sydd â sgiliau yn yr iaith Gymraeg ers 2001*

5.1.8 Gwelwyd gostyngiad yn y gyfran o bobl 3 oed a hŷn yn y TTWA gyda sgiliau iaith Gymraeg rhwng 2001 a 2011. Yn 2011, nid oedd gan 28.3% o'r boblogaeth 3 oed a hŷn yn y TTWA unrhyw sgiliau Cymraeg, sy'n fwy na’r gyfran a welwyd yn 2001, sef (26.2%). Mae hyn yn cyfateb i 4,236 yn fwy o bobl heb sgiliau yn y Gymraeg (sy'n cyfateb i gynnydd o 11.6% o ran nifer y bobl) (Cyf 26.27).

5.1.9 Rhwng 2001 a 2011, roedd y cwymp mwyaf yng nghanran y bobl a oedd yn gallu siarad Cymraeg ymysg y rheini a oedd yn rhwng 20 a 24 oed, wedi’i ddilyn gan y rheini a oedd rhwng 16 a 19 oed. Roedd canran y bobl ifanc rhwng 20 a 24 oed a oedd yn gallu siarad Cymraeg wedi gostwng 9.7 pwynt canran dros y cyfnod hwn (o 58.6% i 48.9%), ac roedd canran y bobl ifanc rhwng 16 a 19 oed a oedd yn gallu siarad Cymraeg wedi gostwng 9.0 pwynt canran (o 71.9% i 62.9%) (Cyf 26.40). Ar gyfer yr un cyfnod, roedd gan 71.7% un neu ragor o sgiliau Cymraeg yn 2011, sy'n ostyngiad o'r 73.8% a

welwyd yn 2001. Er gwaetha'r dirywiad, o ran cyfran, roedd nifer y bobl sy’n meddu ar un neu ragor o sgiliau Cymraeg wedi cynyddu o 91,214 yn 2001 i 92,687 erbyn 2011 – twf o 1,473 o bobl (sy'n cyfateb i gynnydd o 1.6% mewn nifer).

*Allfudo parhaus pobl ifanc rhwng 15 a 29 oed o Ynys Môn a Gwynedd (2011 i 2015)*

5.1.10 Drwy gydol y cyfnod o 2011 i 2015, mae Ynys Môn wedi parhau i weld all-lif net o bobl ifanc (15-29 oed) gyda'r all-lif mwyaf o 290 yn 2015/2016. Yn yr un cyfnod, gwelodd Gwynedd all-lif net cyffredinol o 198 o bobl ifanc (15-29 oed) gyda’r all-lif mwyaf o 630 yn 2012/2013 a 360 yn 2013/2014 (Cyf 26.48).

5.1.11 Ar gyfer Ynys Môn, nid ydym yn gwybod a yw’r all-lif net hwn yn gysylltiedig â’r prinder cyfleoedd gwaith ar yr ynys. Mae Ynys Môn wedi gweld gostyngiad o 1,100 (6%) yn nifer y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn (FTE) a oedd mewn gwaith rhwng 2009 a 2015. Ond, dros yr un cyfnod, mae nifer y gweithwyr FTE sydd mewn gwaith wedi cynyddu 3,500 (7%) yng Ngwynedd (Cyf 26.49).

*Cynnydd yng nghyfran y bobl ifanc rhwng 3 a 15 oed sy’n gallu siarad Cymraeg yn y TTWA (2001-2011)*

5.1.12 Mae’r TTWA wedi gweld cynnydd yn y gyfran o bobl ifanc rhwng 3 a 15 oed a oedd yn gallu siarad Cymraeg rhwng 2001 a 2011. Ar y cyfan, y grwpiau 3 i 4 a 5 i 15 oedd yr unig rai a brofodd gynnydd yn y ganran o siaradwyr Cymraeg, gyda’r grŵp oedran 3 i 4 yn profi cynnydd o 0.9% a’r grŵp oedran 5 i 15 yn profi cynnydd o 1.5%. Mae canran uchaf y siaradwyr Cymraeg yn gyffredinol yn y grŵp oedran 5 i 15 o hyd, ac mae'n sylweddol uwch na'r holl grwpiau oedran eraill gydag 84.4% yn siarad Cymraeg. Byddai modd priodoli'r cynnydd yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg ymhlith y grwpiau hyn i rôl addysg cyfrwng Cymraeg ym mhob ysgol ar draws y TTWA.

*Roedd ychydig o dan 40% o'r wardiau yn y TTWA yn cynnwys dros 70% o siaradwyr Cymraeg yn 2011*

5.1.13 Yn 2011, roedd 28 ward (37.8%) yn y TTWA lle’r oedd dros 70% o’r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg. Yr oedd y wardiau hyn yn cynnwys Bethel, Bodffordd, Bontnewydd, Braint, Bryngwran, Cadnant (Gwynedd), Cefni, Clynnog, Cwm-y-Glo, Cyngar, Deiniolen, Gerlan, Groeslon, Gwyngyll, Llanberis, Llanfihangel Ysgeifiog, Llanllyfni, Llanrug, Llanwnda, Menai (Caernarfon), Ogwen, Peblig (Caernarfon), Penisarwaun, Penygroes, Seiont, Talysarn, Tudur ac Waunfawr.

*Canran y siaradwyr Cymraeg ym mhob ward ar draws y TTWA*

5.1.14 Yn 2011, mae canran y bobl a allai siarad Cymraeg ym mhob ward ar draws y TTWA yn amrywio’n sylweddol o 18.6% yn ward Menai (Bangor) i 87.8% yn ward Llanrug, gyda’r ddwy ward wedi’u lleoli ar y tir mawr yn hytrach nag ar Ynys Môn.

*Mae Ynys Môn a’r TTWA yn cynnwys poblogaeth sy’n heneiddio’n gyffredinol*

5.1.15 Gwelodd Ynys Môn a’r TTWA ostyngiad yng nghyfran y boblogaeth 3 i 15 oed a 25 i 49 oed rhwng 2001 a 2011. Ond mae cynnydd wedi bod yng nghyfran y boblogaeth sy’n 50 i 64 oed a 65 oed a throsodd yn y ddwy ardal. Mae hyn yn dangos bod Ynys Môn a’r TTWA yn cynnwys poblogaeth sy’n heneiddio’n gyffredinol. O gymharu â Chymru gyfan, mae strwythur oedran poblogaeth Môn (45.3%) a’r TTWA (40.2%) â chyfran uwch o’r boblogaeth sy’n 50 oed a hŷn na Chymru (39.1%).

*Pwysigrwydd defnyddio a throsglwyddo’r Gymraeg yn y cartref*

5.1.16 Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2013-15: Arolwg Defnyddio’r Iaith Gymraeg (Cyf 26.24), yr oedd 43% o siaradwyr Cymraeg wedi dysgu siarad Cymraeg yn eu cartref. Yr oedd siaradwyr Cymraeg a oedd wedi dysgu siarad Cymraeg yn eu cartref yn blant ifanc yn fwy tebygol o fod yn rhugl na’r rhai a ddysgodd siarad Cymraeg yn yr ysgol. Yr oedd dros 4 o bob 5 o siaradwyr Cymraeg a ddysgodd Gymraeg yn eu cartref yn blant ifanc, yn rhugl.

*Pwysigrwydd rôl addysg cyfrwng Cymraeg*

5.1.17 Fel y nodwyd uchod, yn y TTWA, y grwpiau oedran 3 i 4 a 5 i 15 yn unig oedd wedi gweld cynnydd mewn canran o ran siaradwyr Cymraeg ers 2001. Yn 2011, roedd 71.9% o'r boblogaeth 3 i 15 oed a oedd wedi'u geni y tu allan i Gymru yn meddu ar un neu ragor o sgiliau Cymraeg.

5.1.18 Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2013-15: Arolwg Defnyddio’r Gymraeg (Cyf 26.24), roedd 25% o siaradwyr Cymraeg wedi dysgu siarad Cymraeg yn yr ysgol gynradd ac roedd 15% wedi dysgu siarad Cymraeg yn yr ysgol uwchradd. O ran siarad Cymraeg yn yr ysgol, yn y coleg neu yn y brifysgol, roedd 22% o siaradwyr Cymraeg bob amser (neu bron bob amser) yn siarad Cymraeg. Roedd hyn yn amrywio yn ôl oedran gyda 30% o'r rhai rhwng 3 a 15 (yn siarad Cymraeg yn bennaf yn yr ysgol), gan ostwng i 14% ar gyfer y rhai 16 i 29 ac yn cynyddu i 20% ar gyfer y rhai 65 oed a hŷn.

5.1.19 Mae dilyniant ieithyddol disgyblion drwy addysg gynradd yn uchel yn Ynys Môn ac yng Ngwynedd – mae bron yr holl blant sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf yng Nghyfnod Allweddol 1 yn parhau i ddysgu Cymraeg fel iaith gyntaf ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2.

5.1.20 Felly, mae'n amlwg fod gan addysg cyfrwng Cymraeg rôl hanfodol yn nyfodol yr iaith. Mae addysg cyfrwng Cymraeg wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y bobl ifanc sy'n gallu siarad Cymraeg, a'r gyfran o'r boblogaeth a anwyd y tu allan i Gymru sydd ag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg.

*Perthynas rhwng twf economaidd, swyddi, creu cyfoeth a lles y Gymraeg*

5.1.21 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y berthynas rhwng meithrin twf economaidd, swyddi, creu cyfoeth a lles yr iaith Gymraeg (Cyf 26.1). Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg (Cyf 26.1) yn cydnabod y canlynol:

*"Mae'r economi'n hanfodol er mwyn creu'r amodau cymdeithasol priodol lle gall siaradwyr Cymraeg aros mewn cymunedau Cymraeg, neu ddychwelyd i'r cymunedau hynny. Er nad ydym yn gallu rheoli pob ffactor sy'n dylanwadu ar dwf economaidd, mae yna bethau y gallwn ddylanwadu arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys sgiliau, y pwys a roddir ar y Gymraeg, lleoliad swyddi yn y sector cyhoeddus, clystyrau, sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gweld fel sgil gwerthfawr mewn datblygiadau mawr, a chyfleoedd i ddefnyddio'r sgiliau hyn."*

5.1.22 Mae'r AEIG ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Cyf 26.25) yn cydnabod y bydd hwyluso "*datblygiadau sy'n cynnal, gwella, moderneiddio ac arallgyfeirio'r economi yn darparu un o'r blociau adeiladu sy'n gallu cyfrannu at gynnal, cryfhau neu greu cymunedau Cymraeg eu hiaith*".

5.1.23 Mae hefyd yn cydnabod yr "*angen i gynyddu allbwn economaidd o amrywiaeth o sectorau, gan gynyddu nifer y swyddi a'r busnesau newydd sy'n cael eu sefydlu, a ddylai helpu i gadw'r gweithlu presennol o siaradwyr Cymraeg a denu trigolion oedran gweithio a oedd yn arfer gweithio yn yr ardal i ddychwelyd yno"*(Cyf 26.25).

5.1.24 Mae'n amlwg felly yr ystyrir bod cysylltiad clir rhwng twf economaidd, swyddi, creu cyfoeth a lles y Gymraeg.

*Roedd dros 50% o aelwydydd Ynys Môn a Gwynedd wedi cael eu 'prisio allan o'r farchnad' yn 2012*

5.1.25 Un mesur o fforddiadwyedd yn y farchnad dai ydy cyfran yr aelwydydd nad ydynt yn gallu fforddio prynu tŷ lefel mynediad sydd o fewn yr amrediad prisiau chwartel isaf (Cyf 26.26). Mae pris tŷ chwartel isaf yn cael ei rannu gan 3.5 i gyfrifo'r trothwy incwm aelwydydd y byddai ei angen er mwyn fforddio prynu tŷ lefel mynediad. Mae aelwydydd dan y trothwy hwn yn cael eu hystyried fel rhai sydd wedi cael eu 'prisio allan o'r farchnad' (Cyf 26.26).

5.1.26 Yn 2012, roedd 68.2% neu 21,433 o aelwydydd ar Ynys Môn wedi cael eu 'prisio allan o'r farchnad dai'. Ward Llanfair-yn-Neubwll oedd â'r gyfran isaf

o aelwydydd a oedd wedi cael eu ‘prisio allan o’r farchnad dai’, sef 37.2%, a ward Llanbedrgoch oedd â’r gyfran uchaf, sef 79.9% (Cyf 26.26). Yn ystod yr un cyfnod yng Ngwynedd, cafodd 58.1% neu 30,911 o aelwydydd eu ‘prisio allan o’r farchnad dai'. Ward Menai ym Mangor oedd â’r gyfran isaf o aelwydydd a oedd wedi cael eu ‘prisio allan o’r farchnad dai’, sef 33.6%, a ward Abersoch oedd â’r gyfran uchaf, sef 93.4% (Cyf 26.26).

5.1.27 Mae fforddiadwyedd tai, o ran y gallu i brynu tŷ lefel mynediad, felly’n cael ei ystyried yn broblem gyffredol ym Môn ac yng Ngwynedd.

*Pwysigrwydd rôl cyfleoedd cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg mewn cymunedau*

5.1.28 Mae dwysedd y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn allweddol i sicrhau ffyniant yr iaith a chaiff hyn ei adlewyrchu yng ngweithgarwch y gymuned drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gweithgareddau diwylliannol a chymunedol mewn ardal leol yn cyfrannu at werth yr iaith, a hefyd yn creu teimlad o berthyn i gymuned neu ardal (Cyf 26.18).

5.1.29 Yn y TTWA, mae darpariaeth helaeth o gyfleoedd cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg mewn cymunedau sy'n gallu helpu i hyrwyddo rhwydweithiau diwylliannol a chreadigol Cymraeg, yn ogystal â hybu'r profiad o fod yn rhan o gymdeithas Gymraeg fywiog. Mae’r grwpiau hyn yn cynnwys yr Urdd, Clybiau Ffermwyr Ifanc, Merched y Wawr, Cylchoedd Meithrin, Theatr Ieuenctid Môn a Chylchoedd Ti a Fi. Mae’r holl grwpiau hyn yn hyrwyddo defnydd o’r Gymraeg yn eu gweithgareddau.

5.1.30 Mae Arolwg Defnyddio'r Gymraeg 2013-15 (Cyf 26.24), yn canfod cyswllt rhwng nifer y siaradwyr Cymraeg sy’n byw o fewn ffin awdurdod lleol a nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl ac yn awgrymu “*mae hyn o bosibl am fod yr iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio’n aml yn yr ardaloedd hynny, gan ddarparu cyfleoedd i bobl gynnal neu ddatblygu eu rhuglder yn y Gymraeg*” (Cyf 26.24). Mae Ynys Môn a Gwynedd wedi cael eu cydnabod am fod â’r crynodiadau uchaf o siaradwyr Cymraeg rhugl o fewn yr arolwg. Felly, mae gan gyfleoedd cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg rôl bwysig yn nyfodol yr iaith o fewn cymunedau drwy ddarparu cyfleoedd i bobl gynnal neu ddatblygu eu rhuglder yn y Gymraeg.

# 6 Asesiad o'r effeithiau

## 6.1 TROSOLWG

6.1.1 Ystyrir effeithiau posibl y Datblygiad Arfaethedig ar yr iaith Gymraeg a'i diwylliant yn erbyn y 18 cwestiwn, yn unol â’r fethodoleg a ddisgrifir yn adran 4, sy’n cwmpasu’r pum agwedd allweddol ar fywyd cymunedol fel y disgrifir yn adran 1.

## 6.2 NODWEDDION Y BOBLOGAETH

*C1: Ydy’r Datblygiad Arfaethedig yn debyg o arwain at gynnydd neu ostyngiad yn y boblogaeth?*

- A allai’r Datblygiad Arfaethedig effeithio ar y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg/y di-Gymraeg (mewn modd niweidiol/manteisiol)?
- A allai’r Datblygiad Arfaethedig arwain at ddirywiad absoliwt neu gyfrannol yn nifer y siaradwyr Cymraeg?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

6.2.1 Gall datblygiad newydd ddylanwadu ar symudiadau'r boblogaeth mewn ardal. Gall gael effaith gadarnhaol drwy sefydlogi poblogaethau neu hybu twf drwy fewnfudo. Fodd bynnag, gall lefelau sylweddol o fudo, i mewn neu allan, gael effaith niweidiol ar gydbwysedd cymdeithasol ardal, ac o ganlyniad, gall ddylanwadu ar nodweddion allweddol cymuned fel y defnydd o'r iaith Gymraeg.

6.2.2 Rhwng 2011 a 2016 gwelodd Ynys Môn all-lif cyffredinol o bobl gyda’r all-lif mwyaf yn y categorïau oedran 15 i 29 a 65+ (Cyf 26.48). Mae pobl 45 i 64 oed wedi bod yn symud i mewn i Ynys Môn yn gyson hefyd (174 o bobl y flwyddyn ar gyfartaledd).

6.2.3 Ar gyfer yr un cyfnod o amser, mae Gwynedd wedi profi all-lif cyffredinol o bobl o bob oed (Cyf 26.48). Drwy gydol y cyfnod hwn, mae Gwynedd wedi parhau i weld mewnlif o bobl 45 i 64 oed (164 o bobl y flwyddyn ar gyfartaledd). Mae Gwynedd hefyd wedi gweld all-lif parhaus o bobl 1 i 44 oed (288 o bobl y flwyddyn ar gyfartaledd).

6.2.4 Mae llai o gyfleoedd economaidd a’r angen i symud i ffwrdd i gael addysg uwch mewn prifysgolion ymysg y prif resymau pam y mae pobl ifanc yn mudo. Rhwng 2009 a 2013, cafwyd gostyngiad o 1,050 (6%) o weithwyr cyfwerth ag amser llawn mewn cyflogaeth yn Ynys Môn.

6.2.5 Mae darparu digon o dai a thwf economaidd yn bwysig er mwyn lleihau faint o bobl (gan gynnwys siaradwyr Cymraeg) sy’n allfudo o’u cymunedau.

6.2.6 Mae’r CDLlC a fabwysiadwyd yn ddiweddar (Cyf 26.8) yn nodi bod disgwyl i rannau o Ynys Môn a Gwynedd weld cyfleoedd gwaith sylweddol o 2018 ymlaen o ganlyniad i Brosiect Wylfa Newydd, datgomisiynu Gorsaf Bŵer Niwclear Bresennol Wylfa a phrosiectau seilwaith mawr eraill. Mae'r CDLlC yn darparu ar gyfer datblygu 7,184 o unedau tai rhwng 2011 a 2026. Mae’r lefel hon o ddatblygiad a nodwyd yn y CDLlC yn seiliedig ar dwf a arweinir gan gyflogaeth. Ond, yn ôl amcanestyniadau Llywodraeth Cymru, mae disgwyl y bydd poblogaeth Ynys Môn yn parhau i ddisgyn, gan ostwng 3% yn ystod y cyfnod tan 2039 (blwyddyn olaf y rhagolwg). Ar y llaw arall, mae disgwyl i boblogaeth gogledd Cymru gynyddu 4% ac i boblogaeth Cymru gyfan gynyddu 5% erbyn 2039. Nid yw amcanestyniadau Llywodraeth Cymru yn datgan yn benodol a ydynt yn cynnwys effaith Wylfa Newydd a phrosiectau seilwaith sylweddol eraill.

6.2.7 Comisiynodd Cyngor Sir Ynys Môn ei amcanestyniadau poblogaeth ei hun sy’n ystyried effeithiau posibl y Rhaglen Ynys Ynni ar yr ynys, gan gynnwys Prosiect Wylfa Newydd. Mae’r amcanestyniadau hyn yn awgrymu y bydd poblogaeth Ynys Môn yn tyfu 9.5% rhwng 2016 a 2035, blwyddyn ddiweddaraf amcanestyniadau.

6.2.8 Roedd canran uchel o boblogaeth y TTWA (3 oed a hŷn) yn siarad Cymraeg yn 2011 (61.0%) o’i gymharu â chyfartaledd o 19% yng Nghymru). Serch hynny, mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn y TTWA wedi gostwng ychydig o 79,805 (64.6%) yn 2001 i 79,470 (61.0%) yn 2011 - gostyngiad o 0.4% yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae'r gostyngiad hwn yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg wedi'i briodoli i newidiadau demograffig yn y boblogaeth, siaradwyr Cymraeg yn allfudo, pobl ddi-Gymraeg yn mewnfudo a newidiadau o ran sgiliau pobl rhwng Cyfrifiadau.

6.2.9 Rhwng 2001 a 2011, roedd y cwymp mwyaf yng nghanran y bobl a oedd yn gallu siarad Cymraeg ymysg y rheini a oedd yn rhwng 20 a 24 oed, wedi’i ddilyn gan y rheini a oedd rhwng 16 a 19 oed. Roedd canran y bobl ifanc 20 i 24 oed a oedd yn gallu siarad Cymraeg wedi disgyn 9.7 pwynt canran dros y cyfnod hwn (o 58.6% i 48.9%) ac roedd canran y rheini a oedd yn 16 i 19 oed a oedd yn gallu siarad Cymraeg wedi disgyn 9.0 pwynt canran (o 71.9% i 62.9%). Er bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn y grwpiau hyn wedi cynyddu ar y cyfan yn ystod yr un cyfnod, cynnydd o 36 a 349 yn y drefn honno.

6.2.10 Roedd canran y plant 3 i 4 a 5 i 15 oed a oedd yn gallu siarad Cymraeg wedi cynyddu yn y TTWA rhwng 2001 a 2011 (0.9 pwynt canran ac 1.5 pwynt canran yn y drefn honno). Mae canran uchaf y siaradwyr Cymraeg yn gyffredinol yn y grŵp oedran 5 i 15 o hyd, ac mae'n sylweddol uwch na'r holl grwpiau oedran eraill gydag 84.4% yn siarad Cymraeg. Mae modd priodoli'r cynnydd yng nghanran y siaradwyr Cymraeg ymhlith y grwpiau hyn yn bennaf i rôl addysg cyfrwng Cymraeg ym mhob ysgol ar draws y TTWA.

6.2.11 Mae cynllunwyr ieithyddol ac eraill wedi dadlau ers amser fod angen dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg er mwyn i'r iaith Gymraeg fod yn iaith bob dydd mewn cymuned ac yn rhan o'i gwead cymdeithasol. Gostyngodd canran y wardiau yn y TTWA lle'r oedd dros 70% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg o 40.5% (30 ward) yn 2001 i 37.8% (28 ward) yn 2011. Roedd canran y bobl a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn 2011 ym mhob ward ar draws y TTWA yn amrywio'n sylweddol – o 18.6% yn ward Menai (Bangor) i 87.8% yn ward Llanrug.

6.2.12 Mae canran y siaradwyr Cymraeg ar draws y TTWA wedi gostwng ers 2001, ac ar Ynys Môn y mae'r rhan fwyaf o'r wardiau sydd wedi gweld gostyngiad yn y ganran sy'n gallu siarad Cymraeg. Gwelwyd y gostyngiad mwyaf yn ward Garth (-15.7 pwynt canran) ac fe'i priodolir i'r nifer fawr o fyfyrwyr Prifysgol Bangor sy'n byw yn y ddinas ac nad ydynt yn siarad Cymraeg. Dim ond mewn 10 o'r 74 ward yn y TTWA y gwelwyd cynnydd yng nghanran y siaradwyr Cymraeg.

<u>Effeithiau yn ystod y camau adeiladu a gweithredu</u>

6.2.13 Yn ystod y cam adeiladu (Senario 1), byddai'r gweithlu adeiladu yn cynnwys dros 200 o weithwyr am gyfnod o oddeutu 44 mis (tair blynedd a hanner) o fis Mai 2022 ymlaen. Ar gyfer Senario 2 a Senario 3 byddai'r gweithlu dros 200 o weithwyr am 43 a 41 mis. Ar y cyfnod prysuraf, ni fyddai'r angen am hyd at oddeutu 450 o weithwyr, oddeutu 10% ohonynt yn byw gartref, yn arwain at newid sylweddol yn nodweddion poblogaeth presennol y TTWA.

6.2.14 Roedd cyfran uchel o boblogaeth y TTWA (3 oed a hŷn) yn siarad Cymraeg yn 2011 (61.0% o'i gymharu â chyfartaledd o 19% yng Nghymru). Mae'r 39% sy'n weddill ac nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg yn 53,752 o bobl. Ni fyddai ychwanegu'r senario gwaethaf posibl o oddeutu 400 o weithwyr adeiladu nad ydynt yn byw gartref, yn newid cydbwysedd siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg y tu hwnt i'r rhaniad 61% a 39%. Mae hyn hefyd yn tybio senario lle y mae'r boblogaeth gyffredinol yn aros yn sefydlog ac nid yw'n ystyried dyheadau'r CDLlC am dwf na Strategaethau Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Lleol i gynyddu nifer a chyfran siaradwyr Cymraeg drwy weithredu eu Strategaethau Iaith.

6.2.15 Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y Datblygiad Arfaethedig yn croesi nifer o wardiau gwledig yn Ynys Môn a Gwynedd lle y mae'r gyfran o siaradwyr Cymraeg yn uwch na'r cyfartaledd ar draws y TTWA. Yn llawer o'r wardiau hyn mae dwysedd y boblogaeth yn is ac mae canolfannau poblogaeth yn llai, lle y gallai mewnlifiad niferoedd mawr o weithwyr adeiladu achosi newid amlwg yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg yn y cymunedau hynny er mai am gyfnod dros dro y bydd.

6.2.16 Gan ddefnyddio senario achos gwaethaf lle nad oes yr un o'r gweithwyr nad ydynt yn byw gartref yn siaradwyr Cymraeg, byddai effaith gweithwyr yn byw yn y TTWA heb eu teuluoedd ar yr iaith a'r diwylliant Cymraeg yn fach iawn.

Poblogaeth gyffredinol y TTWA yn 2011 oedd 137,826. Ni fyddai ychwanegu 447 o drigolion eraill at y boblogaeth honno yn y cyfnod prysuraf ond yn golygu cynnydd o 0.3% yn y boblogaeth sefydlog. Ni ystyrir y byddai’n debygol y byddai gweithwyr yn crynhoi yn y cymunedau mwy gwledig, felly ni ddisgwylir effeithiau niweidiol ar y cydbwysedd o siaradwyr Cymraeg a phobl nad ydynt yn siarad Cymraeg yn y cymunedau hynny.

6.2.17 Yn ystod y cyfnod gweithredol, ni fyddai’r Datblygiad Arfaethedig yn galw am weithlu ac eithrio’r timau cynnal a chadw arferol a gweithwyr gweinyddol a rheoli fel sy’n bodoli ar hyn o bryd gyda’r seilwaith trawsyrru trydan cyfredol. O’r herwydd, asesir bod yr effaith yn ystod y cam gweithredu yn un niwtral.

Effaith gyffredinol: lefel poblogaeth

6.2.18 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod, nodir effaith niweidiol fach iawn yn gyffredinol (gyda sgôr o -0.2).

*C2. Ydy’r Datblygiad Arfaethedig yn debygol o arwain at fwy o fewnfudo?*

- A allai’r Datblygiad Arfaethedig arwain at gynnydd yng nghyfran yr aelwydydd di-Gymraeg; ac
- A fydd y newid yn un parhaol neu’n un dros dro?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

6.2.19 Mae patrymau mudo yn rhan allweddol o newid mewn poblogaeth, ac mae mewnfudo'n dibynnu'n fawr ar amodau economaidd. Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol sy'n ymwneud â data am y boblogaeth a sgiliau iaith Gymraeg y TTWA wedi'u nodi'n rhan o’r asesiad o gwestiwn 1.

6.2.20 Oherwydd natur arbenigol llawer o’r gwaith adeiladu, mae disgwyl i’r rhan fwyaf o’r gweithwyr adeiladu fod yn dimau arbenigol o rannau eraill o’r Deyrnas Unedig neu Ewrop. Cymerir yn ganiataol y byddai'r mwyafrif yn ddi-Gymraeg.

6.2.21 Un o effeithiau mewnfudo yw, hyd yn oed os bydd nifer y siaradwyr Cymraeg yn sefydlog, mae'r ganran sy'n gallu siarad Cymraeg yn gostwng. Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg (Cyf 26.1) yn cydnabod y canlynol:

*‘Mae mewnfudo yn her i’r Gymraeg, ond gall hefyd fod yn gyfle i ddangos sut gall yr iaith gael ei defnyddio i gofleidio amlddiwylliannedd ac amrywiaeth. Gallai hynny fod drwy raglenni i ddysgu Cymraeg neu raglenni i helpu plant a theuluoedd i gefnogi dysgu a’u cynorthwyo i ymgartrefu yn eu cymunedau newydd.’*

6.2.22 Un newidyn y mae modd ei ystyried o ran ystadegau mudo a'r Gymraeg yw gwlad enedigol y boblogaeth yng nghyswllt eu sgiliau iaith Gymraeg.

6.2.23 Yn 2011, roedd canran is (18.5%) o boblogaeth y TTWA a oedd wedi'i geni y tu allan i Gymru yn gallu siarad Cymraeg o gymharu â'r rhai a oedd wedi'u geni yng Nghymru (81.9%). Mae canran is o'r boblogaeth sydd wedi'i geni y tu allan i Gymru yn meddu ar un neu ragor o sgiliau Cymraeg (14.1%) o gymharu â'r rhai sydd wedi'u geni yng Nghymru (85.9%).

6.2.24 Er gwaethaf y gostyngiad yng nghanran y siaradwyr Cymraeg rhwng 2001 a 2011, roedd y nifer o bobl wedi'u geni y tu allan i Gymru ond a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn y TTWA wedi cynyddu (78 yn fwy o bobl).

6.2.25 Mae’r awdurdodau addysg ar draws y TTWA (Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) yn gweithredu polisi dwyieithrwydd ym mhob ysgol ar draws y TTWA. Yn 2011, roedd 71.9% o'r boblogaeth 3-15 oed ar Ynys Môn, a oedd wedi'u geni y tu allan i Gymru, yn meddu ar un neu ragor o sgiliau Cymraeg. Roedd hyn yn gynnydd ers 2001, lle’r oedd 66.3% o'r boblogaeth 3-15 oed ar Ynys Môn a oedd wedi'u geni y tu allan i Gymru yn meddu ar un neu ragor o sgiliau Cymraeg. Mae hyn yn awgrymu bod y polisi addysg ddwyieithog yn cael effaith gadarnhaol o ran gallu'r plant sydd wedi cael eu geni y tu allan i Gymru i siarad Cymraeg. Ni nodwyd unrhyw ddata cyfatebol ar gyfer Gwynedd.

<u>Effeithiau yn ystod y camau adeiladu a gweithredu</u>

6.2.26 Mae C1 yn cyflwyno effaith cynnydd ymylol a dros dro yn y boblogaeth o ganlyniad uniongyrchol i hyd at 400 o weithwyr na fyddant yn byw gartref yn mewnfudo i’r ardal yn ystod y cyfnod prysuraf, ac mae hyn hefyd yn berthnasol wrth asesu'r cwestiwn hwn. Mae hyn yn cynnwys yr effaith ar gyfran y siaradwyr Cymraeg, felly mae cydbwysedd y siaradwyr Cymraeg a phobl ddi-Gymraeg ar wahanol lefelau gofodol (disgwylir y bydd lefel yr effaith yn niweidiol fach cyn mesurau lliniaru) dim ond os bydd y llety’n cael ei grynhoi mewn wardiau mwy gwledig lle mae lefelau poblogaeth yn isel ar y cyfan ond cyfran y siaradwyr Cymraeg yn uchel. Er enghraifft, caiff ward Llannerchymedd ar Ynys Môn ei chroesi gan y Datblygiad Arfaethedig. Mae poblogaeth y ward yn 1,294, ac mae 69.9% yn siaradwyr Cymraeg. Mae gan y wardiau gwledig hyn lai o allu i ymdopi â’r di-Gymraeg na’r wardiau trefol mwy, hyd yn oed am gyfnod dros dro, heb gael effaith niweidiol bosibl ar y Gymraeg.

6.2.27 Ni ddisgwylir i’r gweithlu adeiladu symud eu teuluoedd i’r ardal yn ystod y cam adeiladu, fel sy’n cael ei nodi yn Atodiad 17.2, Cofnod Tybiaethau Dadansoddi’r Gweithlu (**Dogfen 5.17.2.2**). Mae’r gweithwyr adeiladu arbenigol sydd eu hangen ar gyfer y llinellau uwch ben ac ar gyfer gwaith adeiladu’r twnnel wedi arfer gweithio i ffwrdd oddi cartref, yn hytrach na symud i leoliad pob prosiect. Mae natur y gwaith yn golygu bod prosiectau wedi’u lleoli ledled y DU yn ogystal â thramor. Fel rheol, nid yw gweithwyr yn symud gyda phob prosiect, gan y byddai hyn yn amharu ar fywyd eu teuluoedd, yn arbennig os oes ganddynt blant yn yr ysgol neu bartner sy’n

gweithio. Felly, mae effaith liniarol fanteisiol polisi addysg ddwyieithog yr awdurdodau’n annhebygol o effeithio ar allu ieithyddol gweithwyr nad ydynt yn byw gartref.

6.2.28 Er bod gostyngiad yng nghanran y siaradwyr Cymraeg mewn unrhyw gymuned yn berthnasol wrth asesu effeithiau, ystyrir bod y trothwyon o 70% a 50% o siaradwyr Cymraeg mewn cymuned yn arbennig o arwyddocaol.

6.2.29 Awgryma dadansoddiad gwaelodlin fod cymunedau sy’n cynnwys dros 70% o siaradwyr Cymraeg yn gymunedau lle y mae’r iaith Gymraeg yn hyfyw fel iaith gymunedol, tra bo’r trothwy o 50% yn fesur syml lle y mae cydbwysedd y boblogaeth sy’n gallu siarad Cymraeg yn y mwyafrif. Wrth i weithwyr adeiladu na fyddent yn byw gartref fewnfudo i wardiau sy’n cynnwys dros 70% o siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd, gallai hynny achosi effeithiau niweidiol ar y wardiau hynny, pe byddai’r wardiau hyn yn disgyn dros dro o dan y trothwy o 70% lle mae iaith yn hyfyw fel iaith gymunedol o ganlyniad i weithwyr adeiladu’n symud yno.

6.2.30 Ni ddisgwylir effeithiau mewnfudo yn ystod y cam gweithredu.

Effaith gyffredinol: mewnfudo

6.2.31 Byddai effaith mewnfudo gan weithwyr adeiladu na fyddent yn byw gartref ar gydbwysedd siaradwyr Cymraeg yn un am gyfnod dros dro gyda nifer y gweithwyr dros 200 am gyfnod o dair blynedd a hanner. Nid yw hyn, o’i gyfuno â’r ffaith nad oes disgwyl i weithwyr symud eu teuluoedd i’r ardal a’u bod yn tueddu i ddychwelyd i'w cartrefi yn ystod cyfnodau pan na fyddant yn gweithio, yn cael ei ystyried yn ddigon i effeithio’n niweidiol ar les yr iaith a'r diwylliant Cymraeg yn y TTWA. Fodd bynnag, fel y nodwyd mewn ymateb i C1, er mai dros dro y bydd y newid efallai, os bydd niferoedd sylweddol o weithwyr yn cael llety mewn wardiau lle y mae’r boblogaeth gyffredinol yn isel a bod y gyfran o siaradwyr Cymraeg yn agos at drothwyon 70% a 50%, gallai effeithiau niweidiol ddigwydd.

6.2.32 Cyn lliniaru, asesir y bydd y mewnfudo sy'n gysylltiedig â’r Datblygiad Arfaethedig yn cael effaith niweidiol fach. Ni fyddai’r effaith yn barhaol, ac ni fyddai ond yn cyflwyno ychydig dros 200 o weithwyr na fyddent yn byw gartref i’r ardal am gyfnod o dair blynedd a hanner. O’r herwydd, ystyrir bod effaith niweidiol ar y TTWA cyfan yn annhebygol, er y cydnabyddir y potensial ar gyfer effeithiau ar lefel wardiau.

6.2.33 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod, nodir effaith niweidiol fach yn gyffredinol (gyda sgôr o -0.3).

Mesurau lliniaru

6.2.34 Mae’r mesurau canlynol, sydd wedi’u cyflwyno yn y Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol Adeiladu (**Dogfen 7.4**) wedi cael eu cynnig er mwyn rhoi sylw i effaith niweidiol fach mewnfudo;

- **GP21** Bydd asiantaeth cysylltiadau cyhoeddus ddwyieithog yn cael ei phenodi i ddarparu cefnogaeth cysylltiadau cymunedol a chyfathrebiadau allanol. Bydd yr asiantaeth cysylltiadau cymunedol yn gweithio gyda thîm cyfathrebu mewnol sefydledig National Grid ac yn cynnwys siaradwyr Cymraeg.

- **GP31** Bydd y contractwr yn aelod o’r Cynllun Adeiladwyr Ystyriol ac yn glynu at God Ymddygiad. Bydd y Cod Ymddygiad yn cynnwys adrannau ar barchu’r amgylchedd, parchu cymunedau a pharchu’r iaith Gymraeg a'i diwylliant.

- **GP32** Darperir gwybodaeth i weithwyr ar ymwybyddiaeth iaith, y cyd-destun ieithyddol a diwylliannol lleol a sut i ddangos cwrteisi ieithyddol a sensitifrwydd diwylliannol.

- **GP33** Bydd sesiynau cynefino a sgyrsiau blwch offer ar y safle’n cynnwys gwybodaeth am eiriau ac ymadroddion Cymraeg, a gwybodaeth am adnoddau ar gyfer dysgu Cymraeg.

- **GP34** Bydd y contractwr yn sefydlu proses i fonitro ble y mae gweithwyr yn aros yn ôl y math o lety a’r lleoliad. Bydd canlyniad y monitro hwn yn cael ei ddarparu i National Grid.

*C3. Ydy’r Datblygiad Arfaethedig yn debyg o arwain at fwy o allfudo?*

- A yw’r broses o allfudo’n debygol o arwain at golli aelwydydd Cymraeg; ac

- A fyddai’r newid yn un parhaol neu’n un dros dro?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

6.2.35 Mae allfudo'n gysylltiedig yn aml â thueddiadau economaidd, y ddarpariaeth tai a phrisiau tai. Yr hyn sy'n berthnasol i'r gwaith o asesu allfudo yw'r ffaith fod Ynys Môn wedi profi all-lif net cyson o bobl ifanc (15-29 oed) yn ystod y cyfnod 2011 i 2015, gyda’r all-lif mwyaf o 290 yn 2015/2016. Ar gyfer y grwpiau oedran eraill, mae’r allfudo yn isel.

6.2.36 Gwelodd y grŵp oedran 20 i 24 y gostyngiad mwyaf yng nghanran y siaradwyr Cymraeg rhwng 2001 a 2011 (gostyngiad o 9.7 pwynt canran o 58.6% i 48.9%) wedi’i ddilyn gan y grŵp oedran 16 i 19, a welodd ostyngiad o 9.0 pwynt canran (o 71.9% i 62.9%). Mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r all-lif parhaus o bobl ifanc 15 i 29 oed o 2001 hyd 2016. Mae strategaeth y CDLIC yn ceisio gwrthdroi’r duedd hon drwy ganolbwyntio ar ffyniant economaidd a chreu swyddi’n gysylltiedig â datblygiadau’r Ynys Ynni fel Wylfa Newydd.

6.2.37 Rhwng 2011 a 2015, gwelodd Gwynedd all-lif net cyffredinol, gyda'r all-lif mwyaf o 830 yn 2012. Y grŵp oedran 15 i 29 welodd yr all-lif mwyaf, gyda'r all-lif mwyaf o 630 yn 2012. Yn yr un cyfnod, gwelodd Gwynedd all-lif net cyffredinol yn y grŵp oedran 45 i 64.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu a gweithredu

6.2.38 Mae hyd at dri eiddo wedi'u nodi ar gyfer eu caffael, na fyddai'n cael eu defnyddio fel tai preswyl preifat mwyach o ganlyniad i'r Datblygiad Arfaethedig. Hefyd, mae eiddo sydd wedi mynd â'i ben iddo a fyddai'n cael ei atal rhag cael ei ddefnyddio at ddibenion preswyl eto. Mae un eiddo yn Rhan A (Wylfa i Rosgoch), mae dau yn Rhan B (Rhosgoch i Landyfrydog) ac mae un yn Rhan D (B5110 i'r Gogledd o Dalwrn i bentref Ceint). Mae'r eiddo wedi'u lleoli y tu allan i gymunedau ac maent un ai'n ddiarffordd neu wedi'u lleoli mewn ardal lle y mae eiddo'n wasgaredig ac o'r herwydd ni fyddai caffael yr eiddo hyn yn arwain at allfudo, a allai gael effaith ar yr iaith Gymraeg. Darllenwch Bennod 3 y Datganiad Amgylcheddol, Disgrifiad o'r Datblygiad Arfaethedig (**Dogfen 5.3**) i gael eglurhad am rannau'r llwybrau.

6.2.39 Nid oes disgwyl i lawer o'r cyfleoedd cyflogaeth a gynigir yn ystod y cyfnod adeiladu gael eu cymryd gan lafur lleol oherwydd natur arbenigol y gwaith. Fodd bynnag, byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn golygu rhywfaint o gyflogaeth uniongyrchol ac ysgogedig ac, o'r herwydd, gallai gael effaith fanteisiol fach iawn o ran lleihau allfudo.

6.2.40 Ni ddisgwylir effeithiau allfudo yn ystod y cam gweithredu.

Effaith gyffredinol: allfudo

6.2.41 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod a'r posibilrwydd o greu swyddi er mwyn lleihau allfudo, nodir effaith fanteisiol fach iawn yn gyffredinol (gyda sgôr o +0.2).

*C4. A fydd y Datblygiad Arfaethedig yn debygol o arwain at newid strwythur oed yn y gymuned?*

- A allai'r Datblygiad Arfaethedig arwain at bobl ifanc/canol oed/hŷn sy'n siarad Cymraeg yn gadael yr ardal/yn symud i'r ardal, gan arwain at:
  - newidiadau yn y patrymau gweithgarwch traddodiadol a fyddai'n arwain at fwy o bobl yn dymuno symud i ffwrdd?
  - tensiynau cymdeithasol/chwalu'r rhwydweithiau cymdeithasol traddodiadol?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

6.2.42 Anaml iawn y mae newid, cynnydd a gostyngiad yn y boblogaeth yn unffurf ar draws proffil oedran. Mae datblygiadau'n debyg o effeithio ar wahanol

grwpiau oedran mewn gwahanol ffyrdd. Mae'n bosibl y bydd datblygiadau mawr yn effeithio ar strwythur poblogaeth mewn ardal benodol. Fe all y math o ddatblygiad a'i faint olygu bod grŵp oedran penodol yn debygol o fudo i ardal neu allan ohoni. Gall datblygiadau ar raddfa fawr hefyd arwain at densiynau cymdeithasol, er enghraifft, o ganlyniad i drigolion newydd yn symud i'r ardal. Fodd bynnag, ni fyddai disgwyl i’r Datblygiad Arfaethedig arwain at fewnlif neu all-lif sylweddol o drigolion i’r ardal neu allan ohoni yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredu.

6.2.43 Nid yw proffil y gweithwyr adeiladu sydd ar gael yn darparu dadansoddiad o broffil oedran pob gweithiwr. Fodd bynnag, mae proffil y gweithwyr yn ôl sgiliau yn esbonio y byddai’r gweithwyr adeiladu yn gymysgedd o weithwyr gweinyddol, rheoli, adeiladu arbenigol, adeiladu heb fod yn arbenigol ac iechyd a diogelwch.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu a gweithredu

6.2.44 Ni fyddai cael y nifer a fwriedir o weithwyr na fyddent yn byw gartref yn y TTWA yn achosi i ddemograffeg yr ardal newid yn sylweddol, fel sy’n cael ei drafod yn fanwl yn C1.

6.2.45 Yn 2011, roedd 61% o gyfanswm poblogaeth Ynys Môn a 63% o gyfanswm poblogaeth yr Ardal Teithio i'r Gwaith yn bobl oedran gweithio, yn debyg i gyfartaledd cenedlaethol Cymru (63%). Ar yr adeg brysuraf, ni fyddai 400 yn ychwanegol o weithwyr na fyddent yn byw gartref yn arwain at gynnydd yng nghanran y boblogaeth oedran gweithio yn y TTWA.

6.2.46 Oherwydd y patrwm cyson o bobl ifanc 15 i 29 oed yn gadael Ynys Môn rhwng 2001 a 2016, mae'n bosibl y bydd cyfleoedd cyflogaeth cyfyngedig y cam adeiladu yn cyfrannu at wrthdroi'r tueddiadau hyn, drwy gadw pobl ifanc yn yr ardal. O bosibl, gall pobl leol sydd wedi gadael yr ardal yn y gorffennol i chwilio am waith yn rhywle arall ddychwelyd i'r ardal. Byddai hyn o fudd i gymuned leol lle mae’r Gymraeg yn cael ei siarad yn helaeth, gan gynnal a chryfhau’r cydbwysedd oedran.

6.2.47 Mae cynyddu nifer y bobl oedran gweithio mewn ardal yn fantais amlwg i'r gymuned leol, yn arbennig o ran gweithgarwch economaidd. Ac ystyried bod canran poblogaethau oedran gweithio Ynys Môn a’r TTWA yn is na chyfartaledd cenedlaethol Cymru, ystyrir bod hon yn effaith fanteisiol.

6.2.48 Fodd bynnag, rhaid cydnabod hefyd y tybir y bydd canran sylweddol o’r gweithwyr nad fyddent yn byw gartref a fyddai’n symud i’r TTWA yn ystod y cam adeiladu yn ddi-Gymraeg. Er y byddai hyn yn cyfrannu at adfer cydbwysedd y strwythur oedran, byddai canran y boblogaeth ddi-Gymraeg yn cynyddu rhywfaint. Ond, nodir effaith hyn yn yr ymatebion i C1 a C2 uchod, ac ni chaiff ei hystyried yma eto.

6.2.49 Ni ragwelir unrhyw effaith ar strwythur oedran y gymuned yn ystod y cam gweithredu.

Effaith gyffredinol: strwythur oedran

6.2.50 Nid oes disgwyl unrhyw newidiadau i broffil oedran poblogaeth y TTWA o ganlyniad uniongyrchol i adeiladu a gweithredu’r Datblygiad Arfaethedig.

6.2.51 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod, nodir effaith niwtral yn gyffredinol (gyda sgôr o 0).

## 6.3 ANSAWDD BYWYD

*C5. A fydd y Datblygiad Arfaethedig yn debygol o gael effaith ar iechyd pobl leol?*

- A allai’r Datblygiad Arfaethedig gynyddu’r risg o salwch, gan felly wneud y gymuned yn lle llai dymunol i fyw ynddi?
- A allai’r Datblygiad Arfaethedig o bosibl wneud byw yno'n ddrutach efallai, a thrwy hynny gynyddu'r risg o broblemau ariannol/straen ar y boblogaeth leol Gymraeg ei hiaith?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

6.3.1 Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng iechyd pobl a'r gymuned y maent yn byw ynddi. Mae modd cysylltu dirywiad mewn iechyd ag ystod eang o ffactorau, gan gynnwys stoc wael o dai, dim digon o le mewn tai, cysylltiadau cludiant gwael a dirywiad mewn amgylchiadau ariannol. Os bydd datblygiad yn arwain at ddirywiad mewn ansawdd bywyd, gall sefydlogrwydd y gymuned fod o dan fygythiad oherwydd gall y rheini sy'n gallu fforddio i symud o ardal wneud hynny. Mewn ardal lle caiff yr iaith Gymraeg ei siarad yn helaeth, gall hyn effeithio ar ganran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg.

6.3.2 Darperir dadansoddiad gwaelodlin ar les yn yr Adroddiad Lles (WBR) (**Dogfen 5.27**). Ystyrir effeithiau posibl y Datblygiad Arfaethedig yn nhermau ‘penderfynyddion’, sef ffactorau a allai olygu effeithiau niweidiol neu fanteisiol ar les. Mae’r penderfynyddion hyn yn gysylltiedig â’r nodau llesiant perthnasol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015.

6.3.3 Mae’r grwpiau agored i niwed a nodwyd yn adran 2.2 yr Adroddiad Lles (**Dogfen 5.27**) yn cynnwys trigolion mewn lleoliadau gwledig, pobl hŷn, gofalwyr, y di-waith ac aelwydydd incwm isel.

6.3.4 Yn 2011, roedd 50.4% o boblogaeth Gwynedd yn dweud bod ganddynt ‘iechyd da iawn’ o gymharu â 48% ar Ynys Môn a 46.6% yng Nghymru (Cyf 26.27).

6.3.5 Roedd cyfran uwch o'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg ar Ynys Môn (81.1%) ac yng Ngwynedd (83.1%) yn 2011 yn dweud bod eu hiechyd yn ‘dda neu'n dda iawn’ o’i gymharu â chyfanswm y boblogaeth (78.6% a 81.1% yn y drefn honno) (Cyf 26.27).

6.3.6 Mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon llesiant personol a dylid ystyried eu bod yn rhoi amcangyfrif da, yn hytrach na mesur union. Mae'r data lles personol yn dangos bod trigolion Ynys Môn, ar gyfartaledd, yn fwy bodlon â'u bywyd yn gyffredinol na gweddill Cymru a’r DU (Cyf 26.45).

6.3.7 Mae mesuriad swyddogol Llywodraeth Cymru o'r amddifadedd cymharol (Cyf 26.29) yn ardaloedd bach Cymru yn cael ei gyflwyno ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD). Ar hyn o bryd mae WIMD yn cynnwys wyth ‘parth’ amddifadedd ar wahân ac mae’n sgorio ardaloedd penodol, sy’n cael eu galw yn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) o ran amddifadedd.

6.3.8 Mae’r parth iechyd yn mesur marw cyn amser ac amharu ar safon byw oherwydd salwch. Mae’n ystyried iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Mae’r TTWA ymysg y lleiaf amddifad o ran iechyd, gyda llai na 30% o'r ardaloedd cynnyrch ehangach haen is yn hanner isaf y mynegai.

6.3.9 Mae Pennod 17 y Datganiad Amgylcheddol, Materion Economaidd-gymdeithasol (**Dogfen 5.17**) yn cyfeirio at adolygiad gan Cartrefi Cymunedol Gwynedd Cyf (2017) o’r Sector Rhentu Preifat (PRS) yng Ngogledd-orllewin Cymru (Cyf 26.34), sy’n adrodd bod canolbwynt y farchnad Sector Rhentu Preifat ym Môn o gwmpas Porthaethwy a de Ynys Môn tuag at y tir mawr. Yng Ngwynedd, mae’r farchnad yn cronni o gwmpas Bangor a Chaernarfon. Dywedir bod y farchnad ym Mangor yn hynod fywiog, ac yn cael hwb gan y farchnad fawr ymysg myfyrwyr. Mae’n debyg bod llai o eiddo yn dod ar y farchnad yn Ynys Môn, gan arwain at lefelau trosiant isel. Mae’r adolygiad o’r farchnad PRS yn dangos prinder o gartrefi fforddiadwy a thai cymdeithasol fel ffactorau sy’n cynyddu’r galw yn y farchnad rhentu preifat.

6.3.10 Amcangyfrifodd The Communities and Local Government 2014-2015 English Housing Survey (Cyf 26.35) lefel eiddo gwag yn ôl deiliadaeth ar sail deiliadaeth flaenorol eiddo[2]. Ar gyfer eiddo PRS, mae canlyniadau’r astudiaeth yn dangos fod 11.1% yn wag. Gan ganiatáu ar gyfer cyfradd eiddo gwag weithrediadol o 3% – yr un gyfradd ag sy’n berthnasol i osod tai cymdeithasol – byddai’r gyfran eiddo gwag sydd ar gael oddeutu 8%.

[2] Nodir nad oedd modd dod o hyd i ddata cyfatebol ar gyfer Cymru, ac felly bod yr asesiad yn dibynnu ar yr arolwg o Loegr.

6.3.11 Yn 2016, y canolrif rhent ar gyfer llety sector preifat oedd £536 y mis ar Ynys Môn a £524 y mis yng Ngwynedd (Cyf 26.36).

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu a gweithredu

6.3.12 Un o’r nodau lles o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 yw sicrhau Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a diben y nod yw hyrwyddo a gwarchod diwylliant, treftadaeth, iaith ac annog cyfranogaeth. Mae’r Adroddiad Lles (**Dogfen 5.27**) yn nodi grwpiau agored i niwed gan gyfeirio at y nod hwn fel rhai sy’n byw mewn lleoliadau gwledig neu ynysig. Gallai’r grwpiau hyn gael eu heffeithio’n anghymesur pe byddai mewnfudo sylweddol gan weithwyr di-Gymraeg.

6.3.13 Mae’n bosibl i’r gweithgareddau arfaethedig sy’n ymwneud ag adeiladu a gweithredu effeithio ar les pobl leol. Trafodir yr effeithiau hyn yn fwy manwl yn yr Adroddiad Lles (**Dogfen 5.27**) ac mae’n croesgyfeirio hefyd at benodau perthnasol o’r Datganiad Amgylcheddol. Y penderfynyddion pwysig ar gyfer lles pobl leol yw ansawdd aer, sŵn, gweithgaredd corfforol, cyflogaeth a thai (Cyf 26.47).

6.3.14 Mae’r effeithiau posibl sy’n deillio o waith adeiladu a gweithredu’r Datblygiad Arfaethedig yn cynnwys effeithiau gwahanu cysylltiedig â mynediad at fannau gwyrdd a chyfleusterau hamdden, a’r potensial ar gyfer colli mannau gwyrdd. Mae mynediad at y cyfleusterau hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â chymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol ac felly’n berthnasol i les (gweler Tabl 27.12 yr Adroddiad Lles, **Dogfen 5.27**).

6.3.15 Caiff effeithiau niweidiol posibl o ran tarfu amgylcheddol a chymdeithasol ar gyfer y cymunedau agosaf at y Datblygiad Arfaethedig eu cydbwyso yn erbyn y manteision ehangach yn economaidd ac o ran cyflenwadau ynni, fel y nodir yn Achos Angen y Prosiect (**Dogfen 7.1**).

6.3.16 Gan gyfeirio at gostau byw, byddai’r Datblygiad Arfaethedig yn creu peth cyflogaeth leol uniongyrchol ac anuniongyrchol a allai, oherwydd argaeledd swyddi sgiliau uwch, gynyddu cyfartaledd cyflogau gan olygu effeithiau cadarnhaol ar allu trigolion i brynu o ganlyniad.

6.3.17 Amcangyfrifir ym Mhennod 17 y Datganiad Amgylcheddol, Materion Economaidd-gymdeithasol (**Dogfen 5.17**) y byddai 22% o’r gweithlu yn defnyddio llety yn y sector rhentu preifat, sydd gyfystyr â 100 o weithwyr.

6.3.18 Ar sail dau weithiwr i bob aelwyd, byddai’r 100 gweithiwr hyn yn defnyddio 5.0% o’r llety ar Ynys Môn a Gwynedd. Os ystyrir lle ar Ynys Môn yn unig, mae’r ffigur achos gwaethaf yn 14%. Os ystyrir lle yng Ngwynedd yn unig, mae’r ffigur achos gwaethaf yn 7.7%. Ar sail hyn, daw’r asesiad economaidd-gymdeithasol (**Dogfen 5.17**) i’r casgliad nad yw’r effaith gyffredinol ar y PRS yn sylweddol.

Effaith gyffredinol: iechyd pobl leol

6.3.19 Nodir bod effaith gyffredinol adeiladu a gweithredu’r Datblygiad Arfaethedig ar yr iaith Gymraeg a'i diwylliant, yn anuniongyrchol oherwydd effeithiau ar les y boblogaeth leol, yn niwtral ar sail y ffaith mai’r casgliad cyffredinol a nodir yn Nhabl 27.29 yr Adroddiad Lles (**Dogfen 5.27**) yw na fyddai’r Datblygiad Arfaethedig yn cael unrhyw effaith sylweddol ar y nodau lles. Felly, ni ddisgwylir unrhyw gynnydd mewn risg o salwch.

6.3.20 Yn ogystal, daw’r asesiad economaidd-gymdeithasol (**Dogfen 5.17**) i’r casgliad nad yw’r effaith gyffredinol ar y PRS yn sylweddol. Cesglir o’r herwydd na fyddai unrhyw effaith sylweddol ar gost tai yn ystod y cyfnod adeiladu, ac na fyddai bywyd yn mynd yn ddrutach i drigolion lleol. Ni ddisgwylir unrhyw gynnydd yn y perygl o broblemau/straen ariannol ar y boblogaeth leol sy’n siarad Cymraeg.

6.3.21 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod, nodir effaith niwtral yn gyffredinol (gyda sgôr o 0).

*C6. A yw’r Datblygiad Arfaethedig yn debygol o gael effaith ar amwynder yr ardal leol?*

- A allai’r Datblygiad Arfaethedig arwain at ddirywiad yn ansawdd yr amgylchedd, gan felly wneud y gymuned yn lle llai dymunol i fyw ynddi?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

6.3.22 Mae'n bosibl yr effeithir ar y cydbwysedd rhwng y siaradwyr Cymraeg a'r bobl ddi-Gymraeg os bydd ansawdd yr amgylchedd adeiledig a naturiol yn dirywio neu os bydd lefelau presennol yr amwynderau cyffredinol yn dirywio, gan effeithio ar ansawdd bywyd. Gallai aelwydydd sy'n gallu fforddio i wario mwy benderfynu allfudo o’u cymunedau petai amwynderau'r ardal leol yn dirywio.

6.3.23 Mae Pennod 17 y Datganiad Amgylcheddol, Materion Economaidd-gymdeithasol (**Dogfen 5.17**) yn cynnwys asesiad o’r effeithiau ar amwynder y gymuned. Defnyddir amwynder, yn y cyd-destun hwn i ddisgrifio cymeriad neu natur ddeniadol cymdogaeth.

6.3.24 Mae effeithiau ar amwynder yn codi o gyfuniad o effeithiau amgylcheddol. Yng nghyswllt y Datblygiad Arfaethedig, mae’r rhain yn cynnwys effeithiau gweledol, traffig, ansawdd aer a sŵn. O’r herwydd, yn yr asesiad economaidd-gymdeithasol (**Dogfen 5.17**), pennwyd uchafswm maint ardal yr astudiaeth gan yr asesiadau pwnc hyn. Mae ardal yr astudiaeth ar gyfer yr asesiad amwynder o fewn ffiniau’r TTWA.

6.3.25 Ystyrir derbynyddion gyda photensial i effeithio ar amwynderau yn fanwl ym Mhennod 17 y Datganiad Amgylcheddol, Materion Economaidd-Gymdeithasol (**Dogfen 5.17**) gan gynnwys:

- Cymunedau (Aneddiadau): lle gallai effeithiau amwynder ar gymuned (a ddiffinnir fel grŵp o bump neu fwy o aelwydydd) darfu ar gymeriad neu natur ddeniadol ardal, neu allu’r trigolion i fwynhau’r ardal o’u cwmpas;

- Cymunedau (Cyfleusterau): lle y gallai effeithiau amwynder darfu ar ddefnyddio cyfleusterau cymunedol unigol fel ysgolion ac eglwysi;

- Atyniadau twristaidd ac adnoddau hamdden: effeithiau ar safleoedd neu asedau a allai darfu ar ddefnydd neu swyddogaeth y derbynnydd, fel Parciau Gwledig;

- Hawliau Tramwy Cyhoeddus (PRoW): lle y gallai effeithiau amwynder darfu ar y defnydd o lwybrau cyhoeddus, llwybrau ceffylau a llwybrau beicio; a

- Derbynyddion masnachol: Busnesau, gan gynnwys busnesau twristiaeth, lle y gallai effeithiau amwynder olygu colli busnes.

<u>Effeithiau yn ystod y camau adeiladu a gweithredu</u>

6.3.26 Ystyriwyd cyfanswm o 50 o aneddiadau cymunedol yng nghyswllt effeithiau posibl ar amwynderau. Wrth asesu’r effaith ar amwynderau yn ystod y cam adeiladu, ystyriwyd yr effeithiau uniongyrchol canlynol: effeithiau gweledol, traffig, ansawdd yr aer a sŵn adeiladu. Mae effeithiau’r Datblygiad Arfaethedig yn ystod y cam adeiladu wedi’u hasesu fel rhai niweidiol fach iawn neu niweidiol fach, felly **nid ydynt yn sylweddol** ar gyfer pob un o’r 50 o gymunedau.

6.3.27 Yn ystod y cam gweithredu, dim ond dau o’r pedwar pwnc hamdden sy’n berthnasol, gan nad oes unrhyw effeithiau o ran traffig nac ansawdd yr aer o ganlyniad i’r Datblygiad Arfaethedig, dim ond effeithiau gweledol a sŵn. Fel gyda’r cam adeiladu, ystyriwyd y byddai cyfanswm o 50 o aneddiadau cymunedol â’r potensial i weld effeithiau ar amwynderau yn ystod y cam gweithredu. Mae effeithiau’r Datblygiad Arfaethedig ar amwynderau yn ystod y cam gweithredu wedi’u hasesu fel rhai niweidiol fach iawn neu niweidiol fach, felly **nid ydynt yn sylweddol** ar gyfer pob un o’r 50 o gymunedau.

6.3.28 Pan nodwyd effaith sylweddol mewn cymuned, cafodd effeithiau posibl ar gyfleusterau cymunedol unigol y gymuned honno eu hasesu hefyd, a hynny yn ystod y camau adeiladu a gweithredu. Cafodd yr effeithiau ar gymunedau yn ystod y camau adeiladu a gweithredu eu hasesu fel rhai nad

ydynt yn sylweddol ym mhob cymuned; felly, mae’r effeithiau ar gyfleusterau cymunedol yn ystod y cam adeiladu wedi’u hasesu fel rhai nad ydynt yn sylweddol hefyd.

6.3.29 Ni ddisgwylir y bydd unrhyw effeithiau sylweddol ar amwynderau unrhyw atyniadau i dwristiaid, adnoddau hamdden na hawliau tramwy cyhoeddus. Adroddir ar effeithiau amwynderol ar dderbynyddion masnachol yn adran 6.4 o dan gwestiwn 8.

Effaith gyffredinol: amwynder

6.3.30 Rhagwelir rhywfaint o effeithiau niweidiol ar amwynderau ar lefel gymunedol, ond nid oes disgwyl i’r rhain fod yn sylweddol. Felly, daw’r asesiad i'r casgliad y byddai’n cael effaith niweidiol o bosibl ar ba mor ddymunol yw’r cymunedau sy’n cael eu heffeithio fel lle i fyw ynddynt, ond effaith fach iawn fyddai hyn ar y cyfan.

6.3.31 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod, nodir effaith niweidiol fach iawn yn gyffredinol (gyda sgôr o -0.2).

*C7. Ydy’r Datblygiad Arfaethedig yn debygol o arwain at gynnydd mewn troseddu neu drais yn y gymuned?*

- A allai’r Datblygiad Arfaethedig gynyddu’r risg o droseddu neu drais, gan felly, wneud y gymuned yn lle llai dymunol i fyw ynddi?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

6.3.32 Gallai newid yn lefel troseddu neu ganfyddiad bod cynnydd yn y risg o droseddu, effeithio ar ba mor ddymunol yw ardal i fyw ynddi.

6.3.33 Mae'r iaith Gymraeg yn ddibynnol ar gymunedau ffyniannus a chynaliadwy, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny lle mae 70% neu fwy o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Byddai troseddu, fel lles ac amwynder, yn dylanwadu ar gydlyniant a sefydlogrwydd cymdeithasol yn y tymor hir. Mae cymuned gynaliadwy yn gymuned sy'n cadw troseddu ar lefel dderbyniol. Fe allai cynnydd yn nifer y troseddau neu fwy o ofn trais ddrysu cydbwysedd cymuned, ac arwain at gyfradd uwch o bobl yn allfudo. Gallai hefyd arwain at straen personol a allai waethygu pryderon iechyd acíwt. Mae’r materion hyn sy'n ymwneud ag ansawdd bywyd yn fygythiad i gydbwysedd cymdeithasol. Mae anghydbwysedd cymdeithasol yn debygol o fynd yn groes i fuddiannau'r iaith Gymraeg, sy'n fwy tebygol o ffynnu mewn cymunedau cymdeithasol cytbwys.

6.3.34 Cofnodwyd 56 trosedd fesul 1,000 o’r boblogaeth ar draws Gogledd Cymru yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2016 (Cyf 26.30). Roedd y gyfradd hon yn uwch na'r cyfraddau a gofnodwyd yn Ynys Môn a Gwynedd, sef 42 fesul 1,000 o bobl a 50 fesul 1,000 o bobl, yn y drefn honno. Roedd y troseddau

a oedd wedi'u cofnodi yn uwch ar gyfer categorïau ‘trais a throseddau rhywiol’.

6.3.35 Ymchwiliwyd i’r canfyddiad o droseddu yng Ngogledd Cymru yn 2009, gydag adroddiad yn y wasg yn nodi bod ofn pobl o drais yn uwch na ddylai fod yng Ngogledd Cymru (Cyf 26.31). Datgelodd yr adroddiad heddlu cysylltiedig a ryddhawyd ym mis Mawrth 2009 (Cyf 26.31) fod 12% o bobl yn ofni dioddef trosedd treisgar, er mai'r tebygolrwydd gwirioneddol oedd 0.11%. Roedd un allan o bob pump o'r ymatebwyr yn credu bod siawns o 40% y bydden nhw'n dioddef trosedd cyffredinol, er mai'r gyfradd wirioneddol oedd 3%, yn ôl system fapio awdurdod yr heddlu. Mae hyn yn awgrymu bod ofn/canfyddiad uchel o drosedd yng Ngogledd Cymru. Gallai pobl hŷn a phobl sy’n byw mewn lleoliadau gwledig neu ynysig deimlo’n fwy agored i niwed o ran cynnydd mewn troseddu neu'r canfyddiad o gynnydd yn y risg o droseddu, gan leihau eu lles.

6.3.36 Sefydlwyd prosiect ar y cyd rhwng Medrwn Môn, Cyngor Sir Ynys Môn a Pŵer Niwclear Horizon i gael rhagor o drigolion Môn i gymryd rhan yn y gwaith ymgynghori a’r broses gynllunio ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus Horizon. Gwnaed hyn drwy ddulliau gwahanol ac amgen o ymgysylltu a chael gafael ar wybodaeth a fyddai’n helpu i fod yn sail ar gyfer y broses ehangach o gasglu gwybodaeth a oedd yn cael ei defnyddio yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol (Cyf 26.32). Bu tri o Swyddogion Cynnwys y Gymuned yn gweithio ar y prosiect am gyfnod o wyth mis. Fel y nodwyd yn adroddiad cryno’r prosiect ar y cyd, mae teimlo’n ddiogel mewn cymuned yn dod yn uchel ar restr pobl o flaenoriaethau a theimlai llawer fod ysbryd cymunedol yn fantais fawr (Cyf 26.32).

6.3.37 Roedd yr Arolwg Cymunedol ar gyfer Gorsaf Bŵer arfaethedig Wylfa Newydd yn ystyried sut roedd pobl Ynys Môn yn disgwyl i’r gweithwyr adeiladu ymddwyn yn yr ardal leol, gan fesur yr ofn o ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu. Roedd yr arolwg cymunedol yn dangos bod y rhan fwyaf o bobl (64%) yn disgwyl i’r gweithwyr adeiladu ymddwyn yn dda yn yr ardal leol, gyda 14% ddim yn cytuno nac yn anghytuno â’r datganiad, 4% yn anghytuno, 5% heb farn a 12% ddim yn siŵr. Mae hyn yn awgrymu nad oes llawer o ofn ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu gan weithwyr adeiladu ymysg pobl Ynys Môn.

6.3.38 Mae parth diogelwch cymunedol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) yn ystyried amddifadedd sy’n ymwneud â byw mewn cymuned ddiogel ac mae’n edrych ar y profiad go iawn o droseddau a thân, yn ogystal â chanfyddiadau o ddiogelwch allan yn yr ardal leol. Mae dros 50% o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is (LSOA) Ynys Môn yn hanner uchaf y parth diogelwch cymunedol, gyda llond llaw yn unig o'r ardaloedd hyn yn y degraddau isaf, a’r rheini wedi’u cronni o amgylch Caergybi, Llangefni, Amlwch a’r Fali.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu a gweithredu

6.3.39 Gan ystyried y nifer cymharol isel o weithwyr heb fod yn byw gartref fydd eu hangen yn ystod y cyfnod adeiladu, ni fyddai disgwyl i'r Datblygiad Arfaethedig gynyddu troseddu neu drais yn y TTWA i raddau a fyddai'n lleihau dymuniad pobl i fyw yn y TTWA. Nid ystyrir bod y cynnydd bychan hwn yn ystod y cyfnod adeiladu dros dro yn effeithio digon ar ba mor ddymunol yw byw yn y TTWA ac nid oes disgwyl iddo ddylanwadu ar y cydbwysedd cymdeithasol tymor hir yng nghymunedau Cymraeg eu hiaith y TTWA. Yn yr un modd, ni fyddai disgwyl i faint y gweithlu yn ystod y cyfnod gweithredu gynyddu troseddu na thrais yn y TTWA.

6.3.40 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cynnwys nod ar gyfer 'Cymru o gymunedau cydlynus'. Ystyrir y potensial ar gyfer troseddu dan y nod hwn yn yr Adroddiad Lles (**Dogfen 5.27**), gyda'r casgliad nad oes effeithiau sylweddol sy'n berthnasol i'r nod hwn.

Effaith gyffredinol: troseddu neu drais yn y gymuned

6.3.41 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod, nodir effaith niwtral yn gyffredinol (gyda sgôr o 0).

## 6.4 FFACTORAU ECONOMAIDD

*C8. Ydy'r Datblygiad Arfaethedig yn debyg o gael effaith niweidiol ar fusnesau lleol?*

- A allai'r Datblygiad Arfaethedig fod â'r potensial i arwain at sefyllfa lle byddai busnesau lleol Cymraeg eu hiaith yn cau, oherwydd:
  - lleihad yn y boblogaeth leol yn gyffredinol?
  - cynnydd yn nifer y trigolion di-Gymraeg?
  - cynnydd mewn cystadleuaeth niweidiol/fanteisiol?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

6.4.1 Mae gan ddatblygiadau seilwaith y potensial i effeithio ar y gadwyn gyflenwi ac ar fusnesau lleol sydd wedi'u hen sefydlu. Gallai prosiect seilwaith mawr sicrhau gwariant cyfalaf cysylltiedig uchel, a fyddai'n fanteisiol i fusnesau lleol. Byddai hyn yn cynnwys gwariant o ganlyniad i'r datblygiad ei hun yn ogystal â gwariant gan y gweithlu (e.e. ar amwynderau lleol), a'r galw uwch am nwyddau a gwasanaethau.

6.4.2 Mae cyfran fawr o weithlu Gwynedd ac Ynys Môn yn gweithio yn y sector cyhoeddus. Adwerthu a gwasanaethau llety a bwyd sy'n cyfrannu fwyaf at y cyfrannau o weithwyr yn y sector gwasanaeth.

6.4.3 Mae Gwynedd ac Ynys Môn yn ddibynnol iawn ar ficrofusnesau sy'n cyflogi naw person neu lai. Roedd oddeutu 90% o fusnesau Ynys Môn a Gwynedd yn perthyn i'r categori hwn yn 2017, gyda llai na 2% yn cyflogi 50 person neu fwy (Cyf 26.33).

6.4.4 Fel rhan o'r asesiad ym Mhennod 17 y Datganiad Amgylcheddol, Materion Economaidd-gymdeithasol (**Dogfen 5.17**), cynhaliwyd arolwg busnes yn ystod y cyfnod Rhagfyr 2016 – Ionawr 2017. Cynhaliwyd cyfweliadau dros y ffôn gan gwmni ymchwil marchnad annibynnol, yn targedu busnesau a allai gael eu heffeithio gan y Datblygiad Arfaethedig. Cysylltwyd â dros 400 o fusnesau, a chafwyd 52 ymateb – cyfradd ymateb o 13%.

6.4.5 I ddechrau, roedd y rhai a gyfwelwyd wedi'u lleoli ar draws Ynys Môn a gogledd Gwynedd, a thargedwyd busnesau o fewn y Parth Ymgynghori (oddeutu 3km o Derfynau'r Gorchymyn). Derbyniwyd 39 o ymatebion gan ddefnyddio'r dull hwn; yr oedd y 13 ymateb arall gan fusnesau rhwng 3km a 5km i Derfynau'r Gorchymyn y cysylltwyd â hwy yn gynnar yn 2017. Roedd y cwestiynau'n canolbwyntio ar ddeall sut mae busnesau'n rhagweld y gallai'r gwaith o adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw'r Datblygiad Arfaethedig effeithio ar eu gweithrediadau busnes a'u hyfywedd. Rhoddir canlyniadau llawn yr arolwg yn Atodiad 17.4 Canlyniadau'r Arolwg Busnes (**Dogfen 5.17.2.4**).

6.4.6 Crynhoir canfyddiadau'r arolwg busnes fel a ganlyn:

- Y prif faterion yn wynebu busnesau dros y 12 mis nesaf oedd 'ansicrwydd oherwydd Brexit' (15%), 'Economi'r DU/dirwasgiad' (13%), 'Mwy o gystadleuaeth' (12%), a 'Trethi busnes/trethi cyngor' (10%).
- Materion eraill a nodwyd yn fynych oedd 'Tywydd gwael' (8%), 'Llai o ymwelwyr/cwsmeriaid' (8%), a 'Recriwtio/prinder sgiliau' (8%).
- Dim ond un ymatebydd a nododd 'Datblygiadau seilwaith' fel mater o bwys yn wynebu'r busnes.
- Roedd 61% o ymatebwyr yn disgwyl na fyddai adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig yn cael unrhyw effaith ar eu busnes; ac roedd bron i chwarter (23%) yn meddwl y byddai presenoldeb y Datblygiad Arfaethedig yn cael effaith negyddol ar eu busnes. Roedd chwech o ymatebwyr (12%) yn disgwyl i'r gwaith adeiladu gael effaith gadarnhaol ar y busnes, a doedd 4% ddim yn gwybod.
- Roedd oddeutu hanner (46%) yr ymatebwyr yn disgwyl effaith gadarnhaol ar yr economi fusnes leol (Ynys Môn/Gogledd Gwynedd) o ganlyniad i'r adeiladu. Roedd traean (31%) yn disgwyl effaith negyddol.

- Roedd dros hanner yr ymatebwyr (56%) o'r farn na fyddai presenoldeb y Datblygiad Arfaethedig yn cael unrhyw effaith ar eu busnes yn ystod y cyfnod gweithredu. Roedd chwarter yr ymatebwyr (25%) yn disgwyl i'r Datblygiad Arfaethedig gael effaith negyddol ar eu busnes, ond credai 10% y byddai'n cael effaith gadarnhaol.

- Roedd bron i draean o'r ymatebwyr (31%) yn disgwyl i bresenoldeb y Datblygiad Arfaethedig gael effaith gadarnhaol ar yr economi leol; cyfradd ychydig is na'r rhai a oedd yn disgwyl effaith negyddol (37%). Roedd gweddill yr ymatebwyr o'r farn na fyddai'n cael unrhyw effaith (21%) neu'n datgan nad oeddynt yn gwybod (11%).

- Roedd y prif resymau a roddwyd am fanteision posibl yn cynnwys mwy o gwsmeriaid i fusnesau yn yr ardal leol (gweithwyr adeiladu) (27%) a mwy o swyddi i'r ardal (13%).

- Roedd y prif resymau a roddwyd am effeithiau negyddol posibl yn cynnwys 'Bydd yn cael effaith negyddol ar harddwch naturiol yr ardal/mae peilonau'n ddolur llygad' (13%), 'Effaith niweidiol ar dwristiaeth/bydd yn atal ymwelwyr rhag dod yma' (12%) a 'Tharfu ar gysylltiadau trafnidiaeth' (10%).

6.4.7 Yn ogystal â'r arolwg busnes, cynhaliwyd Arolwg Twristiaeth rhwng Awst a Hydref 2016. Roedd yr arolwg yn cynnwys cyfweliadau wyneb-yn-wyneb ag ymwelwyr â gwahanol safleoedd gwersylla/carafanau ac atyniadau, a defnyddwyr llwybrau cyhoeddus, ac o ganlyniad casglwyd 739 o ymatebion.

6.4.8 Pwrpas yr arolwg oedd deall ymddygiad ymwelwyr a'r cymhelliant i ymweld ag ardal, ac a fyddai adeiladu a gweithredu'r Datblygiad Arfaethedig yn debygol o effeithio ar fwriadau ymwelwyr i ddychwelyd, eu gwariant neu'r mathau o weithgareddau y maent yn cymryd rhan ynddynt.

6.4.9 Gweinyddwyd yr arolwg gan gwmni ymchwil marchnad annibynnol a chynigiwyd dewis i ymatebwyr gynnal y cyfweliad yn y Gymraeg neu yn Saesneg.

6.4.10 Fel gyda'r arolwg busnes, rhoddir canlyniadau llawn yr arolwg yn Atodiad 17.3 Canlyniadau'r Arolwg Busnes (**Dogfen 5.17.2.5**).

6.4.11 Rhoddir crynodeb o ganlyniadau'r arolwg ymwelwyr isod.

- Y rheswm a nodwyd fynychaf am ymweld ag Ynys Môn oedd 'Golygfeydd hardd/tirlun naturiol' yn cael ei ddilyn gan 'Hamddenol/ymlaciol/llonydd/tawel'. Dyma rai o'r ymatebion cyffredin eraill: 'Wedi bod o'r blaen/yn dod yma'n aml' a 'Cwrdd/ymweld â ffrindiau/teulu'.

- Pan ofynnwyd 'Pa mor debygol ydych chi o ymweld ag Ynys Môn eto yn y dyfodol?', fe ddywedodd 89% 'Tebygol Iawn' a 9% 'Eithaf Tebygol'.

- Dywedodd y mwyafrif o ymatebwyr (77%) na fyddai'r broses adeiladu ar gyfer peilonau ychwanegol yn gwneud unrhyw wahaniaeth i'r tebygolrwydd y byddent yn ymweld eto. Dywedodd cyfran debyg (78%) na fyddai'r broses adeiladu'n gwneud unrhyw wahaniaeth i'r math o weithgareddau yr oeddynt yn cymryd rhan ynddynt yn yr ardal.

- O ran y rhai a fyddai'n llai tebygol o ymweld yn ystod y cyfnod adeiladu, y prif bryderon oedd: i) y byddai traffig adeiladu'n llesteirio mynediad i'r ynys ac o'i chwmpas [cyfrif = 69, 9% o'r cyfanswm]; a ii) y byddai'r gwaith adeiladu'n ddolur llygad (a/neu'n swnllyd) [cyfrif = 45, 6% o'r cyfanswm].

- O ran y rhai a ymatebodd na fyddai'r gwaith adeiladu'n gwneud unrhyw wahaniaeth i'r tebygolrwydd y byddent yn ymweld eto, yr ymateb mwyaf cyffredin oedd: i) ni fyddai'n eu hatal rhag dod gan eu bod yn hoffi'r lle neu'n ymweld â theulu [cyfrif = 165, 22% o'r cyfanswm]; neu ii) dydyn nhw ddim yn poeni amdano neu nid ydynt yn cymryd sylw [cyfrif = 45, 6% o'r cyfanswm].

- Dywedodd y mwyafrif o ymatebwyr (84%) na fyddai presenoldeb peilonau ychwanegol/llinellau uwchben yn gwneud unrhyw wahaniaeth i'r tebygolrwydd y byddent yn ymweld eto. Y prif resymau a roddwyd pam na fyddai'r gwaith adeiladu'n gwneud unrhyw wahaniaeth oedd: i) ni fyddai'n eu hatal rhag dod gan eu bod yn hoffi'r lle neu'n ymweld â theulu [cyfrif = 178, 24% o'r cyfanswm]; a ii) dydyn nhw ddim yn poeni amdano neu nid ydynt yn cymryd sylw [cyfrif = 117, 16% o'r cyfanswm].

- O ran y rhai a fyddai'n llai tebygol o ymweld oherwydd presenoldeb peilonau ychwanegol/llinellau uwchben, y prif bryder oedd y byddai'r seilwaith yn ddolur llygad (a/neu'n swnllyd) [cyfrif = 47, 6% o'r cyfanswm].

- Yn yr un modd, dywedodd 84% na fyddai peilonau ychwanegol/llinellau uwchben (yn ystod gweithredu) yn gwneud unrhyw wahaniaeth i'r math o weithgareddau y byddent yn cymryd rhan ynddynt yn yr ardal. Roedd maint sampl y rhai a atebodd y byddai peilonau ychwanegol yn dylanwadu ar weithgareddau 'ychydig' neu 'llawer' yn gymharol fach [cyfrif = 74, 10% o gyfanswm yr ymatebwyr, rhai'n rhoi mwy nag un

rheswm]. Y prif bryderon a godwyd oedd: i) dolur llygad; a ii) am ymweld â mannau eraill i osgoi'r peilonau.

6.4.12 Mae'r canlyniadau'n awgrymu mai effeithiau gweledol a thraffig adeiladu yw prif bryderon ymwelwyr ynghylch y mathau hyn o brosiectau seilwaith, ond dim ond lleiafrif bach o ymwelwyr sy'n sôn amdanynt.

6.4.13 Mae Pennod 17 y Datganiad Amgylcheddol, Materion Economaidd-gymdeithasol (**Dogfen 5.17**) yn cynnwys asesiad o'r effeithiau amwynderol ar dderbynyddion masnachol. Mae hyn yn cynnwys busnesau twristiaeth, lle y gallai effeithiau ar amwynderau olygu colli busnes. Ystyriodd yr asesiad dros 1,000 o dderbynyddion masnachol yn yr asesiad i ddechrau, ac roedd 193 wedi cael eu hasesu'n fanwl. Roedd hyn yn cynnwys 63 busnes llety twristiaeth a 130 o fusnesau nad oeddent yn gysylltiedig â thwristiaeth.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu a gweithredu

6.4.14 Mae'r asesiad ym Mhennod 17 y Datganiad Amgylcheddol yn dod i'r casgliad nad oes unrhyw effeithiau amwynderol sylweddol ar fusnesau llety twristiaeth yn ystod y cam adeiladu. Ond, mae dau fusnes llety twristiaeth a allai brofi effaith niweidiol ganolig eilaidd (colli busnes) o ganlyniad i effeithiau gweledol.

6.4.15 Nid oes unrhyw effeithiau amwynderol sylweddol ar fusnesau llety twristiaeth yn ystod y cam gweithredu. Mae'n bosibl y bydd 13 busnes llety twristiaeth yn gweld effaith niweidiol eilaidd ganolig neu fawr yn ystod cam gweithredu'r Datblygiad Arfaethedig. Mae natur y busnesau hyn yn golygu bod golygfeydd yn debygol o fod yn ffactor pwysig o ran pa mor atyniadol ydynt. Felly, ystyrir y gallai effeithiau niweidiol eilaidd (colli busnes) effeithio arnynt.

6.4.16 Gan fod cannoedd o gyfleusterau llety twristiaeth wedi'u rhestru yn y TTWA, mae'r nifer gymharol fach o gyfleusterau yr effeithir arnynt yn golygu nad oedd yr effaith gyffredinol ar y sector llety twristiaeth yn Ynys Môn a Gwynedd wedi'i hasesu fel effaith sylweddol.

6.4.17 Allan o'r 130 o fusnesau nad ydynt yn gysylltiedig â thwristiaeth a gafodd eu hystyried yn yr asesiad, dim ond un sydd wedi'i asesu fel un a allai brofi effaith amwynderol sylweddol bosibl yn ystod y cam adeiladu. Byddai'r effaith yn niweidiol ganolig yn weledol a byddai'r effaith o ran sŵn yn ystod y cam adeiladu yn niweidiol ganolig. Oherwydd natur y busnes (llogi cerbydau), ni ystyrir bod y naill effaith na'r llall (ar y cyd nac yn unigol) yn debygol o arwain at effaith sylweddol ar y busnes, ac ni ragwelir unrhyw effaith eilaidd chwaith.

6.4.18 Yn ystod y cam gweithredu, mae’n bosibl y gallai’r Datblygiad Arfaethedig effeithio’n sylweddol ar bedwar busnes drwy gael effaith weledol niweidiol ganolig: mae tri o’r busnesau’n fusnesau ceir ac un yn gontractwyr trydan. Ni ystyrir bod yr un o’r busnesau hyn yn sensitif i effeithiau gweledol. O ganlyniad, ni ragwelir unrhyw effeithiau eilaidd. Ar y cyfan, ni ystyrir bod yr effeithiau ar dderbynyddion masnachol nad ydynt yn gysylltiedig â thwristiaeth yn sylweddol.

6.4.19 Yn ogystal, ni ddisgwylir unrhyw effeithiau amwynder sylweddol yn y lleoliadau lle y mae atyniadau twristaidd ac adnoddau hamdden allweddol wedi’u lleoli. Ni fyddai unrhyw darfu ar y gallu i ddefnyddio’r adnoddau hyn ac felly dim effaith ar refeniw twristiaeth.

6.4.20 Yn Adran 9.9 y Datganiad Amgylcheddol, Pennod 17, Materion Economaidd-Gymdeithasol (**Dogfen 5.17**), cydnabyddir y potensial ar gyfer effaith sylweddol ar niferoedd ac ymddygiad ymwelwyr yn ystod y cyfnod adeiladu a gweithredu ond, ystyrir ei bod yn annhebygol y byddai’r effaith hon yn cael ei gwireddu.

6.4.21 Ni ddisgwylir y bydd effeithiau mewnfudo ac allfudo’n cael effaith ar fusnesau lleol yn ystod y camau adeiladu a gweithredu, ac nid oes unrhyw effeithiau niweidiol/buddiol o ran cystadleuaeth wedi’u nodi.

Effaith gyffredinol: busnesau lleol

6.4.22 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod, a’r posibilrwydd o rywfaint o effeithiau amwynderol ar fusnesau yn lleol, nodir effaith niweidiol fach iawn yn gyffredinol (gyda sgôr o -0.2).

*C9. Ydy’r Datblygiad Arfaethedig yn debyg o gael effaith niweidiol ar swyddi lleol?*

- A allai’r Datblygiad Arfaethedig greu swyddi i’r boblogaeth leol Gymraeg ei hiaith (efallai oherwydd bod Cymry Cymraeg lleol yn meddu ar y sgiliau iawn)?
- A allai’r Datblygiad Arfaethedig fygwth swyddi’r boblogaeth leol Gymraeg ei hiaith (efallai drwy arwain at gau busnesau lleol)?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

6.4.23 Gall datblygiad newydd ddylanwadu ar nifer, math ac ansawdd y swyddi sydd ar gael yn lleol, gan ddibynnu ar y sgiliau sydd gan bobl leol. Mae'r asesiad yn ystyried y ddeinameg rhwng y galw am lafur ar y prosiect a chyflenwad a gallu'r gweithlu lleol. Gallai diffyg cyflenwad a gallu'r gweithlu llafur lleol i gwrdd â galw am lafur ar y Datblygiad Arfaethedig ddylanwadu ar gyfraddau mudo.

6.4.24 Mae data'r Gofrestr Fusnes a'r Arolwg Cyflogaeth (Cyf 26.32) yn datgelu bod 6.3% o'r gweithwyr diwydiannol ar Ynys Môn yn weithwyr adeiladu o'i gymharu â chyfartaledd o 4.7% ar gyfer Cymru. Mae cyfran is o boblogaeth Gwynedd yn gweithio yn y maes adeiladu, sef 4.8%, yn unol â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Diwydiannau gyda chyfraddau uwch yn Ynys Môn yw iechyd (13.1%); gweithgynhyrchu (12.5%) a manwerthu (11.9%). Yng nghyswllt Gwynedd, y diwydiannau gyda chyfartaledd uwch yw iechyd (19.0%); addysg (14.5%) a llety a gwasanaethau bwyd (11.4%). Tybir felly bod argaeledd da o weithwyr adeiladu ar Ynys Môn.

6.4.25 Mae Tabl 26.11 yn rhoi dadansoddiad o'r gweithlu yn ôl is-gategorïau o weithgareddau adeiladu, ac yn dangos mai 'gweithgareddau adeiladu arbenigol' sydd â'r ganran uchaf o weithwyr cyfwerth ag amser llawn (FTE) ym maes adeiladu ar draws yr holl ardaloedd daearyddol, er bod y gyfran ar Ynys Môn ac yng Ngwynedd yn is na chyfartaledd Cymru. Mae codi adeiladau a pheirianneg sifil ill dau yn cyfrif am gyfran uwch o weithlu Ynys Môn a Gwynedd na'r cyfartaledd dros Gymru.

**Tabl 26.11: Y boblogaeth gyfwerth ag amser llawn (FTE) sy'n gweithio ym maes adeiladu**

| FTE ym maes adeiladu yn ôl is-gategori ac ardal (2014) | | | |
|---|---|---|---|
| Is-gategori | Ynys Môn | Gwynedd | Cymru |
| Codi adeiladau | 39.2% | 40.9% | 30.5% |
| Peirianneg sifil | 20.9% | 19.4% | 18.5% |
| Gweithgareddau adeiladu arbenigol | 39.8% | 39.7% | 51.0% |
| Cyfanswm nifer y gweithwyr FTE | 1,032 | 2,049 | 49,672 |

<u>Effeithiau yn ystod y camau adeiladu a gweithredu</u>

6.4.26 Aseswyd effeithiau cyflogaeth ym Mhennod 17 y Datganiad Amgylcheddol, Materion Economaidd-Gymdeithasol (**Dogfen 5.17**) ar sail y proffil o weithgareddau adeiladu a nifer y gweithwyr cysylltiedig. Er mwyn deall yn well sut y byddai cynhyrchu cyflogaeth yn effeithio ar y farchnad lafur yn gyffredinol, ystyriwyd cyfartaledd cyflogaeth fisol ar y Datblygiad Arfaethedig yng nghyd-destun cyfanswm cyflogaeth. Defnyddiwyd ffactorau ychwaneged i bennu'r effaith net ar gyflogaeth yn ardal yr astudiaeth ar lefel y sector a chan ystyried y gronfa lafur.

6.4.27 Amcangyfrifir cyflogaeth gros yn yr asesiad economaidd-gymdeithasol (**Dogfen 5.17**). Drwy ddefnyddio’r cyfrifiad ychwaneged ar gyfer cyflogaeth, daw’r asesiad i’r casgliad y byddai’r Datblygiad Arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol gyffredinol ar y farchnad lafur leol, ond na fyddai’r effaith hon yn un sylweddol.

6.4.28 Yn ystod y cam adeiladu, amcangyfrifir mai 28 yw cyfanswm nifer y swyddi uniongyrchol ac anuniongyrchol a fydd yn cael eu llenwi gan y gweithlu sy’n byw yn lleol (yn seiliedig ar gyfartaledd y gweithlu misol yn ystod y rhaglen adeiladu, sef nifer cyfartalog ar gyfer tri opsiwn y twnnel). Gan ystyried bod cyfanswm cyflogaeth ar Ynys Môn ac yng Ngwynedd oddeutu 85,000, byddai’r Datblygiad Arfaethedig yn denu 0.033% o’r cyfanswm cyflogaeth.

6.4.29 Tybir, o’r herwydd, y gallai’r gweithlu lleol ymdopi’n hawdd â’r galw ychwanegol hwn am swyddi heb effeithio ar fusnesau eraill. Ystyrir ei bod yn hynod annhebygol y gallai creu swyddi olygu prinder sgiliau yn y sector adeiladu. Ystyrir y bydd prinder staff mewn sectorau eraill, fel twristiaeth, hefyd yn hynod annhebygol. Yn ogystal, byddai angen ystyried unrhyw effeithiau niweidiol yn ymwneud â phrinder sgiliau yng nghyd-destun effeithiau manteisiol uniongyrchol ac anuniongyrchol cynhyrchu cyflogaeth, beth bynnag.

6.4.30 Nid yw’r effeithiau ar gyflogaeth yn ystod y cam gweithredu wedi cael eu hystyried. Disgwylir i weithgareddau gweithredu cyffredinol gael eu cyflawni gan weithwyr presennol National Grid a byddai disgwyl i’r niferoedd fod yn isel. Byddai unrhyw gynhyrchu cyflogaeth y gellid ei briodoli’n uniongyrchol i weithredu’r Datblygiad Arfaethedig yn fychan iawn ac yn cynrychioli senario ‘dim newid’ neu ‘dim effaith’. Rhagwelir y bydd y cam gweithredu yn cael effaith niwtral ar swyddi lleol.

Effaith gyffredinol: swyddi lleol

6.4.31 Cesglir y byddai’r gyflogaeth fyddai’n cael ei chynhyrchu gan y Datblygiad Arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol gyffredinol ar y farchnad lafur leol, ond na fyddai’r effaith hon yn un sylweddol. Er bod llawer o’r swyddi’n galw am sgiliau adeiladu arbenigol, mae’n amlwg fod gan Ynys Môn, yn benodol, gyfran uwch na’r cyfartaledd o weithwyr adeiladu o fewn y gronfa o weithwyr diwydiannol.

6.4.32 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod, nodir effaith fanteisiol fach iawn yn gyffredinol (gyda sgôr o +0.2).

*C10. Ydy’r Datblygiad Arfaethedig yn debyg o arwain at fwy o amrywiaeth economaidd?*

- A allai’r Datblygiad Arfaethedig fod â’r potensial i arwain at fwy o wahanol swyddi i’r boblogaeth leol Gymraeg ei hiaith, oherwydd arallgyfeirio economaidd?

- A allai'r Datblygiad Arfaethedig arwain at fwy o bobl ddi-Gymraeg yn mewnfudo?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

6.4.33 Gall y Datblygiad greu cyfleoedd cyflogaeth sy'n gofyn am sgiliau penodol. Bydd rhai datblygiadau yn gofyn am ddefnydd uwch o'r iaith fel sgil y farchnad lafur. Bydd rhai eraill yn gofyn am sgiliau nad ydynt ar gael yn y farchnad lafur leol, gan arwain at weithwyr sydd â'r sgiliau penodol hyn yn mewnfudo i'r ardal.

6.4.34 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu'r amgylchedd gorau posibl i gefnogi twf y Gymraeg a datblygu economaidd a fydd o fudd i'w gilydd ac mae'n cydnabod y berthynas rhwng meithrin twf economaidd, swyddi, creu cyfoeth a lles y Gymraeg (Cyf 26.6).

6.4.35 Yr oedd y Gynhadledd Fawr yn sgwrs gyhoeddus am ddyfodol yr iaith Gymraeg yn dilyn canlyniadau Cyfrifiad 2011 ar yr iaith Gymraeg. Mae Nodyn Cyngor Technegol 20 (Cyf 26.6) yn cadarnhau mai un o'r themâu a bwysleisiwyd yn ystod y Gynhadledd Fawr oedd yr angen i gynyddu gwerth yr iaith Gymraeg fel sgil ar gyfer y gweithle, cryfhau economïau yr ardaloedd traddodiadol Cymraeg eu hiaith yng ngogledd a gorllewin Cymru, cynyddu gwerth economaidd yr iaith, a chefnogi siaradwyr Cymraeg i aros yn yr ardaloedd hynny.

6.4.36 Mae poblogaethau oedran gweithio, yn arbennig pobl ifanc, yn cael eu denu at leoliadau daearyddol lle mae datblygiad economaidd ar ei gryfaf ac mae economi ffyniannus yno. Fodd bynnag, byddai lleoliadau sydd ag economi ffyniannus hefyd yn denu unigolion di-Gymraeg. Fel y trafodwyd eisoes, gall y broses o bobl ddi-Gymraeg yn mewnfudo i ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol y gymuned effeithio ar ganran y siaradwyr Cymraeg a defnydd cyffredinol o'r iaith.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu a gweithredu

6.4.37 Byddai'r cyfnod adeiladu'n cynnig cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer cyflogaeth. Disgwylir y byddai'r rhan fwyaf o'r swyddi adeiladu arbenigol yn cael eu llenwi gan weithwyr na fyddent yn byw gartref, yn cynnwys timau o weithwyr arbenigol. Disgwylir y bydd oddeutu 10-20% o'r gweithwyr adeiladu yn ystod y cyfnod prysuraf yn dod o'r TTWA. Byddai hyn yn cael effaith fanteisiol fach iawn ar les yr iaith Gymraeg a'i diwylliant, gan y byddai'r cyfleoedd cyfyngedig hyn am swyddi yn helpu i gadw rhywfaint o'r boblogaeth leol bresennol, gyda chanran helaeth ohonynt yn siarad Cymraeg. Ni ragwelir unrhyw effaith ar swyddi lleol yn ystod y cam gweithredu.

6.4.38 Ystyrir bod sicrhau economi ffyniannus sydd â swyddi o ansawdd uchel ar gyfer pobl leol, sy'n cynnwys siaradwyr Cymraeg, yn bwysig i gefnogi ac i gynnal hyfywedd cymunedau. Mae'r strategaeth twf swyddi, sy'n rhan o

Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn, yn ceisio darparu fframwaith i hwyluso datblygiadau sy’n cynnal, yn gwella, yn moderneiddio ac yn amrywio economi Ynys Môn a Gwynedd, gan ddarparu un o’r blociau adeiladu sy’n gallu cyfrannu at gynnal a chryfhau cymunedau Cymraeg eu hiaith. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod y berthynas rhwng meithrin twf economaidd, swyddi, creu cyfoeth a lles y Gymraeg.

6.4.39 Un o nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yw cyflawni *‘Cymru sydd â diwylliant bywiog gyda’r Gymraeg yn ffynnu”*. Caiff ei gydnabod bod sylfaen economaidd gadarn yn un o’r ystod eang o ffactorau sy’n cyfrannu at lesiant y Gymraeg yng Nghymru yn y dyfodol. Gallai’r cyfleoedd economaidd a’r amrywiaeth sy’n cael eu cynnig yn ystod y cam adeiladu ddarparu cyfleoedd i feithrin sgiliau arbenigol a thwf yn y defnydd o’r Gymraeg, ynghyd â thwf economaidd.

6.4.40 Ni ddisgwylir effeithiau ar amrywiaeth economaidd yn ystod y cam gweithredu.

Effaith gyffredinol: amrywiaeth economaidd

6.4.41 Byddai’r cyfleoedd cyfyngedig am gyflogaeth, a’r ystod o swyddi a fyddai’n cael eu cynnig yn ystod y cam adeiladu, yn debygol o arwain at fwy o amrywiaeth economaidd ymylol yn y TTWA. Byddai hynny’n fanteisiol i’r iaith Gymraeg a’i diwylliant o ran helpu i gadw pobl leol, gyda chyfran uchel ohonynt yn siaradwyr Cymraeg. Mae’r berthynas rhwng twf economaidd a lles yr iaith Gymraeg a'i diwylliant yn y dyfodol yn cael ei chydnabod mewn polisïau cenedlaethol a lleol. Fodd bynnag, oherwydd natur arbenigol y swyddi adeiladu, byddai hyn hefyd yn golygu bod y gweithwyr na fyddent yn byw gartref yn symud i’r TTWA dros dro (edrychwch ar C1 a C2).

6.4.42 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod, nodir effaith fanteisiol fach iawn yn gyffredinol (gyda sgôr o +0.2).

*C11. Ydy’r Datblygiad Arfaethedig yn debyg o gael effaith ar lefel cyflogau lleol?*

- A allai’r Datblygiad Arfaethedig fod â’r potensial i gynyddu/lleihau lefelau cyflog o ganlyniad i gynnydd yn y gystadleuaeth o ran gweithlu/busnes?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

6.4.43 Mae prosiectau seilwaith mawr yn gallu effeithio ar lefelau cyflogau lleol, gan ddibynnu ar ystod y cyfleoedd gwaith a gynigir a lefel y sgiliau sydd eu hangen. Byddai pobl a grwpiau gwahanol yn ystyried effeithiau datblygiadau ar lefelau cyflog lleol mewn ffyrdd gwahanol.

6.4.44 Nid yw Ynys Môn wedi gweld twf sylweddol rhwng 2008 a 2016. Mae hyn yn groes i Wynedd, Sir Ddinbych a Sir y Fflint sydd wedi gweld twf mwy

sylweddol ers 2008. Yn 2016, roedd canolrif enillion wythnosol Ynys Môn yn £469 ac roedd Gwynedd ychydig o dan £440. O'i gymharu, roedd cyfartaledd canolrif cenedlaethol enillion wythnosol yn £498.

6.4.45 Yn 2014, roedd incwm gwario gros aelwydydd y pen ar Ynys Môn yn £16,238 a dyma oedd y trydydd uchaf ymysg 22 awdurdod lleol Cymru.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu a gweithredu

6.4.46 Rhagwelir y bydd y mwyafrif o'r swyddi adeiladu arbenigol (y rhai gyda chyflogau uwch, yn gymharol) yn cael eu llenwi gan weithwyr na fyddant yn byw gartref. O'r herwydd, mae'r Datblygiad Arfaethedig yn annhebygol o gyfrannu tuag at gynyddu enillion wythnosol cyffredinol ac incwm aelwydydd ar gyfer trigolion sy'n byw gartref yn y TTWA.

6.4.47 Yn 2011, roedd 64.8% a 48.1% o boblogaeth Ynys Môn a'r TTWA a oedd yn gweithio yn y diwydiant adeiladu yn siarad Cymraeg. Gan gydnabod y byddai'r rhan fwyaf o'r swyddi ar y Datblygiad Arfaethedig yn cael eu llenwi gan weithwyr heb fod yn byw gartref, ni fyddai cynnydd mewn cyfleoedd gwaith yn y sector adeiladu ond o fudd bach iawn i boblogaeth leol y TTWA sy'n siarad Cymraeg.

6.4.48 Er yr ystyrir y byddai'r cynnydd yn y cyflogau i nifer fechan o'r boblogaeth leol o'r TTWA a allai gael eu cyflogi yn ystod y cam adeiladu yn effaith fanteisiol fach iawn i'r gweithwyr, gellid ei ystyried hefyd yn effaith niweidiol i fusnesau lleol a allai brofi ychydig o ddadleoli gweithwyr sy'n gadael i weithio ar gam adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig. Gallai'r cynnig o gyflogau uwch i'r rheini a gyflogir ar y cam adeiladu olygu y gallai rhai busnesau lleol gael trafferth i gadw gweithwyr presennol, er bod yr effaith yn debygol o fod yn fach iawn yn yr achos hwn.

6.4.49 Oherwydd maint y gweithlu a nifer isel y gweithlu sy'n byw'n lleol (28) rhagwelir effaith niwtral ar lefelau cyflogau lleol yn ystod y cam gweithredu.

Effaith gyffredinol: cyflogau lleol

6.4.50 Gan ystyried y byddai llawer o swyddi gweithlu adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig yn gyffredinol yn darparu enillion wythnosol uwch na'r canolrif enillion wythnosol presennol ar gyfer y TTWA, byddai disgwyl i'r cam adeiladu olygu cyflogau uwch a lefelau cyflogau uwch ond byddai'n annhebygol o achosi dadleoli o fusnesau lleol, o ystyried mai dim ond 28 swydd newydd fyddai'n cael eu creu yn lleol.

6.4.51 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod, nodir effaith fanteisiol fach iawn yn gyffredinol (gyda sgôr o +0.2).

## 6.5 CYFLENWAD SEILWAITH AC ADDYSG

*C12. Ydy’r Datblygiad Arfaethedig yn debygol o gael effaith ar gost tai a llety?*

- A allai’r Datblygiad Arfaethedig orfodi pobl leol Gymraeg eu hiaith i adael y gymuned?
- A allai’r Datblygiad Arfaethedig fod â’r potensial i arwain at fwy o ddigartrefedd/straen tai ymysg aelwydydd lleol Cymraeg eu hiaith?
- A allai’r Datblygiad Arfaethedig atal pobl leol Gymraeg eu hiaith rhag dychwelyd i’r ardal/gymuned?

<u>Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth</u>

6.5.1 Gan y byddai’r gweithlu yn bennaf yn rhai heb fod yn byw - gartref ac y byddent yn defnyddio llety yn y TTWA yn ystod y cyfnod adeiladu dros dro, mae’n debygol y byddai cyfran o’r gweithwyr yn defnyddio anheddau o fewn y PRS. Mae’r AEIG yn ystyried effeithiau posibl hyn ar anghenion llety aelwydydd lleol.

6.5.2 Yn 2011, yr oedd 30,594 o aelwydydd ar Ynys Môn, gyda 14.1% ohonynt yn y PRS. Yng Ngwynedd, roedd 15.4% o 52,473 o aelwydydd yn y PRS.

6.5.3 Mae Pennod 17 y Datganiad Amgylcheddol, Materion Economaidd-gymdeithasol (**Dogfen 5.17**) yn cyfeirio at Adolygiad gan Cartrefi Cymunedol Gwynedd Cyf (2017) o’r PRS yng Ngogledd-orllewin Cymru (Cyf 26.34). Daeth yr adolygiad i’r casgliad bod y farchnad PRS ar Ynys Môn yn crynhoi o gwmpas Porthaethwy a de Ynys Môn i gyfeiriad y tir mawr. Yng Ngwynedd, mae’r farchnad yn cronni o gwmpas Bangor a Chaernarfon. Dywedir bod y farchnad ym Mangor yn hynod fywiog, ac yn cael hwb gan y farchnad fawr ymysg myfyrwyr. Mae’n debyg bod llai o eiddo yn dod ar y farchnad yn Ynys Môn, gan arwain at lefelau trosiant cymharol isel. Mae’r adolygiad o’r farchnad PRS yn dangos prinder o gartrefi fforddiadwy a thai cymdeithasol fel ffactorau sy’n cynyddu’r galw yn y farchnad rhentu preifat.

6.5.4 Amcangyfrifodd The Communities and Local Government 2014-2015 English Housing Survey (Cyf 26.35) lefel eiddo gwag yn ôl deiliadaeth ar sail deiliadaeth flaenorol eiddo[3]. Ar gyfer eiddo rhent preifat, mae canlyniadau’r astudiaeth yn dangos fod 11.1% yn wag. Gan ganiatáu ar gyfer cyfradd

[3] Nodir nad oedd modd dod o hyd i ddata cyfatebol ar gyfer Cymru, ac felly bod yr asesiad yn dibynnu ar yr arolwg o Loegr.

eiddo gwag weithrediadol o 3% – yr un gyfradd ag sy’n berthnasol i osod tai cymdeithasol – byddai’r gyfran eiddo gwag sydd ar gael ar gyfer gweithwyr adeiladu oddeutu 8%.

6.5.5 Yn 2016, y canolrif rhent ar gyfer llety sector preifat oedd £536 y mis ar Ynys Môn a £524 y mis yng Ngwynedd (Cyf 26.36).

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu a gweithredu

6.5.6 Amcangyfrifir ym Mhennod 17 y Datganiad Amgylcheddol, Materion Economaidd-Gymdeithasol (**Dogfen 5.17**) y byddai 22% o’r gweithlu – fel achos gwaethaf – yn defnyddio llety yn y sector rhentu preifat, sydd gyfystyr â 100 o weithwyr.

6.5.7 Ar sail dau weithiwr i bob aelwyd, byddai’r 100 gweithiwr hyn yn defnyddio 5.0% o’r llety ar Ynys Môn a Gwynedd. Os ystyrir lle ar Ynys Môn yn unig, mae’r ffigur hwn yn 14%. Os ystyrir lle yng Ngwynedd yn unig, mae’r ffigur hwn yn 7.7%. Ar sail hyn, daw’r asesiad economaidd-gymdeithasol (**Dogfen 5.17**) i’r casgliad nad yw’r effaith gyffredinol ar y PRS yn sylweddol.

6.5.8 Mae’n annhebygol y byddai nifer sylweddol o drigolion lleol sy’n siarad Cymraeg yn cael eu dadleoli o’r PRS yn eu cymunedau. Mae hyn yn seiliedig ar y dybiaeth y byddai gweithwyr yn symud yn bennaf i’r ardaloedd hynny sydd â mwy o stoc PRS. Ar sail yr effeithiau dros dro ar y PRS yn ystod y cam adeiladu, a’r nifer isel o weithwyr adeiladu y mae disgwyl iddynt ddefnyddio’r math yma o lety, ystyrir y byddai’n hynod annhebygol y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn atal pobl leol sy’n siarad Cymraeg rhag dychwelyd i'r ardal/gymuned.

6.5.9 Ni ragwelir effaith ar gost tai (a/neu straen tai) yn ystod y cam gweithredu.

Effaith gyffredinol: cost tai

6.5.10 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod, a’r nifer fach o weithwyr a fyddai’n defnyddio PRS, nodir effaith niweidiol fach iawn yn gyffredinol (gyda sgôr o -0.2).

*C13. A allai’r Datblygiad Arfaethedig gael effaith ar ysgolion lleol?*

- A allai’r Datblygiad Arfaethedig fygwth/diogelu ysgolion lleol o ganlyniad i lai/mwy o ddisgyblion ar y gofrestr ysgol?
- A allai’r Datblygiad Arfaethedig newid y cydbwysedd rhwng disgyblion Cymraeg a disgyblion di-Gymraeg?

6.5.11 Mae’r effaith bosibl ar ysgolion lleol yn niwtral, oherwydd ni ystyrir y byddai’r gweithlu adeiladu o’r tu allan i’r TTWA yn symud i'r TTWA gyda’u teuluoedd, fel y nodir yn Atodiad 17.2 y Cofnod Tybiaethau Dadansoddi'r Gweithlu (**Dogfen 5.17.2.2**). Mae’r gweithwyr adeiladu arbenigol sydd eu hangen ar

gyfer y llinellau uwch ben ac ar gyfer gwaith adeiladu'r twnnel wedi arfer gweithio i ffwrdd oddi cartref, yn hytrach na symud i leoliad pob prosiect. Mae natur y gwaith yn golygu bod prosiectau wedi'u lleoli ledled y DU yn ogystal â thramor. Fel rheol, nid yw gweithwyr yn symud gyda phob prosiect, gan y byddai hyn yn amharu ar fywyd eu teuluoedd, yn arbennig os oes ganddynt blant yn yr ysgol neu bartner sy'n gweithio.

Effaith gyffredinol: ysgolion lleol

6.5.12 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod, nodir effaith niwtral ar ysgolion lleol (gyda sgôr o 0).

*C14. Ydy'r Datblygiad Arfaethedig yn debyg o gael effaith ar ddarpariaeth gofal iechyd?*

- A allai'r Datblygiad Arfaethedig fygwth/diogelu cyfleusterau/gwasanaethau cyfrwng Cymraeg lleol?

6.5.13 Mae'r effaith bosibl ar y ddarpariaeth gofal iechyd yn niwtral, oherwydd ni ystyrir y byddai'r gweithlu adeiladu o'r tu allan i'r TTWA yn symud i'r TTWA gyda'u teuluoedd, fel y nodir yn Atodiad 17.2 y Cofnod Tybiaethau Dadansoddi'r Gweithlu (**Dogfen 5.17.2.2**). Mae'r gweithwyr adeiladu arbenigol sydd eu hangen ar gyfer y llinellau uwch ben ac ar gyfer gwaith adeiladu'r twnnel wedi arfer gweithio i ffwrdd oddi cartref, yn hytrach na symud i leoliad pob prosiect. Mae natur y gwaith yn golygu bod prosiectau wedi'u lleoli ledled y DU yn ogystal â thramor. Fel rheol, nid yw gweithwyr yn symud gyda phob prosiect, gan y byddai hyn yn amharu ar fywyd eu teuluoedd, yn arbennig os oes ganddynt blant yn yr ysgol neu bartner sy'n gweithio.

6.5.14 Ni ddisgwylir effeithiau ar y ddarpariaeth gofal iechyd yn ystod y cam gweithredu.

Effaith gyffredinol: y ddarpariaeth gofal iechyd yn lleol

6.5.15 O ystyried na fyddai'r gweithlu yn cofrestru i ddefnyddio cyfleusterau gofal iechyd lleol, nodir effaith niwtral ar y ddarpariaeth gofal iechyd (gyda sgôr o 0).

*C15. Ydy'r Datblygiad Arfaethedig yn debyg o gael effaith ar ddarparu gwasanaethau lleol, fel siopau/swyddfeydd post/banciau/tafarndai?*

- A allai'r Datblygiad Arfaethedig fygwth/diogelu siopau/swyddfeydd post/banciau/tafarndai lleol mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith, gan orfodi rhai grwpiau o'r boblogaeth i symud allan o'r ardal/gymuned e.e. yr henoed, pobl anabl neu bobl ifanc?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

6.5.16 Mae Adran 9.11 ym Mhennod 17 y Datganiad Amgylcheddol, Materion Economaidd-Gymdeithasol (**Dogfen 5.17**) yn rhoi dadansoddiad o effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig ar wariant a'r gadwyn gyflenwi.

6.5.17 Mae'r gwasanaethau a'r cyfleusterau lleol sydd ar gael a'r dewis ohonynt, yn dylanwadu ar ba mor hyfyw a chynaliadwy yw cymuned. Mae cadw poblogaethau presennol yn y gymuned, neu ddenu pobl sydd â chysylltiadau lleol i ddychwelyd i'r ardal hyd yn oed, yn helpu. Mae cyfleusterau lleol yn fannau cwrdd neu'n fannau ymgynnull cymdeithasol, sy'n hybu rhyngweithio yn y gymuned a rhwydweithiau Cymraeg.

6.5.18 Gallai'r mewnfudo i ardal arwain at fwy o alw am wasanaethau cyhoeddus, cyfleusterau a gwasanaethau lleol, gan gynnwys siopau, busnesau bwyd a diod, a chyfleusterau hamdden.

6.5.19 Mae amrywiaeth eang o wasanaethau cyhoeddus ar Ynys Môn ac yng Ngwynedd yn cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r rhain yn cyfrannu at ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn agweddau ar fywyd bob dydd. Ystyrir gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn hanfodol i sicrhau bod yr iaith yn goroesi, ac maent yn darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith.

6.5.20 Mae gan nifer o sectorau, gan gynnwys y sector cyhoeddus, rôl bwysig i'w chwarae i gryfhau seilwaith yr iaith Gymraeg ac i godi ymwybyddiaeth o'i gwerth.

6.5.21 Mae Strategaeth Iaith Gymraeg Cyngor Sir Ynys Môn 2016-2022 (Cyf 26.2) yn dynodi bod Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 "*wedi creu newid sylfaenol tuag at ddarparu dewis iaith ac angen iaith gan symud y cyfrifoldeb am sicrhau gwasanaethau addas oddi ar ysgwyddau'r defnyddiwr i'r darparwr.*"

6.5.22 Mae'r safonau iaith a gyflwynwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg gael gwasanaethau yn Gymraeg.

6.5.23 Fel y trafodwyd eisoes yn yr AEIG hwn, mae dwysedd y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn allweddol i sicrhau ffyniant yr iaith a chaiff hyn ei adlewyrchu yng ngweithgarwch y gymuned drwy gyfrwng y Gymraeg.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu a gweithredu

6.5.24 Gan ystyried y byddai poblogaeth y TTWA yn cynyddu ychydig dros dro o ganlyniad i'r mewnlifiad o weithwyr na fyddent yn byw gartref, byddai'r galw am wasanaethau lleol yn cynyddu rhywfaint yn sgil y cam adeiladu. Byddai'r cynnydd hwn yn y galw yn cynnwys cyfleusterau cymunedol fel siopau, swyddfeydd post, banciau a thafarndai lleol.

6.5.25 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cymunedau yn y TTWA wedi gweld gwasanaethau lleol o’r fath yn cau yn gyson. Byddai cynyddu’r defnydd o’r cyfleusterau hyn yn lleihau’r siawns y byddent yn cau, ac felly’n eu diogelu i’r dyfodol. Wrth ystyried cyfleusterau o'r fath sydd wedi cau’n ddiweddar, ystyrir hyn yn effaith fanteisiol o ran sicrhau dyfodol tymor byr i ganolig y busnesau hynny sy’n dal i fasnachu.

6.5.26 Mae hyn yn cael ei ystyried yn bwysig o ran diogelu cyfleoedd i boblogaethau lleol sy'n siarad Cymraeg ddefnyddio'r iaith yn y gymuned. Felly, o ran diogelu darpariaeth cyfleusterau o’r fath, caiff hyn ei nodi fel effaith fanteisiol.

6.5.27 Mae cyfleusterau cymunedol yn cyfrannu at ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn agweddau ar fywyd bob dydd. Mae gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn cael eu hystyried yn hanfodol i ddyfodol yr iaith, ac maent yn darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn rheolaidd. Er y byddai cyflwyno pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg i’r gymuned i ddefnyddio cyfleusterau cymunedol o’r fath yn cael effaith fanteisiol o ran diogelu cyfleusterau o’r fath, mae’n bosibl y gwelir rhai effeithiau niweidiol o ran gwanhau'r defnydd o’r Gymraeg yn y gymuned.

6.5.28 Ni ragwelir y bydd mwy o alw am wasanaethau lleol yn ystod y cam gweithredu.

<u>Effaith gyffredinol: darparu gwasanaethau lleol</u>

6.5.29 Ystyrir bod mwy o alw am gyfleusterau cymunedol yn fanteisiol o ran cefnogi cymunedau cynaliadwy, lle gall y Gymraeg ffynnu. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai cyflwyno gweithwyr adeiladu di-Gymraeg i gymunedau wanhau amlygrwydd y Gymraeg yn y gymuned a'r defnydd ohoni dros gyfnod o flynyddoedd.

6.5.30 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod, nodir effaith fanteisiol fach iawn yn gyffredinol (gyda sgôr o +0.2).

## 6.6 AGWEDDAU CYMDEITHASOL A DIWYLLIANNOL

*C16. Ydy’r Datblygiad Arfaethedig yn debygol o arwain at densiynau cymdeithasol, gwrthdaro neu raniadau difrifol o fewn y gymuned Gymraeg ei hiaith?*

- A allai’r Datblygiad Arfaethedig gael effaith anwastad sylweddol ar wahanol rannau o’r gymuned leol, gan o bosibl greu mantais i rai grwpiau ac anfantais i eraill?
- A allai’r Datblygiad Arfaethedig fynd yn groes i werthoedd traddodiadol mewn rhai rhannau o’r gymuned?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

6.6.1 Seilir hunaniaeth Gymreig ar yr iaith Gymraeg yn aml iawn. Mae astudiaeth o'r newidiadau mewn poblogaeth a mudo ar Ynys Môn ac yng Ngwynedd (Cyf 26.38), sy'n cael eu hystyried yn ddwy ardal sy'n gadarnleoedd i ddiwylliant Cymraeg a'r iaith Gymraeg, wedi adrodd am dystiolaeth o densiynau diwylliannol a chymdeithasol rhwng pobl sydd wedi symud i’r ardal a'r bobl leol fel hyn.

*“Gwelwyd fod mewnfudo i'r ardal o'r tu allan yn creu problemau cymdeithasol a diwylliannol – perthnasoedd rhwng y 'Saeson' a'r 'Cymry”… Nid oedd y bobl a oedd yn symud i mewn i'r ardal yn gwybod llawer am batrymau cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol lleol, ac roedden nhw'n tueddu i ddibynnu ar wybodaeth gyfyngedig a disgwyliadau rhannol.”*

6.6.2 Mae ardaloedd gwledig Cymru, lle caiff yr iaith Gymraeg ei siarad yn helaeth a lle mae diwylliant Cymraeg ar ei gryfaf, yn agored i effeithiau niweidiol o ganlyniad i fewnfudo.

6.6.3 Mae’r mesurau sydd wedi’u cynnwys yn y Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol Adeiladu (**Dogfen 7.4**), sydd wedi’u cyflwyno fel mesurau lliniaru ar gyfer yr effeithiau a nodir yng nghwestiwn 2, yn berthnasol i’r cwestiwn hwn hefyd (cwestiwn 16).

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu a gweithredu

6.6.4 Byddai’r cam adeiladu yn tarfu rhywfaint ar gymunedau ar hyd llwybr y Datblygiad Arfaethedig. Fodd bynnag, ni ystyrir bod natur tymor byr y tarfu ar gymunedau yn ardal yr astudiaeth yn ddigon sylweddol i effeithio ar densiynau cymdeithasol yng nghyffiniau'r Datblygiad Arfaethedig. Yn ogystal â hyn, mae nifer gyfyngedig y gweithwyr a natur dros dro y cam adeiladu, hefyd yn annhebygol o effeithio ar werthoedd traddodiadol y cymunedau yn ardal yr astudiaeth.

6.6.5 Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau ar densiynau cymdeithasol, gwrthdaro na rhaniadau difrifol yn ystod y cam gweithredu.

6.6.6 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 y cynnwys nod i greu ‘Cymru sy’n fwy cyfartal’. Ystyrir cefnogaeth gymdeithasol, rhwydweithiau cymdeithasol a rhaniadau yn y gymuned dan y nod hwn yn yr Adroddiad Lles (**Dogfen 5.27**), gyda’r casgliad nad oes effeithiau sylweddol sy’n berthnasol i’r nod hwn. Mae rhestr gyflawn o’r grwpiau agored i niwed sy’n cael eu hystyried ar gael yn yr Adroddiad Lles (**Dogfen 5.27**).

Effaith gyffredinol: tensiynau cymdeithasol/gwrthdaro/rhaniadau yn y gymuned

6.6.7 Fe asesir y bydd y camau adeiladu a gweithredu yn cael effaith niwtral yn gyffredinol ar densiynau cymdeithasol (gyda sgôr o 0).

*C17. A yw’r Datblygiad Arfaethedig yn debygol o arwain at newidiadau i’r traddodiadau a/neu ddiwylliant Cymraeg lleol?*

- A allai’r Datblygiad Arfaethedig arwain at aelwydydd lleol Cymraeg eu hiaith yn symud i ffwrdd o’r ardal?
- A allai’r Datblygiad Arfaethedig arwain at gynnydd sylweddol yn nifer yr aelwydydd nad ydynt yn lleol a/neu ddi-Gymraeg?
- A allai’r Datblygiad Arfaethedig arwain at newidiadau sylweddol i’r cyd-destun economaidd neu gymdeithasol, gan fygwth ffyrdd traddodiadol o fyw?
- A allai’r Datblygiad Arfaethedig effeithio ar aelwydydd lleol Cymraeg eu hiaith drwy gyflwyno/cyflymu newid cymdeithasol?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

6.6.8 Gall rhai datblygiadau arwain at leihau nifer y siaradwyr Cymraeg a/neu gyflwyno pobl ddi-Gymraeg i gymunedau sy'n siarad Cymraeg yn bennaf, o ganlyniad i fwy o gyfleoedd gwaith. Gall hyn arwain at dorri cysylltiadau teuluol, gwanhau neu chwalu rhwydweithiau cymdeithasol a cholli cydlyniant cymunedol. Yn aml, cysylltiadau teuluol, rhwydweithiau cymdeithasol a chydlyniant cymunedol sy'n sail i ddiwylliant a thraddodiad.

6.6.9 Mae rhai o’r prosiectau seilwaith mawr, yn sgil defnyddio’r tir, yn arwain at wahanu neu gau ffermydd teuluol, neu fusnesau eraill yn cael eu dadleoli gan y datblygiad ei hun. Er eu bod yn cael iawndal, mae’n gallu bod yn anodd ail-greu cysylltiadau hirsefydlog â chymuned neu ddeiliadaeth amaethyddol, a gallai effeithio ar allu’r boblogaeth leol sy’n gweithio ym myd amaethyddiaeth (gan gynnwys siaradwyr Cymraeg) i aros yn yr ardal.

Effeithiau yn ystod y camau adeiladu a gweithredu

6.6.10 Fel y trafodwyd eisoes yng Nghwestiynau 1-3, disgwylir y bydd y Datblygiad Arfaethedig yn cael effaith niweidiol fach iawn ar nodweddion y boblogaeth, ac effaith niweidiol fach ar y Gymraeg a'i diwylliant yn sgil mewnfudo. Oherwydd y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at weithwyr yn mewnfudo o'r ardal y tu allan dros dro, byddai hyn o bosibl hefyd yn gwanhau traddodiadau a diwylliant y Gymraeg, oherwydd y bobl ddi-Gymraeg. Fodd bynnag, does dim disgwyl i’r Datblygiad Arfaethedig arwain at gynnydd mawr yn nifer yr aelwydydd di-Gymraeg, nac achosi newidiadau arwyddocaol i’r cyd-destun economaidd na chymdeithasol, gan fygwth ffordd o fyw pobl.

6.6.11 Byddai’r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at ddefnyddio tir dros dro, ac a fyddai’n cael ei adfer yn ôl i’w ddefnydd cyn y cam adeiladu. Hefyd, byddai

tir yn cael ei ddefnyddio’n barhaol - ac ni fyddai modd adfer y tir hwn gan ei fod yn rhan o’r seilwaith parhaol.

6.6.12 Byddai’r rhan fwyaf o’r tir yn cael ei ddefnyddio dros dro, ac ar dir amaethyddol y byddai hyn yn effeithio’n bennaf, a fyddai’n cael ei ddychwelyd i’w ddefnydd blaenorol. Felly, does dim disgwyl y bydd y Datblygiad Arfaethedig yn arwain at wahanu daliadau tir yn barhaol, a fyddai’n cael effaith niweidiol ar y boblogaeth leol sy’n gweithio yn y diwydiant amaethyddol ac, felly, ar draddodiadau a diwylliant y Gymraeg.

6.6.13 Mae hyd at dri eiddo wedi’u nodi ar gyfer eu caffael, na fyddai’n cael eu defnyddio fel tai preswyl preifat mwyach o ganlyniad i’r Datblygiad Arfaethedig. Hefyd, mae eiddo sydd wedi mynd â’i ben iddo a fyddai’n cael ei atal rhag cael ei ddefnyddio at ddibenion preswyl eto. Mae’r eiddo wedi’u lleoli y tu allan i gymunedau ac maent un ai’n ddiarffordd neu wedi’u lleoli mewn ardal lle y mae eiddo’n wasgaredig ac o’r herwydd ni fyddai caffael yr eiddo hyn yn arwain at effaith niweidiol ar draddodiadau a diwylliant y Gymraeg.

6.6.14 Ni ddisgwylir effeithiau ar draddodiadau na diwylliant lleol yn ystod y cam gweithredu.

Effaith gyffredinol: Traddodiadau a diwylliant y Gymraeg

6.6.15 Ni fyddai’r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at wahanu’r gymuned yn sylweddol oherwydd mai dros dro fyddai’r tir yn cael ei ddefnyddio’n bennaf, ac mae daliadau amaethyddol yn debygol o aros yn gyflawn, fel sy’n cael ei asesu ym Mhennod 18 y Datganiad Amgylcheddol, Amaethyddiaeth (**Dogfen 5.18**). Gan mai dim ond ar nifer fach o gartrefi y byddai’r broses gaffael yn effeithio, gellid disgwyl yn rhesymol y byddai unrhyw drigolion sy’n siarad Cymraeg yn ailgartrefu o fewn y gymuned. Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod, nodir effaith niweidiol fach iawn yn gyffredinol (gyda sgôr o -0.2).

*C18. A yw’r Datblygiad Arfaethedig yn debygol o gael effaith ar grwpiau gwirfoddol/gweithgaredd/ieuenctid lleol?*

- A allai’r Datblygiad Arfaethedig orfodi pobl leol sy'n ymwneud â grwpiau lleol i symud o'r gymuned oherwydd:
  - mwy o ddiweithdra/straen economaidd, neu
  - cynnydd mewn prisiau llety/straen tai?

Dadansoddi gwaelodlin/tystiolaeth

6.6.16 Mae grwpiau ieuenctid a grwpiau gwirfoddol lleol yn dylanwadu ar gynnal a hybu'r Gymraeg drwy weithgareddau a chymorth i'r preswylwyr. Mae gan allfudiad siaradwyr Cymraeg lleol a/neu'r mewnlifiad o fewnfudwyr di-

Gymraeg i ardal botensial i niweidio'r cydbwysedd cymdeithasol a chyfranogiad lleol mewn grwpiau gwirfoddol/ieuenctid/gweithgaredd dros amser.

6.6.17 Mae tystiolaeth yn dangos bod cydberthynas gref rhwng hyfywedd a goroesiad iaith ac ardaloedd daearyddol lle mai'r iaith honno yw'r brif iaith (Cyfeirnod 26.50). Cydnabyddir bod angen dwysedd uchel o siaradwyr hefyd er mwyn i'r iaith Gymraeg fod yn iaith bob dydd mewn cymuned.

6.6.18 Mae dwysedd y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn allweddol i sicrhau ffyniant yr iaith a chaiff hyn ei adlewyrchu yng ngweithgarwch y gymuned drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gweithgareddau diwylliannol a chymunedol mewn ardal leol yn cyfrannu at werth iaith, a hefyd yn creu teimlad o berthyn i gymuned neu ardal.

6.6.19 Yn y TTWA, mae darpariaeth helaeth o gyfleoedd cymdeithasol cyfrwng Cymraeg yn y cymunedau sy'n gallu cynnal a hyrwyddo rhwydweithiau diwylliannol a chreadigol Cymreig, ynghyd â hyrwyddo'r profiad o fod yn rhan o gymuned Gymraeg fywiog. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys (ond nid y rhain yn unig) yr Urdd, Clybiau Ffermwyr Ifanc, Merched y Wawr, Cylchoedd Meithrin, Theatr Ieuenctid Môn, Gwasanaeth Ieuenctid Statudol, Allenni (grŵp cymunedol dwyieithog) a Chylchoedd Ti a Fi.

6.6.20 Mae'r mudiadau a'r gweithgareddau hyn yn chwarae rhan hollbwysig drwy gefnogi'r iaith mewn nifer o gymunedau ar draws y TTWA a'r tu hwnt. Maent yn gyfrifol am ddatblygu arweinwyr lleol a chefnogi gwirfoddolwyr yn y gymuned leol. Maent hefyd yn cynnig gweithgareddau cymdeithasol hollbwysig drwy gyfrwng y Gymraeg.

<u>Effeithiau yn ystod y camau adeiladu a gweithredu</u>

6.6.21 Mae'n annhebygol y byddai anghenion llety gweithwyr adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig yn cael cymaint o effaith ar y llety a'r tai sydd ar gael, fel y byddai pobl sy'n ymwneud â grwpiau cymunedol lleol yn gorfod symud o'u cymunedau.

6.6.22 Mae'r grwpiau gwirfoddol a chymunedol yn aml yn gallu bod yn ddolen gyswllt rhwng y rheini sy'n symud i'r ardal a'r gymuned. Ond yn achos y Datblygiad Arfaethedig hwn, mae'n annhebygol y bydd gweithwyr a fydd ond yn byw yn yr ardal yn ystod cyfnodau sifft, ac ond am ran o'r cyfnod adeiladu dros dro, yn ymwneud â'r grwpiau cymunedol lleol.

6.6.23 Ni ragwelir effeithiau ar grwpiau ieuenctid lleol yn ystod y cam gweithredu.

6.6.24 Rhagwelir y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn cael effaith niwtral ar grwpiau gwirfoddol/gweithgareddau/ieuenctid, ac o ganlyniad, ar y Gymraeg a'i diwylliant.

Effaith gyffredinol: grwpiau gwirfoddol/gweithgaredd/ieuenctid

6.6.25 Yn seiliedig ar yr asesiad a gyflwynir uchod, nodir effaith niwtral yn gyffredinol (gyda sgôr o 0).

## 6.7 CASGLIAD

*Mynegai asesu effaith gyffredinol*

6.7.1 Mae’r mynegai asesu effaith gyffredinol ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig (cyn rhoi unrhyw fesurau lliniaru ar waith) yn cael ei gyflwyno yn Nelwedd 26.4. Mae’r mynegai yn defnyddio codau lliw er mwyn gallu gweld yn hawdd beth yw’r effeithiau manteisiol, niweidiol neu niwtral posibl.

*Casgliad cyffredinol*

6.7.2 Fel y dangosir yn Tabl 26.12, ar gyfer wyth o’r 18 cwestiwn, mae’r asesiad yn dod i’r casgliad bod yr effeithiau’n niwtral. Pan nodir effaith fanteisiol, mae maint yr effaith yn fach iawn. Mae hynny hefyd yn wir am effeithiau niweidiol (mae pob effaith yn fach iawn), ac eithrio Cwestiwn 2 (mewnfudo) lle nodir effaith niweidiol fach. Y sgôr gyffredinol yw -0.02, wedi’i thalgrynnu i 0.0, sy’n dangos **effaith niwtral yn gyffredinol** ar yr iaith Gymraeg a’i diwylliant.

**Delwedd 26.4 Siart Sgôr Mynegai Sylfaen**

| Overall effect | Base index score | Magnitude of effect |
|---|---|---|
| Beneficial effect | +0.1 to +0.2 | Negligible beneficial effect |
| | +0.3 to +0.4 | Minor beneficial effect |
| | +0.5 to +0.7 | Moderate beneficial effect |
| | +0.8 to +1.0 | Major beneficial effect |
| Neutral effect | 0 | Neutral effect |
| Adverse effect | -0.1 to -0.2 | Negligible adverse effect |
| | -0.3 to -0.4 | Minor adverse effect |
| | -0.5 to -0.7 | Moderate adverse effect |
| | -0.8 to -1.0 | Major adverse effect |

**Tabl 26.12: Ystod y sgoriau mynegai sylfaen a ddefnyddiwyd i adlewyrchu maint yr effaith**

| | Nodweddion y boblogaeth | | | | Ansawdd bywyd | | | Ffactorau economaidd | | | | | Cyflenwad seilwaith | | | Cymdeithasol a diwylliannol | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | C1 Gwahaniaeth cyffredinol | C2 Mewnfudo | C3 Allfudo | C4 Strwythur oedran | C5 Iechyd | C6 Amwynder | C7 Troseddu | C8 Busnesau lleol | C9 Swyddi lleol | C10 Amrywiaeth economaidd | C11 Incwm | C12 Costau tai | C13 Ysgolion | C14 Gofal iechyd | C15 Gwasanaethau lleol | C16 Tensiynau/gwrthdaro | C17 Diwylliant a thraddodiadau | C18 Grwpiau ieuenctid / gwirfoddol |
| **Sgôr mynegai sylfaen** [4] | -0.2 | -0.3 | +0.2 | 0 | 0 | -0.2 | 0 | -0.2 | +0.2 | +0.2 | +0.2 | -0.2 | 0 | 0 | +0.2 | 0 | -0.2 | 0 |
| **Sgôr mynegai dimensiynol** [5] | -0.08 | | | | -0.07 | | | +0.04 | | | | | +0.07 | | | -0.07 | | |
| **Sgôr mynegai sylfaen cyffredinol** [6] | -0.02 | | | | | | | | | | | | | | | | | |

[4] Sgoriau mynegai sylfaen: Mae 0.1 i 1.0 yn dynodi effaith fanteisiol, 0 yn dynodi effaith niwtral, a -1.0 i -0.1 yn dynodi effaith niweidiol.

[5] Caiff y 18 sgôr mynegai sylfaen eu defnyddio i gyfrifo mynegai dimensiynol sy’n rhoi sgôr cymedr ar gyfer pob un o’r cydrannau bywyd cymunedol.

[6] Y sgôr cyfartalog ar draws y 18 sgôr mynegai sylfaen yw’r sgôr mynegai sylfaen cyffredinol. Mae’r asesiad yn ystyried bod yr iaith Gymraeg yn bwysig iawn ac felly mae’r sgoriau mynegai sylfaen hyn wedi cael eu cyfrifo fel sgoriau uchel o ran effaith ar yr iaith.

# 7 Llyfryddiaeth

Cyf 26.1. Llywodraeth Cymru (2017). *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr.* Ar gael yn: https://gov.wales/docs/dcells/publications/170711-welsh-language-strategy-cy.pdf ar 24/03/2017.

Cyf 26.2. Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2011). *Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.* Ar gael yn: http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/pdfs/mwa_20110001_we.pdf ar 24/ 03/2017.

Cyf 26.3. Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2015a). *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*. Ar gael yn: http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/pdfs/anaw_20150002_we.pdf ar 24/03/2017.

Cyf 26.4. Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2015). *Deddf Cynllunio (Cymru) 2015*. Ar gael yn: http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/4/pdfs/anaw_20150004_we.pdf ar 24/03/2017.

Cyf 26.5. Llywodraeth Cymru (2016). Polisi Cynllunio Cymru. Ar gael yn: https://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy ar 24/03/2017.

Cyf 26.6. Llywodraeth Cymru (2017a). *Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg.* Ar gael yn: https://gov.wales/topics/planning/policy/tans/planning-and-the-welsh-language/?skip=1&lang=cy ar 17/10/2017.

Cyf 26.7. Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008). *Diweddariad 2008 o Gynllun Gofodol Cymru: Pobl, Lleoedd, Dyfodol.* Ar gael yn: http://gov.wales/docs/desh/publications/130701wales-spatial-plan-2008-update-en.pdf ar 24/03/2017.

Cyf 26.8. Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd (2017). *Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd (2011-2026) Datganiad Ysgrifenedig.* Ar gael yn: http://gov.wales/docs/desh/publications/130701wales-spatial-plan-2008-update-en.pdf ar 12/12/2017.

Cyf 26.9. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (2013). *Cynllun Datblygu Lleol Conwy 2007-2022*. Ar gael yn: http://spp.conwy.gov.uk/upload/public/attachments/629/Conwy_Adopted_LDP_2007__2022_Welsh.pdf ar 24/03/2017.

Cyf 26.10. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (2011). *Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2007-2022*. Ar gael yn: http://www.eryri.llyw.cymru/__data/assets/pdf_file/0004/764455/CDLl-Terfynol-6.1.12.pdf ar 24/03/2017.

Cyf 26.11. Cyngor Sir Ynys Môn (2007). *Canllawiau Cynllunio Atodol, Cynllunio a’r Iaith Gymraeg.* Ar gael yn: http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/public/attachments/68/Cynllunio_ar_Iaith_Gymraeg.pdf ar 24/03/2017.

Cyf 26.12. Cyngor Gwynedd (2009). *Canllawiau Cynllunio Atodol: Cynllunio a’r Iaith Gymraeg.* Ar gael yn: http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/public/attachments/68/Cynllunio_ar_Iaith_Gymraeg.pdf ar 24/03/2017.

Cyf 26.13. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (2014). *Canllawiau Cynllunio Atodol LDP6; Yr Iaith Gymraeg.* Ar gael yn: http://spp.conwy.gov.uk/upload/public/attachments/629/Conwy_Adopted_LDP_2007__2022_Welsh.pdf ar 24/03/2017.

Cyf 26.14. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (2011a). *Canllawiau Cynllunio Atodol: Cynllunio a’r Iaith Gymraeg.* Ar gael yn: http://www.eryri.llyw.cymru/__data/assets/pdf_file/0008/136646/SPG-3-Cym.pdf ar 24/03/2017.

Cyf 26.15. Cyngor Sir Ynys Môn (2013). *Cynllun Integredig Sengl Ynys Môn 2013-2025.* Ar gael yn: http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/2012/11/26/ein-hynys-ein-dyfodol-2.pdf ar 24/03/2017.

Cyf 26.16. Heb ei ddefnyddio.

Cyf 26.17. Fforwm Strategol Iaith Ynys Môn (2016). *Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021*. Ar gael yn: http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/q/b/n/Strategaeth-Iaith-Gymraeg-2016-2021.pdf ar 24/03/2017.

Cyf 26.18. hunaniaith (2014). *Strategaeth Iaith Gwynedd 2014-2017*. Ar gael yn: https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Strategaeth-Iaith-Gwynedd.pdf ar 24/03/2017.

Cyf 26.19. Bwrdd yr Iaith Gymraeg, y Ffederasiwn Adeiladwyr Tai, Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2005). *Cynllunio a’r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen*. Ar gael yn: http://www.eryri.llyw.cymru/__data/assets/pdf_file/0017/24362/lingustic_impact_assessment_cym.pdf ar 24/03/2017.

Cyf 26.20. National Grid (2016). *Cysylltiad Gogledd Cymru: Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol - Adroddiad Cwmpasu Mai 2016.* Ar gael yn: https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/ipc/uploads/projects/EN020015/EN020015-000093-Scoping%20Report%20and%20Appendices.pdf ar 24/03/2017.

Cyf 26.21. Llywodraeth Cymru (2009). Cynllunio Seilwaith: *Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effaith Amgylcheddol) 2009*. Ar gael yn:

http://www.legislation.gov.uk/uksi/2009/2263/pdfs/uksi_20092263_en.pdf ar 24/03/2017.

Cyf 26.22. Yr Arolygiaeth Gynllunio (2016). *Barn Gwmpasu: Cysylltiad Arfaethedig Gogledd Cymru Gorffennaf 2016.* Ar gael yn: https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/ipc/uploads/projects/EN020015/EN020015-000071-Scoping%20Opinion

ar 24/03/2017.

Cyf 26.23. Llywodraeth Cymru (2009). *Cynllunio Seilwaith: Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009.* Ar gael yn: http://www.legislation.gov.uk/uksi/2009/2264/pdfs/uksi_20092264_en.pdf ar 24/03/2017.

Cyf 26.24. Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg (2015). *Y Defnydd o’r Gymraeg yng Nghymru.* Ar gael yn: https://gov.wales/docs/statistics/2016/160301-welsh-language-use-in-wales-2013-15-cy.pdf ar 24/03/2017.

Cyf 26.25. Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd (2016). *Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg, Gwynedd a Môn*. Ar gael yn: https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Dogfennau-cefndirol/CDLL.013---Asesiad-Effaith-ar-yr-Iaith-Gymraeg-(Mawrth-2016).pdf ar 24/03/2017.

Cyf 26.26. Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd (2015). *Papur cefndir 10A: Proffil Iaith Gwynedd.* Ar gael yn: https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Dogfennau-cefndirol/Dogfennau-cefndirol-2015/Papur-Testun-10A-Proffil-Iaith-Gwynedd.pdf ar 24/03/2017.

Cyf 26.27. Nomis (2011). *Cyfrifiad 2011.* Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/census/2011/all_tables ar 24/03/2017.

Cyf 26.28. Heb ei ddefnyddio.

Cyf 26.29. Llywodraeth Cymru (2015). *Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) 2014.* Ar gael yn: https://gov.wales/statistics-and-research/welsh-index-multiple-deprivation/?skip=1&lang=cy Ar 24/03/2017.

Cyf 26.30. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) (2016). *Trosedd yng Nghymru a Lloegr: y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2016*. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/crimeinenglandandwales/yearendingmar2016 ar 24/03/2017.

Cyf 26.31. Daily Post (2009). *Fear of crime ‘worse than reality’ say North Wales Police*. Ar gael yn: http://www.dailypost.co.uk/news/north-wales-news/fear-crime-worse-reality-say-2795506 ar 24/03/2017.

Cyf 26.32. Medrwn Môn, Cyngor Sir Ynys Môn a Pŵer Niwclear Horizon (2017). Adroddiad Swyddogion Cynnwys y Gymuned Ebrill 2017.

Cyf 26.33. Nomis (2015). Arolwg Cyflogaeth a Chofrestr Busnesau. Ar gael yn: http://www.Nomisweb.co.uk/ ar 24/03/2017.

Cyf 26.34. Cartrefi Cymunedol Gwynedd Cyf (2017). *Adolygiad o'r Sector Rhentu Preifat yng Ngogledd-orllewin Cymru*. Paratowyd gan arc4 (Heb ei gyhoeddi).

Cyf 26.35. Gweinidog Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (2016). *English Housing Survey 2014-2015: headline report*. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/statistics/english-housing-survey-2014-to-2015-headline-report ar 24/03/2017.

Cyf 26.36. Llywodraeth Cymru (2017). *Adolygiad o'r Sector Rhentu Preifat yng Ngogledd-orllewin Cymru 2017.* Ar gael yn: https://www.sell2wales.gov.wales/search/show/search_view.aspx?ID=FEB187815

ar 24/03/2017.

Cyf 26.37. Heb ei ddefnyddio.

Cyf 26.38. Jones, S., Day, G., Morris, E., Williams, T (2001). *The dynamics of demographic change and migration in north west Wales.* Prosiect ymchwil a gomisiynwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, CELTEC ac Arsyllfa Cyflogaeth Leol Gogledd Cymru.

Cyf 26.39. Nomis (2001). *Cyfrifiad 2001.* Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/census/2001 ar 24/03/2017.

Cyf 26.40. Llywodraeth Cymru (2012). *Cyfrifiad 2011: Canlyniadau Cyntaf Cymru.* Ar gael yn: http://gov.wales/docs/statistics/2012/120716-census-2011-first-results-wales-cy.pdf ar 24/03/2017.

Cyf 26.41. Llywodraeth Cymru (2016). *Polisi Cynllunio Cymru*. Ar gael yn: https://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy ar 24/03/2017.

Cyf 26.42. Nomis (2016). *Ystadegau Swyddogol am y Farchnad Lafur.* Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk ar 24/03/2017.

Cyf 26.43. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) (2015). *Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, 2015, Canlyniadau Dros Dro*. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/annualsurveyofhoursandearnings/2015provisionalresults ar 24/03/2017.

Cyf 26.44. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) (2016). *Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, 2016, Canlyniadau Dros Dro*. Ar gael yn:

https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/annualsurveyofhoursandearnings/2016provisionalresults ar 24/03/2017.

Cyf 26.45 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) (2016) *Mesur Lles Cenedlaethol: Boddhad mewn Bywyd* Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/wellbeing/datasets/measuringnationalwellbeinglifesatisfaction

Cyf 26.46. Llywodraeth Cymru (2005). *Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen.* Ar gael yn: http://www.eryri.llyw.cymru/__data/assets/pdf_file/0017/24362/lingustic_impact_assessment_cym.pdf ar 16/10/2017

Cyf 26.47 Marmot, M., a Bell, R. (2012). Fair society, healthy lives. Iechyd y Cyhoedd, 126, S4-S10. Adolygiad Marmot. (2010).

Cyf 26.48 Llywodraeth Cymru (2016). Llifoedd mudo yng Nghymru a gyda gwledydd y DU. Ar gael yn: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration ar 22/02/2018.

Cyf 26.49 Llywodraeth Cymru (2016) Swyddi gweithwyr yn ôl ardal a blwyddyn. Ar gael yn: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market ar: 22/02/18

Cyf 26.50 Llywodraeth Cymru. (2014). Iaith fyw: Iaith byw – Bwrw mlaen: Datganiad Polisi. [Ar-lein] Ar gael yn: https://gov.wales/docs/dcells/publications/140806-living-language-moving-forward-cy.pdf

Cyf 26.51. Heb ei ddefnyddio.

Cyf 26.52. Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn (2017). *Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn (Drafft)*. Ar gael yn: https://www.llesiantgwyneddamon.org/cy/Cynllun-Llesiant/

Cyf 26.53. Cyngor Sir Ynys Môn (2017). Cynllun Cyngor Sir Ynys Môn 2017-2022. Ar gael yn: http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/perfformiad-a-llywodraethu/cynllun-y-cyngor-a-pherfformiad?redirect=false

Cyf 26.54 Cyngor Sir Gwynedd (2018). Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023. Ar gael yn: https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholis%C3%AFau/Cynlluniau-corfforaethol-a-strategaethau/Cynllun-Cyngor-Gwynedd-2018-23.aspx

Cyf 26.55 Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (2011). Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Gynhyrchu Ynni Niwclear (EN-6). Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/47859/2009-nps-for-nuclear-volumeI.pdf